

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# ARIANNU STRWYTHUROL YR UNDEB EWROPEAIDD: CYNNYDD AR SICRHAU BUDDION DROS GYMRU

Paratowyd yr adroddiad ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

Cyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ac ar gael oddi wrth:

Y Llyfrfa Oriel
18-19 Y Stryd Fawr, Caerdydd,
CF10 1PT
Ffôn 029 2039 5548
Ffacs 029 2038 4347

Argraffwyd ar bapur Greencoat.
Defnyddir 80% ffeibr ail-gylchedig a 20% virgin TCF pulp o goedwigoedd cynaliadwy i gynhyrchu papur Greencoat.

DG Cyf: 4187VE

Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth i Gymru 1998.

John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

8 Gorffennaf 2004

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn hollol annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n ardystio cyfrifon y Cynulliad a'i gyrff noddedig cyhoeddus cysylltiedig; ac mae ganddo awdurdod statudol i adrodd i'r Cynulliad ar y cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithioldeb sydd gan y Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus noddedig wrth ddefnyddio eu adnoddau i gyflawni eu gweithrediadau.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.

Roedd Gillian Body, James Verity, Ben Robertson a Neil Parker yn nhîm astudio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Os am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru cysylltwch â:

Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru
3-4 Plas-y-Parc
Caerdydd
CF10 3DP
Ffôn: 029 2067 8500

e-bost: gillian.body@nao.gsi.gov.uk
ian.summers@nao.gsi.gov.uk
Cyfeiriad safle'r Gwe: http://www.agw.wales.gov.uk/index.htm

ISBN 1-90-421921-7







# ARIANNU STRWYTHUROL YR UNDEB EWROPEAIDD: CYNNYDD AR SICRHAU BUDDION DROS GYMRU

Paratowyd yr adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru cyflwynwyd I Cynulliad Cenedlaethol ar
8 Gorffennaf 2004

# Cynnwys


Crynodeb gweithredol 1

Rhan 1

Cyflwyniad 6

Cwmpas yr astudiaeth 7

Rhan 2

Cefnogi'r Broses 10

Mae gan WEFO ddigon o staff i gyflawni ei swyddogaethau ond mae swyddi gwag mewn rhai meysydd wedi creu pwysau arbennig 10

Mae WEFO wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu ei systemau gwybodaeth reoli ond mae angen gwelliannau pellach 10

Pwyntiau allweddol ar gefnogi'r broses 12

Rhan 3

Cael y prosiectau iawn 13

Nid yw'r swm o arian cyfatebol wedi rhwystro'r rhaglenni hyd yma, ond bydd angen rheolaeth gyllidebol dynnach i sicrhau bod hyn yn parhau 13

Mae llawer o'r prosiectau a arweinir gan y sector preifat wedi'u cymeradwyo neu ar y gweill, ac mae arian cyfatebol y sector preifat ar y trywydd iawn i fodloni'r targedau 15

Mae WEFO wedi cadw'r broses arfarnu prosiect dan adolygiad ac wedi symleiddio'r system ar gyfer Amcan 1, ond ni fydd hyn o reidrwydd yn arwain at ostyngiad mewn amserau arfarnu 16






Mae WEFO wedi gwella'r arweiniad sydd ar gael i'w swyddogion arfarnu prosiectau yn fawr ond nid yw'r rhesymau dros farnau pwysig bob amser yn cael eu dogfennu o hyd 21

Pwyntiau allweddol ar gael y prosiectau iawn 23

## Rhan 4

### Helpu cyflwyno'r hyn a addewir 24

Mae WEFO wedi sefydlu rheolaethau ariannol cadarn ac mae'n eu datblygu ymhellach i fodloni anghenion y rhaglen 24

Mae WEFO yn monitro'r rhaglenni'n effeithiol ac yn awr mae'n bwriadu gwirio data yn ddewisol 27

Pwyntiau allweddol ar helpu cyflwyno yr hyn sydd wedi'i addo 29

## Rhan 5

### Cadw'r arian 30

Mae angen i WEFO fodloni targedau gwariant a pherfformiad i fwyhau'r swm o Ariannu Strwythurol i Gymru 30

Bodlonodd WEFO y targedau angenrheidiol i ennill y Gronfa Berfformiad 30

Bodlonodd WEFO ei holl dargedau dadneilltuo ar gyfer 2003 ond roedd yn dibynnu ar fesurau arbennig i helpu eu cyflawni 32

Mae nifer o ffactorau ar hyd cylch y prosiect yn effeithio ar allu WEFO i fodloni'r targedau dadneilltuo 35

Mae gan WEFO strategaeth ariannu i helpu sicrhau bod y Cronfeydd Strwythurol yn cael eu gwario'n llawn erbyn diwedd y cyfnod rhaglennu 38

Pwyntiau allweddol ynghylch defnyddio'r holl arian sydd ar gael 40

## Atodiad

1 Diweddariad ar argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru 41

2. Peryglon i Gymru'n ennill y fantais fwyaf gan y Cronfeydd Strwythurol, fel a nodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei adroddiad ym mis Mehefin 2002 46







# Crynodeb gweithredol

1 Mae Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd yn cefnogi gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio i leihau anghydraddoldebau strwythurol rhwng gwahanol ranbarthau a grwpiau cymdeithasol. Cânt eu cyflwyno trwy raglenni saith mlynedd a gytunir rhwng yr aelod-wlad a'r Comisiwn Ewropeaidd - mae'r cyfnod rhaglennu cyfredol yn rhedeg o 2000 at ddiwedd 2006. Mae saith rhaglen yng Nghymru sy'n cael eu gweinyddu gan Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n atebol yn uniongyrchol i'r Undeb Ewropeaidd am reolaeth a rheolaeth ariannol y rhaglenni hyn. Mae partneriaeth yn gysyniad sylfaenol sy'n sail i gynnal y rhaglenni yng Nghymru. Mae WEFO'n tynnu oddi ar gefnogaeth ei bartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn ystod pob cam, ac mae'n eu cynnwys wrth ddatblygu strategaethau, dewis prosiectau ac, i raddau llai, wrth fonitro a gwerthuso cynnydd.

## Y Cronfeydd Strwythurol

**Cronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop** (ERDF), sy'n ceisio lleihau anghydraddoldebau rhanbarthol mewn datblygiad

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop** (ESF), sy'n ceisio gwella rhagolygon swyddi ar draws yr Undeb Ewropeaidd

**Cronfa Gyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop** (EAGGF), sy'n cynorthwyo datblygiad ac arallgyfeirio cymunedau mewn ardaloedd gwledig

**Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd** (FIFG), sy'n cynorthwyo ailstrwythuro'r diwydiant pysgota

## Y rhaglenni yng Nghymru

**Amcan 1**, yn gweithredu yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, sy'n ceisio cynorthwyo datblygiad ac addasiad strwythurol rhanbarthau y mae eu datblygiad economaidd ar ei hôl hi

**Amcan 2**, yn gweithredu mewn rhannau o Ddwyrain Cymru, sy'n ceisio cynorthwyo trawsnewidiad economaidd a chymdeithasol ardaloedd sy'n dioddef waethaf yn sgil dirywiad trefol a diwydiannol,ailstrwytho a cholli gweithgareddau traddodiadol mewn ardaloedd gwledig

**Amcan 3**, yn gweithredu ym mhob ardal y tu allan i ardal Amcan 1, sy'n anelu at frwydro yn erbyn diweithdra hirdymor trwy fynd i'r afael â materion fel eithrio cymdeithasol a chyfle cyfartal, a thrwy hyrwyddo dysgu gydol oes

Mae pedair o raglenni lawer llai hefyd, a elwir yn Fentrau Cymunedol

2 Y cylch rhaglennu hwn yw'r cyntaf lle mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn elwa yn sgil statws Amcan 1 - a ddyfernir i ardaloedd tlotaf Ewrop - ac mae'r Rhaglen Amcan 1 yn cyfrif am 84 y cant o'r £1.5 biliwn o Ariannu Strwythurol sydd ar gael i Gymru ar gyfer y cyfnod 2000-06. Mae hyn yn gynnydd sylweddol iawn ar y £395 miliwn a oedd ar gael yn y cyfnod 1994-99, ac wynebodd y wlad heriau mawr wrth lansio'r rhaglenni cyfredol. Mewn ymateb i ddiddordeb eang gan y cyhoedd yng nghynnydd y Rhaglen Amcan 1, cyflwynwyd adroddiad gennym ym mis Mehefin 2002 ar y prif risgiau'n wynebu WEFO a'i reolaeth o'r Cronfeydd Strwythurol. Cymerodd Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol dystiolaeth am yr adroddiad a'i gyhoeddi yn ei adroddiad ei hun ym mis Rhagfyr 2002. Mae'r adroddiad hwn yn adolygu'r cynnydd a wnaed ers hynny, ac yn canolbwyntio ar y meysydd pryder a godwyd yn ein hadroddiad ein hunain ac adroddiad y Pwyllgor Archwilio.

3 Rydym wedi clystyru'r materion perthnasol yng nghyd-destun pedair agwedd bwysig ar reolaeth WEFO o'r rhaglenni Cronfeydd Strwythurol cyfredol:

- **cefnogi'r broses** trwy adnoddau staff digonol a systemau gwybodaeth cadarn;
- **cael y prosiectau iawn** trwy helpu ymgeiswyr i ddod o hyd i arian cyfatebol, gan gynnwys y sector preifat, a gwneud mynediad at y Nawdd mor syml â phosibl ac arfarnu prosiectau'n drylwyr;
- **helpu cyflawni'r hyn sy'n cael ei addo** trwy ddarparu trefniadau monitro a rheoli effeithiol sy'n cynnig cymorth i brosiectau tra'n sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheolau; a
- **defnyddio'r holl arian sydd ar gael** trwy sicrhau bod Cymru'n osgoi dadneilltuo ac yn elwa o'r Gronfa Berfformiad.

## Cefnogi'r broses

4 **Mae gan WEFO ddigon o staff i gyflawni'i swyddogaethau, ond mae swyddi gweigion mewn rhai meysydd wedi creu pwysau arbennig.** Cafodd WEFO cryn drafferth o ran recriwtio digon o staff wrth i'r rhaglenni fynd rhagddynt yn 2000 a 2001, ond ers hynny mae'r sefyllfa wedi sefydlogi, gyda chyfradd swyddi gweigion o rhwng chwech ac wyth y cant ar gyfer meysydd busnes llawn weithredol. Mae lefel uchel o drosiant staff yn fewnol - yn rhannol oherwydd ei bod yn gymharol hawdd i gyflogeion drosglwyddo i rannau eraill o'r Cynulliad - yn ogystal â phroses recriwtio faith sy wedi cyfrannu at y lefel hon o swyddi gwag. Mae WEFO wedi rheoli'r diffyg trwy ailflaenoriaethau ac ailddyrannu gwaith, ac mae wedi llwyddo i gyflwyno'i wasanaethau craidd a bodloni terfynau amser pwysig.

5 **Mae WEFO wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu'i systemau gwybodaeth reoli, ond mae angen gwelliannau pellach.** Etifeddodd WEFO gyfres o systemau digyswllt nad oeddent yn addas i'r pwrpas, ac mae wedi gweithredu system gwybodaeth reoli newydd sy'n rhoi sylw sylweddol i'r gwendidau hyn. Mae lle i welliannau pellach, fel teilwra'r system ESF i fodloni anghenion WEFO a'i hintegreiddio'n llawn â systemau ar gyfer y Cronfeydd eraill. Roedd WEFO wedi gobeithio uwchraddio'i systemau cyfredol a chyflwyno system â chyswllt llawn â'r we yn 2004 a fyddai'n galluogi noddwyr prosiect i gyflwyno ceisiadau a hawliadau grant dros y Rhyngrwyd, gan ddileu llawer o gofnodi a gwirio data gan WEFO. Fodd bynnag, mae'n rhaid i bob prosiect TG newydd yn y Cynulliad gael ei ddatblygu o fewn fframwaith contract Merlin erbyn hyn. Bydd hyn yn arwain at raddfa amser hwy, ond mae'n cynnig y cyfle i WEFO i ddatblygu system unigol, wedi'i deilwrio, sy'n llawer mwy addas i'w anghenion. Erbyn hyn mae WEFO'n rhagweld y dylai system y gellir ei gweithredu ar y we fod ar gael erbyn 2007 ar gychwyn y cylch rhaglennu nesaf.

## Cael y prosiectau iawn

6 **Nid yw symiau'r arian cyfatebol wedi rhwystro'r rhaglenni hyd yn hyn, ond bydd angen rheolaeth dynnach ar y gyllideb i sicrhau bod hynny'n parhau.** Mae'r Cronfeydd Strwythurol yn darparu rhyw 47 y cant o gyfanswm cost y rhaglenni; daw'r £1.75 biliwn sydd ar ôl, a elwir yn arian cyfatebol, o ffynonellau domestig, a chynllunnir bod 70 y cant ohono'n dod o'r sector cyhoeddus a 30 y cant o'r sectorau preifat a gwirfoddol. Mae noddwyr prosiectau'n gyfrifol am sicrhau'u harian cyfatebol eu hunain, ond mae gan Lywodraeth y Cynulliad rôl allweddol wrth ddarparu gwybodaeth, monitro argaeledd cyffredinol arian cyfatebol ac wrth ddarparu llawer o fewnbwn y sector cyhoeddus yn uniongyrchol. Sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad nifer o gyllidebau arbennig yn benodol i ddarparu arian cyfatebol am y cyfnod hyd at fis Mawrth 2004. Roedd y cyllidebau hyn wedi'u tanddefnyddio nes 2003 gan fod gwariant ar brosiectau'n araf yn dod i'r fei. Ers hynny, mae'r sefyllfa arian cyfatebol wedi tynhau'n sylweddol am nifer o resymau, gan gynnwys cynnydd o £30 miliwn y flwyddyn yn y gofyniad cyffredinol am arian cyfatebol (i gynnwys y cynnydd tebygol yn yr Arian Strwythurol sydd ar gael i Gymru o ganlyniad i'r gyfradd gyfnewid £/€ is). Serch hynny, erys y Llywodraeth yn hyderus bod digon o arian cyfatebol ar gael ar gyfer y cyfnod cyfan, er y gall rhai trosglwyddiadau o gyllidebau datblygiad economaidd a chludiant a danwariwyd fod yn angenrheidiol i fodloni diffygion.

7 **Mae llawer o brosiectau a arweinir gan y sector preifat wedi'u cymeradwyo neu ar y gweill, ac mae arian cyfatebol y sector preifat ar y trywydd iawn i fodloni targedau.** Mae cynnydd da wedi'i wneud wrth feithrin cysylltiad â'r sector preifat a ddarparodd 35 y cant o gyfanswm yr arian cyfatebol ar 31 Mawrth 2004 yn erbyn targed o 30 y cant; gyda'i gilydd erbyn Mawrth 2004, mae 141 o brosiectau a arweinir gan y sector preifat wedi'u cymeradwyo, gyda 126 arall yn cael eu harfarnu neu wrthi'n cael eu datblygu. Mae WEFO hefyd yn cefnogi rhwydwaith o hwyluswyr, yn gweithio y tu mewn y Siambrau Masnach lleol, sy'n annog cyfranogaeth y sector preifat yn y rhaglenni. Gwnaethpwyd cynnydd arafach o ran comisiynu prosiectau, lle bydd WEFO yn pennu prosiect y mae angen ei gyflwyno ac yn gwahodd y sector preifat i gynnig am grantiau i'w gyflwyno. Nid yw'r un o'r "prosiectau templed" hyn wedi'u cyflwyno eto, er bod y weithdrefn gynnig wedi'i datblygu a gobeithia WEFO gael wyth prosiect ar waith erbyn 2005. Dengys profiad fod gwaith paratoi helaeth yn angenrheidiol, ond disgwylia WEFO i hyn lwyddo trwy arwain at brosiectau ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion penodol a fyddai'n anodd eu bodloni mewn ffyrdd eraill.

8 **Mae WEFO wedi adolygu'r broses arfarnu'n barhaus ac wedi symleiddio'r system ar gyfer Amcan 1.** Roedd hyd a chymhlethdod y broses yn bryder mawr ymhlith ymgeiswyr a phartneriaethau pan gyhoeddwyd ein hadroddiad ar gyfer 2002. Mae WEFO wedi ymateb trwy leihau nifer y partneriaethau a symleiddio'r broses datblygu ac arfarnu prosiectau. Mae nifer o gamau wedi'u cyfuno ac mae eraill yn gorgyffwrdd, felly dylai hyn leihau'r broses gyffredinol.

9 **Mae WEFO wedi gwella'r ffurflen gais Amcan 1 ar gyfer ERDF, EAGGF ac FIFG, ond nid oes cynlluniau i adnewyddu'r ffurflen ESF broblematig.** Mae WEFO wedi delio â chwynion ynghylch faint o wybodaeth sydd ei hangen gan ymgeiswyr trwy ddisodli'r ffurflen gais ar gyfer ERDF, EAGGF ac FIFG gyda ffurflen fyrrach sy'n gofyn am wybodaeth ffeithiol allweddol, ynghyd â

chynllun prosiect â'r cyfiawnhad sylweddol dros y prosiect. Ni fydd WEFO yn disodli'r ffurflen gais ESF am ei bod wedi'i hintegreiddio i'r gronfa ddata sy'n cael ei defnyddio yn Lloegr, er bod y ffurflen yn amhoblogaidd ymhlith ymgeiswyr, ac fe'i beirniadwyd yn y gwerthusiad annibynnol o'r rhaglenni a gynhaliwyd yn eu canol (y "gwerthusiadau canol-tymor" a oedd yn ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd).

10 **Mae amserau arfarnu prosiectau wedi dirywio er 2000 ond maent yn parhau ymhell uwchlaw targed WEFO, sef prosesu ceisiadau wedi'u paratoi'n llawn cyn pen 90 diwrnod.** Mae cyfartaledd yr amserau arfarnu wedi gostwng yn sylweddol wrth glirio'r llwyth cychwynnol o brosiectau; cymerodd WEFO gyfartaledd o 14 mis i arfarnu ceisiadau a ddaeth i law yn 2000, o gymharu â phum mis a hanner ar gyfer prosiectau a ddaeth i law yn hanner cyntaf 2003. Fodd bynnag, mae llai na 15 y cant o arfarniadau'n bodloni targed WEFO o 90 diwrnod ar gyfer cais wedi'i baratoi'n llawn. Mae WEFO wedi penderfynu cadw'r targed hwn, gan gredu bod modd ei gyrraedd os yw WEFO'n cadw cyswllt agos â gwaith paratoi'r cais ac yn cydlynu'r tasgau arfarnu'n fedrus.

11 **Mae WEFO wedi gwella'n fawr yr arweiniad sydd ar gael i swyddogion arfarnu prosiectau ond nid yw'r rhesymau dros farnau pwysig bob amser wedi'u dogfennu'n llawn eto.** Mae WEFO wedi cyflwyno arweiniad cynhwysfawr ar gyfer ei staff arfarnu sy'n rhoi sylw i'r gwendidau a nodwyd yn ein hadroddiad 2002, ac roedd y gwerthusiad ganol-tymor yn fodlon yn gyffredinol â'r safon arfarnu prosiectau. Fodd bynnag, mae lle i wella o hyd yn y modd y mae WEFO'n arfarnu'r materion mwy goddrychol fel gwerth ychwanegol a gwerth am arian, ac mae WEFO'n derbyn bod angen dogfennu'n well y rhesymau dros benderfyniadau a barnau allweddol.

## Helpu cyflawni'r hyn a addewir

12 **Mae WEFO wedi sefydlu rheolaethau ariannol cadarn ac mae wrthi'n eu datblygu ymhellach i fodloni anghenion y rhaglen.** Mae WEFO'n talu grantiau ar sail ceisiadau hunanardystiedig, ac yn dibynnu ar archwiliadau allanol blynyddol o wariant ar brosiectau i gael sicrwydd bod y ceisiadau hyn yn gywir. Hefyd, mae rheoliadau Ewropeaidd yn ei gwneud yn ofynnol i WEFO gynnal ei arolygiadau ei hun o reolaeth ariannol fwy manwl ar sail samplau.

Pan gyhoeddwyd ein hadroddiad ar gyfer 2002, nid oedd yr ymweliadau hyn wedi dechrau ar gyfer y rhaglenni cyfredol gan fod WEFO'n dal wrthi'n arolygu prosiectau o'r rhaglenni 1994-99. Codwyd nifer o faterion gan ein hadroddiad ni a'r Pwyllgor Archwilio:

- roedd anghysonderau yng nghwmpas y gwaith y gofynnwyd i archwilwyr prosiectau ymgymryd ag ef ac yn yr arweiniad a roddir i archwilwyr. Mae'r anghysonderau hyn yn dal i fodoli gan nad yw WEFO wedi cwblhau adolygiad o'r tair set o gyfarwyddiadau i archwilwyr sydd ar gael ar hyn o bryd;
- yr oedi o ran dechrau'r ymweliadau rheoli ariannol ar gyfer y rhaglenni cyfredol. Mae WEFO wedi dechrau gwaith ar y rhaglenni cyfredol ac wedi bodloni targedau ar gyfer maint y gwariant i'w gynnwys gan yr arolygiadau; a
- phryder mwy cyffredinol nad oedd neb yn ymweld â phrosiectau yn gynnar er mwyn adolygu cynnydd ac i sicrhau bod unrhyw broblemau'n cael eu hadnabod a'u datrys cyn gyflymed â phosibl. Mae WEFO nawr wrthi'n sefydlu tîm o ddeuddeg swyddog i ymweld â deg y cant o brosiectau bob blwyddyn, wedi'u dewis ar sail asesiad risg.

13 Ar hyn o bryd nid yw WEFO'n monitro'r mecanweithiau rheoli amrywiol yn ffurfiol, er bod cynlluniau ganddo i wneud hynny. Mae'r rheolaethau amrywiol yn gorgyffwrdd i ryw raddau hefyd - mae'r archwiliadau prosiect a'r arolygiadau rheolaeth ariannol yn cynnwys llawer o'r un gweithdrefnau, a gall fod yn bosibl rhesymoli cwmpas ac amlder yr archwiliadau prosiect, yn amodol ar gydymffurfio â rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd.

14 **Mae WEFO'n monitro'r rhaglenni'n effeithiol ac mae cynlluniau ganddo nawr i ddilysu data yn ddewisol.** Mae WEFO'n defnyddio'i system gwybodaeth reoli i fonitro gweithgareddau a chanlyniadau'r rhaglenni Ewropeaidd sydd dan ei reolaeth, ac mae'r system targedau a'r monitro wedi'u hardystio'n fras gan y gwerthusiadau canol-tymor. Mae rhai amheuon ynghylch ansawdd y data a gyflwynir gan noddwyr prosiectau; mae WEFO'n bwriadu archwilio'r broblem hon fel rhan o arfarniad ehangach o effaith y rhaglenni, ac i adolygu systemau casglu data fel rhan o'i ymweliadau monitro a rheoli prosiectau.

## Cadw'r arian

15 Tua hanner ffordd drwy'r rhaglenni, gwnaeth yr Undeb Ewropeaidd "Cronfa Berfformiad" o nawdd ychwanegol ar gael ar gyfer y rhaglenni hynny sy'n bodloni meini prawf penodol (cyfle i elwa'n ariannol). Ac, er bod swm yr Arian Strwythurol ar gyfer pob rhaglen yn cael ei gytuno ar gychwyn y cyfnod saith mlynedd, mae angen gwario'r arian yn unol â phroffiliau a gytunir neu caiff y gweddill sydd heb ei wario ei dynnu'n ôl neu'i "ddadneilltuo" (risg o golli arian).

16 **Llwyddodd Cymru i fodloni'r targedau angenrheidiol i gael y Gronfa Berfformiad.** Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Mawrth 2004 y byddai Cymru'n gymwys ar gyfer y Gronfa Berfformiad am bob un o'r tair prif raglen (Amcanion 1, 2 a 3). Mae hyn yn ychwanegu pedwar y cant neu £65 miliwn at gyfanswm y gyllideb rhaglenni ar gyfer y cyfnod 2000-06, ac nid yw'n ofynnol cael arian cyfatebol ychwanegol. I fod yn gymwys, roedd rhaid i Gymru fodloni o leiaf 75 y cant o'r meini prawf ym mhob un o'r tri chategori: effeithiolrwydd (gweithgareddau a chanlyniadau'r rhaglenni), rheolaeth (ansawdd rheolaeth WEFO o'r Cronfeydd) ac ariannol (digon o wariant ac arian cyfatebol y sector preifat). Rhoddodd y Comisiwn bwyslais arbennig ar gyflawni meini prawf ariannol a rheoli.

17 **Llwyddodd WEFO i fodloni pob un o'i dargedau dadneilltuo ar gyfer 2003, ond fe ddibynnodd ar fesurau arbennig i helpu'u cyflawni.** Bodlonodd WEFO bob un o'i dargedau ym mis Rhagfyr 2003 ar gyfer gwario yn erbyn proffil, yn gyfforddus yn achos rhai ohonynt, ond roedd eu cyflawni'n anodd eithriadol - dim ond ym mis Rhagfyr y bodlonwyd rhai ohonynt, ac roeddent yn ddiweddglo ymdrech ddwys i greu gwariant ychwanegol, megis £34 miliwn o grantiau ôl-weithredol (wedi'u cymeradwyo yn dilyn gwariant) a £9 miliwn o wariant a grëwyd trwy godi cyfraddau grant ar brosiectau sy'n bodoli eisoes. Daeth WEFO ymlaen â gwariant hefyd trwy ofyn am brosiectau a fyddai fel arfer yn gwneud cais am grantiau bob chwarter i gyflwyno ceisiadau misol am fis Hydref a mis Tachwedd 2003. Pe na bai WEFO wedi cymryd y mesurau arbennig hyn i gynyddu gwariant, byddai Cymru wedi colli £105 miliwn - £40 miliwn o arian wedi'i ddadneilltuo a £65 miliwn arall o arian y Gronfa Berfformiad, a oedd yn dibynnu ar WEFO'n bodloni'i dargedau gwario.

18 Cyfrannodd nifer o ffactorau at yr anawsterau a wynebodd WEFO wrth gyflawni'r targedau gwario:

- cwymp sydyn yn y gyfradd gyfnewid £/€ yn gynnar yn 2003 a gynyddodd y targed gwario (pe byddai'r cyfradd gyfnewid blaenorol wedi dal i fod yn berthnasol, byddai WEFO wedi cwrdd â'r rhanfwyaf o'i dargedau heb angen mesurau arbennig);
- oedi hir o ran derbyn ceisiadau am grant - yn enwedig gan gyrff y sector cyhoeddus;
- problem barhaol prosiectau'n gwario llai nag a ragwelant; a
- diffygion o ran cymeradwyo prosiectau mewn rhai rhannau o'r rhaglenni, gan olygu y bydd gwariant yn cael ei oedi hefyd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio nawr i ddatblygu prosiectau mawr, Cymru gyfan, i lenwi'r bylchau hyn yn y rhaglen yn benodol.

Er gwaetha'r ffactorau hyn, mae WEFO a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau'n hyderus ynghylch eu gallu i fodloni'r targedau dadneilltuo bob blwyddyn ar gyfer gweddill y rhaglenni.

19 **Mae gan WEFO strategaeth ariannu gadarn i helpu sicrhau bod y Cronfeydd Strwythurol yn cael eu gwario'n llawn erbyn diwedd y cyfnod rhaglennu.** Mae WEFO yn sicrhau bod y Cronfeydd Strwythurol yn cael eu gwario'n llawn erbyn diwedd y rhaglenni trwy glustnodi ymlaen llaw (cymeradwyo grant ar gyfradd gyflymach nag a gynlluniwyd yn wreiddiol i leihau'r risg o ddadneilltuo), gor-raglennu (ymrwymo mwy o arian nag sydd ar gael mewn gwirionedd, ar y sail na fydd angen rhywfaint ohono fyth gan fod prosiectau'n tanwario), ariannu ar y cyd (gan ddefnyddio'r Cronfeydd Strwythurol i ehangu neu greu cynlluniau mawr a fydd yn help llenwi bylchau a hwyluso rheoli'r rhaglenni) a defnyddio prosiectau ôl-weithredol i fodloni unrhyw ddiffygion sydd ar ôl. Mae'r strategaeth hon yn adlewyrchu profiad diweddar WEFO ac mae'n briodol yn ei safle presennol.



# Y Darlun Mawr

Mae WEFO wedi delio â llawer o'r materion a godwyd yn ein hadroddiad 2002 a chan y Pwyllgor Archwilio'n ddiweddarach y flwyddyn honno. Nid yw rhai o argymhellion y Pwyllgor Archwilio wedi'u gweithredu'n llawn eto, ond aeth WEFO i'r afael â'r materion hynny â'r risg fwyaf yn gyntaf. Mae WEFO a'i bartneriaid wedi dod drwy'r gwerthusiad a'r adolygiad canol-tymor yn llwyddiannus, gan lwyddo i sicrhau'r Gronfa Berfformiad a bodloni pob un o'i dargedau gwario er gwaetha'r oedi o ran cymeradwyo llawer o brosiectau a'u cynnydd araf. Mae'r rhain yn gyflawniadau gweddol fawr. Serch hynny, mae heriau difrifol ar ôl o hyd, ac mae mwy i WEFO i'w wneud. Yn benodol, dim ond llwyddo i osgoi dadneilltuo ac felly cymhwyso ar gyfer y Gronfa Berfformiad o drwch blewyn a wnaeth Cymru; roedd llwyddiant - gwerth cyfanswm o £105 miliwn i Gymru - yn dibynnu ar WEFO'n galw ar fesurau arbennig i greu gwariant. Bydd y cwmpas ar gyfer gweithredu felly yn lleihau wrth i'r rhaglenni fynd yn eu blaen ac wrth gymryd y dewisiadau hawsaf. O gofio'r ystod o ffactorau sydd o bosibl yn effeithio ar allu WEFO i fodloni'i dargedau dadneilltuo, mae'r risg o ddadneilltuo - colli arian i Gymru - yn dal yn risg go iawn ar gyfer 2004 a thu hwnt. Yn olaf, mae angen i WEFO baratoi mewn da bryd ar gyfer y cylch rhaglennu nesaf, pan fydd Cymru'n debygol o gael nawdd Amcan 1 trosiannol sylweddol, fel nad yw'r problemau a boenydiodd dechrau'r rhaglenni cyfredol yn digwydd eto. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn effro i'r heriau hyn ac mae ganddi gynlluniau i'w bodloni.





# 1 Cyflwyniad

1.1 Mewn ymateb i ddiddordeb eang y cyhoedd yn llwyddiant y Rhaglen Amcan 1, cyhoeddwyd adroddiad gennym ym mis Mehefin 2002 ar reolaeth y Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru[1]. Cymerodd Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol dystiolaeth am yr adroddiad a chyhoeddi'i adroddiad ei hun ym mis Rhagfyr 2002, a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion i wella rheolaeth y rhaglenni. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r cynnydd a wnaed wrth weithredu argymhellion archwilio ac mae'n adolygu lefel gwariant ar raglenni, gan y bydd yr arian yn cael ei dynnu'n ôl ("dadneilltuo") dan reolau'r Undeb Ewropeaidd os na chaiff ei wario'n ddigon cyflym.

1.2 Mae Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd yn bodoli i ddelio â phroblemau economaidd a chymdeithasol strwythurol er mwyn lleihau anghyfartaleddau rhwng gwahanol ranbarthau a grwpiau cymdeithasol. Cyflwynir Arian Strwythurol trwy raglenni saith mlynedd a ddatblygir gan yr awdurdodau perthnasol mewn aelod-wledydd ac a gytunir gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r cyfnod rhaglennu cyfredol yn rhedeg o 1 Ionawr 2000 i 31 Rhagfyr 2006.

1.3 Mae Cymru'n mynd i elwa o gynnydd mawr mewn Cronfeydd Strwythurol o gymharu â rhaglenni blaenorol: mae £1.5 biliwn[2] ar gael i'w ymrwymo yn ystod y cyfnod cyfredol. Ategir hyn gan £1.75 biliwn o sectorau cyhoeddus a phreifat y DU, a elwir yn arian cyfatebol, a all ddod o wariant cyfredol. Y rheswm am y cynnydd hwn yw bod Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (sy'n cynnwys rhyw 63 y cant o boblogaeth Cymru) yn cymhwyso ar gyfer arian Amcan 1, sy'n cael ei gyfeirio at ranbarthau tlotaf yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Rhaglen Amcan 1 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cyfrif am 84 y cant o gyfanswm yr arian sydd ar gael, ac mae'r gweddill yn cael ei ddosbarthu ar draws chwe rhaglen lawer llai **(Ffigur 1).**

1.4 Caiff y Cronfeydd Strwythurol eu gweinyddu yng Nghymru gan Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n atebol yn ffurfiol i'r Undeb Ewropeaidd am reoli a thalu'r cronfeydd yn unol â'i reolau. Fodd bynnag, mae'r cysyniad o bartneriaeth yn sail i gynllunio a chyflwyno'r rhaglenni yng Nghymru. Mae gan bartneriaid WEFO - sy'n cynrychioli ystod amrywiol o ddiddordebau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol - ran fawr wrth gynllunio a chyflwyno'r rhaglenni, trwy rwydwaith o bwyllgorau â swyddogaethau penodol yn bennaf. Yn y pen draw, noddwyr y prosiectau - y rheiny sy'n gwneud ceisiadau am grantiau ac yn cyflwyno'r prosiectau ar lawr gwlad - sy'n gyrru'r rhaglen ac a gaiff y dylanwad mwyaf ar ei llwyddiant. Mae **Ffigur 2** yn rhoi gwybodaeth bellach am y modd y mae'r cronfeydd yn gweithio'n ymarferol, ac ystyrir newidiadau diweddar yn fanylach yn Rhan 3 o'r adroddiad hwn.

1.5 Erbyn hyn mae'r rhaglenni ychydig dros hanner ffordd drwy'r cyfnod rhaglennu a chawsant eu gwerthuso a'u hadolygu'n ddiweddar yn unol â gofynion y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r gwerthusiad canol-tymor yn ddadansoddiad annibynnol manwl o bob rhaglen i ystyried a yw'r strategaeth yn dal yn ddilys, i archwilio'r cynnydd a wnaed ac i argymell newidiadau ar gyfer ail ran y rhaglen. Mae hyn yn cyfrannu at yr adolygiad canol-tymor, a gynhelir gan WEFO fel yr awdurdod rheoli, sy'n asesu cynnydd cyffredinol yn erbyn targedau ac yn cynnig newidiadau ar gyfer gweddill y cyfnod rhaglennu i'r Comisiwn Ewropeaidd. Fel rhan o'r broses hon, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi penderfynu y dylai'r rhaglenni elwa o'r Gronfa Berfformiad, sef swm ychwanegol o arian a ddyrennir i'r rhaglenni hynny sydd wedi bodloni targedau rhagderfynedig. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ymateb yn ffurfiol hefyd i bob adolygiad canol-tymor, gan dderbyn neu wrthod unrhyw newidiadau a gynigir.

*1 Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: Sicrhau'r Budd Mwyaf Posib i Gymru, cyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 13 Mehefin 2002.*

*2 Seiliwyd ar gyfradd o £1.00 = €1.40, sef y gyfradd a ddefnyddiwyd gan WEFO at ddibenion cynllunio pan gyhoeddwyd yr adroddiad hwn. Gall y gyfradd newid yn y dyfodol os yw'r gyfradd gyfnewid yn newid yn sylweddol o'r ffigur hwn.*

## 1 Mecanweithiau ar gyfer dosbarthu'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru

Nid yw'r ffigurau'n cynnwys y Cronfeydd Arloesedd a'r Cynllun Datblygu Gwledig. Mae'r symiau a ddangosir wedi'u seilio ar y gyfradd gynllunio o £1 = €1.40, wedi'u haddasu ar gyfer cyfraddau cyfnewid gwirioneddol ar gyfer taliadau wedi'u gwneud yn barod.

| **Y Cronfeydd Strwythurol:** | **Grant sydd ar gael £m** | **% o gyfanswm y grant** |
|---|---|---|
| Cronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) | 904 | 59.2 |
| Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) | 510 | 33.4 |
| Cronfa Gyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGGF) | 102 | 6.7 |
| Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd (FIFG) | 11 | 0.7 |
| **Cyfanswm** | **1,527** | **100.0** |

| **Ble bydd y Cronfeydd yn cael eu gwario:** | **Grant sydd ar gael £m** | **Cyfradd grant (%)** | **Arian cyfatebol £m** | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|
| Amcan 1 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) | 1,282 | 47 | 1,447 | 2,729 |
| Amcan 2 (rhannau o Ddwyrain Cymru) | 86 | 40 | 131 | 217 |
| Amcan 3 (Dwyrain Cymru) | 92 | 42 | 129 | 221 |
| **Cyfanswm ar gyfer Amcanion** | **1,460** | **46** | **1,707** | **3,167** |
| EQUAL (Cymru gyfan) | 15 | 50 | 15 | 30 |
| INTERREG IIIa (Gorllewin Cymru) | 34 | 73 | 13 | 47* |
| LEADER+ (Cymru wledig) | 10 | 48 | 11 | 21 |
| URBAN II (Wrecsam) | 8 | 50 | 8 | 16 |
| **Cyfanswm ar gyfer Mentrau Cymunedol** | **67** | **59** | **47** | **114** |
| **Cyfanswm ar gyfer Cronfeydd Strwythurol** | **1,527** | **47** | **1,754** | **3,281** |

**NODER**

* Hwn yw'r cyfanswm ar gyfer y rhaglen ar y cyd rhwng Iwerddon a Chymru

*Ffynhonnell: WEFO*

## Cwmpas yr astudiaeth

1.6 Wrth ystyried y cynnydd a wneir gan WEFO wrth weithredu argymhellion yr archwiliad, rydym wedi clystyru'r materion perthnasol yng nghyd-destun pedair agwedd bwysig ar ei reolaeth o'r rhaglenni Cronfeydd Strwythurol cyfredol:

- **cefnogi'r broses** trwy adnoddau staff digonol a systemau gwybodaeth cadarn;
- **cael y prosiectau iawn** trwy helpu ymgeiswyr i ddod o hyd i arian cyfatebol, gan ymgysylltu â'r sector preifat, a gwneud mynediad at y Cronfeydd mor syml â phosibl ac arfarnu prosiectau'n drylwyr;

## 2 Prif chwaraewyr wrth reoli'r Cronfeydd Strwythurol

### Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)

WEFO yw'r awdurdod rheoli dynodedig (yn atebol i'r Undeb Ewropeaidd am effeithlonrwydd a chywirdeb rheoli rhaglenni) a'r awdurdod talu (yn atebol am dalu'r grantiau, cael ad-daliadau gan y Comisiwn a sicrhau cydymffurfio â rheoliadau Ewropeaidd ar gyfer rheoli'r gwariant). Mae ei brif gyfrifoldebau'n cynnwys:

- cydlynu datblygu strategaeth;
- arfarnu ceisiadau prosiectau a dewis prosiectau ar sail y strategaeth rhaglenni a rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd;
- dosbarthu contractau, talu grantiau a chael ad-daliadau gan y Comisiwn;
- rheolaeth ariannol y rhaglenni, sicrhau bod prosiectau'n cyflawni'r hyn a addawant ac yn cydymffurfio â rheoliadau;
- monitro cynnydd y rhaglenni a threfnu gwerthusiadau yng nghanol ac ar ddiwedd pob rhaglen; a
- chynorthwyo'r Pwyllgorau Monitro Rhaglenni a'r partneriaethau lleol trwy ddarparu gwybodaeth ac ymgynghori â nhw pan fydd yn briodol.

### Pwyllgorau Monitro Rhaglenni (7)

Caiff pob rhaglen ei goruchwylio gan Bwyllgor Monitro Rhaglenni, gydag aelodau wedi'u tynnu'n gyfartal o'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a chymdeithasol. Mae'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni'n gwneud penderfyniadau allweddol, yn adolygu cynnydd y rhaglen ac yn monitro gwariant, gweithgarwch a chanlyniadau. Mae'n gyfrifol am gyfeiriad strategol y rhaglen ac yn cymeradwyo dogfennau allweddol gan gynnwys y ddogfen raglennu sengl (y cynllun strategol), dogfen ategol i'r rhaglen (y cynllun gweithredol), ac is-strategaethau a gynhyrchir gan bartneriaethau lleol a grwpiau eraill. Mae hefyd yn cymeradwyo'r gwerthusiadau canol-tymor ac adolygiadau canol-tymor.

### Partneriaethau lleol (28 ar gyfer Amcanion 1, 2 a 3)

Mae gan y prif raglenni bwyllgor ar gyfer pob ardal awdurdod lleol o fewn cwmpas y rhaglen, gydag aelodau wedi'u tynnu'n gyfartal o'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a chymdeithasol. Mae'r partneriaethau lleol yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth leol yn unol â'r strategaeth rhaglenni gyffredinol, monitro'i gweithredu a helpu datblygu prosiectau sy'n bodloni'i nodau. Maent hefyd yn hyrwyddo'r rhaglen yn lleol, yn datblygu cysylltiadau â chynlluniau ehangach yr awdurdod lleol ac wedi cael y cyfrifoldeb bellach o gefnogi prosiectau wedi iddynt gael eu cymeradwyo.

### Grwpiau Cynghori Thematig (chwech ar gyfer Amcan 1)

Mae gan y grwpiau hyn (a grwpiau tebyg ar gyfer y rhaglenni eraill) nifer fach o aelodau a ddewiswyd am eu harbenigedd, sy'n cynghori WEFO ar y cyfeiriad strategol a'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau sydd ar ôl yn ardal y rhaglen y maent yn ymwneud â hi, gan gynnwys dewis prosiectau yn ystod y broses ddatblygu ac arfarnu. Er enghraifft, gallant roi sylwadau ar ba mor dda y mae cynnig yn bodloni blaenoriaethau strategol, ac a yw'r costau, yr amseru a'r allgynnyrch yn realistig.

### Noddwyr prosiect

Mae noddwyr prosiect yn sefydliadau sy'n datblygu syniadau prosiect, yn eu cyflwyno i WEFO ac yn eu cyflawni os cânt eu cymeradwyo. Maent yn gyfrifol am weithredu'r prosiect yn unol â chontract sy'n pennu graddfa amser, proffil gwario a thargedau perfformiad. Mae'n rhaid i'r noddwr gydymffurfio â rheoliadau Ewropeaidd a bodloni gofynion beichus ar gyfer cadw cofnodion, cyfrifo a rheolaeth ariannol.

Sefydliadau mawr yn y sector cyhoeddus sydd wedi bod yn weithredol ym maes datblygiad economaidd, addysg ac adfywio cymunedol am flynyddoedd lawer yw'r rhan fwyaf o'r noddwyr prosiect. Mae'r rhain yn cynnwys awdurdodau lleol, Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa a cholegau addysg bellach ac addysg uwch. Fodd bynnag, caiff sefydliadau gwirfoddol a chwmnïau preifat eu hannog i noddi prosiectau hefyd ac mae llawer wedi gwneud hynny, yn aml ar raddfa lai na phrosiectau'r sector cyhoeddus.

- **helpu cyflawni'r hyn sy'n cael ei addo** trwy ddarparu trefniadau monitro a rheoli effeithiol sy'n cynnig cymorth i brosiectau tra'n sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheolau; a
- **defnyddio'r holl arian sydd ar gael** trwy sicrhau bod Cymru'n osgoi dadneilltuo ac yn elwa o'r Gronfa Berfformiad.

1.7 Mae'r adroddiad hwn yn drosolwg o gynnydd ers ein hadroddiad diwethaf, ac nid yw'n ymchwiliad manwl i reolaeth nag effaith y Cronfeydd Strwythurol. Rydym wedi tynnu ar waith pobl eraill ble bynnag yr oedd modd gwneud hynny, ac wedi canolbwyntio ar y meysydd pryder a nodwyd yn adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol a'r Pwyllgor Archwilio. Gan fod y rhan fwyaf o gylch presennol yr ariannu yn cael ei chyfeirio at Amcan 1, rydym wedi canolbwyntio'n sylw ar y rhaglen honno'n bennaf. I grynhoi, rydym wedi:

- adolygu cynllun gweithredol, gwybodaeth reoli a gweithdrefnau WEFO;
- adolygu papurau'r Pwyllgorau Monitro Rhaglenni a grwpiau partneriaeth eraill lle'r oedd yn briodol;
- trafod y prif faterion gyda staff allweddol yn WEFO;
- astudio canlyniadau gwerthusiadau canol-tymor y prif raglenni, gwaith archwilio mewnol a gwaith tîm rheoli ariannol WEFO. Hefyd, ystyriwyd gennym waith archwilio allanol Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ei hun ar WEFO a rhai prosiectau Cronfeydd Strwythurol.

Mae Atodiad 1 yn rhestru'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio, ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru a nodyn ar y sefyllfa gyfredol, ynghyd â chyfeiriad at lle rhoddir sylw i'r mater yn yr adroddiad hwn.



# 2 Cefnogi'r Broses

2.1 Mae angen adnoddau digonol ar WEFO - ar ffurf staff hyfforddedig a systemau gwybodaeth dda - er mwyn rheoli'r rhaglenni yn effeithiol. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried y cynnydd a wnaed wrth wella'r sefyllfa staffio a systemau gwybodaeth reoli WEFO.

## Mae gan WEFO ddigon o staff i gyflawni ei swyddogaethau ond mae swyddi gwag mewn rhai meysydd wedi creu pwysau arbennig

2.2 Tyfodd WEFO yn gyflym yn ystod ei ddwy flynedd cyntaf wrth i'r rhaglenni gael eu rhoi ar waith, a chafwyd anhawster wrth recriwtio'r nifer gywir o staff a oedd yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol. Er bod gan WEFO nifer gymeradwy o staff yn y Cynulliad, dywedodd WEFO wrth y Pwyllgor Archwilio efallai nad oedd angen yr holl swyddi drwy'r amser. Felly, ar adeg gwrandawiad y Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2002, roedd gan WEFO 157 o bobl mewn swyddi o gymharu â nifer lawn o 180; fodd bynnag nid oedd angen deg o'r swyddi hyn yn syth gan nad oedd nifer y taliadau wedi cyrraedd y lefel a ddisgwyliwyd yn wreiddiol. Cafodd y swyddi gwag a oedd yn weddill eu gwasgaru ar hyd y sefydliad ac nid oedd WEFO yn eu hystyried yn broblem ddifrifol. Roedd hyn yn gwrthgyferbynnu â'r sefyllfa ychydig fisoedd ynghynt pan achosodd lefelau uchel o swyddi gwag broblemau, fel a adroddwyd gennym. Roedd y Pwyllgor Archwilio yn hynod awyddus i sicrhau nad oedd y fath broblemau'n digwydd eto a phwysleisiwyd na ddylid gadael i brinder staff gael unrhyw effaith andwyol ar reoli'r rhaglenni.

2.3 Rhwng mis Mehefin 2002 a mis Rhagfyr 2003 cododd cyfanswm y nifer lawn o 180 i 208 o swyddi amser llawn. Ac eithrio'r swyddi hynny a ystyriai WEFO nad oedd angen eu llenwi'n syth, parhaodd y gyfradd swyddi gwag yn gymharol sefydlog rhwng chwech y cant ac wyth y cant ar gyfer meysydd cwbl weithredol o'r busnes. Nid oes tystiolaeth bod hyn wedi cael effaith andwyol sylweddol ar WEFO, er y cafwyd pwyntiau o straen lle mae diffygion penodol wedi parhau. Mae'r rhain ar eu mwyaf difrifol mewn unedau llai o faint a mwy arbenigol fel y tîm Monitro a Gwerthuso Ymchwil, lle gall nifer fach o swyddi gwag gael effaith sylweddol ac mae'n anos llenwi eu lle a hyfforddi staff yn gyflym. Mae WEFO wedi llwyddo i gyflwyno ei wasanaethau craidd er gwaetha'r swyddi gwag hyn, gan reoli'r llwyth gwaith ychwanegol trwy ailflaenoriaethu tasgau nad ydynt yn rhai brys a gwasgaru'r llwyth gwaith ychwanegol sy'n weddill ymhlith y staff sy'n weddill ar draws WEFO.

2.4 Problem fynych i WEFO fu'r lefel uchel o drosiant staff mewnol wrth i gyflogeion wneud ceisiadau i drosglwyddo i unrhyw isadran arall yn y Cynulliad, ac mae nifer y cyfleoedd wedi codi wrth i niferoedd staff y Cynulliad gynyddu. Mae'r broses recriwtio yn tueddu i gymryd amser - yn enwedig lle mae'r recriwtio allanol yn angenrheidiol-a all arwain at seibiant hir wrth i'r swyddi gwag gael eu llenwi. Mae WEFO yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i adolygu'r sefyllfa staffio ac mae'r sefyllfa wedi gwella'n sylweddol yn ddiweddar. Serch hynny, mae'r ffactorau hyn yn golygu y gall gymryd nifer o fisoedd i sefydlu timau cwbl newydd yn llawn, megis y tîm monitro prosiectau a sefydlwyd ddechrau 2004.

## Mae WEFO wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu ei systemau gwybodaeth reoli ond mae angen gwelliannau pellach

2.5 Etifeddodd WEFO gyfres o systemau digyswllt nad oedd yn addas i'w pwrpas; nid oeddent wedi'u llunio ar gyfer y rhaglenni presennol ac ni chawsant eu hintegreiddio gyda'i gilydd. Cyfyngwyd ar y wybodaeth reoli yn ddifrifol: er enghraifft, ni chofnodwyd gwybodaeth ar allbynnau ar gyfer cronfeydd ac eithrio'r ESF, ac nid oedd modd coladu adroddiadau rheoli a allai fod yn ddefnyddiol. Yn ogystal, roedd galw mawr ar

hawlwyr (a oedd yn gorfod cwblhau manylion ceisiadau grant a gwariant blaenorol bob tro roeddent yn cyflwyno cais) ac ar staff WEFO (a oedd yn gorfod prosesu ceisiadau â llaw a bwydo'r data ddwywaith ar amrywiol systemau a thaenlenni).

2.6 Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, cynlluniodd WEFO ymagwedd dau gam i integreiddio'i systemau rheoli:

- datblygu System Talu Grantiau Integredig (IGPS) trwy ddiweddaru, gwella ac integreiddio'r systemau cymeradwyo a thalu grantiau ar gyfer pob cronfa ac eithrio ESF (ar gyfer prosiectau ESF, mae WEFO yn rhannu system ar wahân sy'n cael ei goruchwylio gan yr Adran Gwaith a Phensiynau); a
- datblygu System Wybodaeth Rheoli Grantiau (GMIS) a fyddai'n cysylltu'r IGPS â system bresennol ESF i ddarparu adroddiadau gwybodaeth reoli cynhwysfawr ar gyfer yr holl Gronfeydd Strwythurol a Mentrau Cymunedol.

2.7 Y bwriad oedd cwblhau'r prosiectau erbyn canol 2002. Yn y tymor hwy, roedd WEFO yn bwriadu ehangu'r system fel y gellid gwneud ceisiadau a thaliadau grant trwy ei wefan, gyda chynilion potensial i WEFO ac i noddwyr prosiectau. Roedd y Pwyllgor Archwilio yn awyddus i weld y gwelliannau hyn yn dwyn ffrwyth cyn gynted â phosibl.

2.8 2.8 Mae'r ddau brosiect yn sylweddol gyflawn ac yn gweithredu'n effeithiol. Cwblhawyd yr IGPS ym mis Medi 2002, rhyw bedwar mis yn ddiweddarach na'r cynllun gwreiddiol yn sgil problemau rhaglennu ac oedi wrth fwydo data i'r system - yn bennaf oherwydd prinder staff ac oedi mewn cytuno ar dargedau allbwn prosiect diwygiedig â'r noddwyr. Cafodd y System Wybodaeth Rheoli Grantiau ei hoedi gan ryw wyth mis oherwydd problemau meddalwedd ac oedi wrth gwblhau'r prosiect IGPS cysylltiedig. Fodd bynnag, mae bellach yn ei lle ac yn gallu creu ystod eang o adroddiadau rheoli sy'n bodloni'r rhan fwyaf o anghenion WEFO **(Ffigur 3)**. Mae hefyd yn cynnig gwybodaeth fanwl i bartneriaethau am weithgarwch yn eu maes busnes nad oedd ar gael yn flaenorol, gan gynnwys y cyfleuster i ddadansoddi allbynnau fesul ardal awdurdod lleol fel y gellir olrhain dosbarthiad daearyddol manteision y rhaglen.

2.9 Gan mwyaf, mae'r ddwy system wedi cyflwyno manteision disgwyliedig proses hawliadau fwy effeithlon a gwybodaeth reoli well, ac mae'r system yn parhau i ddatblygu yn hyn o beth. Mae'r broses hawliadau yn fwy effeithlon oherwydd caiff llawer o wybodaeth am hawliadau blaenorol a thargedau presennol eu hargraffu'n awtomatig ar y ffurflen hawliadau cyn iddi gael ei hanfon at ymgeiswyr, gan leihau'r amser y mae'n rhaid iddynt dreulio yn ei chwblhau. A cheir nifer o reolaethau awtomataidd yn y

## 3 Gwelliannau i wybodaeth reoli gyda system TG well WEFO

Mae'r system newydd yn galluogi WEFO a'i bartneriaid i gael llawer o wybodaeth ddefnyddiol nad oedd ar gael yn flaenorol neu a oedd yn anodd ei choladu'n gywir ac yn gyflym. Er enghraifft, gall y defnyddwyr:

- Ddadansoddi gwariant ac allbynnau yn unol â gofynion codio'r UE
- Rhestru hawliadau grant hwyr i staff WEFO weithredu arnynt
- Darogan gwariant yn seiliedig ar ragolygon gwario a ddarperir gan noddwyr prosiect - angen hynod bwysig wrth frwydro'r bygythiad o ddadneilltuo
- Adolygu arian cyfatebol fesul rhaglen, cronfa a math o noddwr prosiect
- "Dadansoddi'r allbynnau a ragwelir ac a gyflawnir fesul Rhaglen, Cronfa a Mesur (rhennir pob Amcan yn flaenoriaethau sydd yna'n cael eu hisrannu'n Fesurau - 7 a 37 yn y drefn honno ar gyfer Amcan 1)

system i ddilysu'r data sy'n cael ei fwydo a sicrhau nad yw cyfyngiadau ar arian cyfatebol a throsglwyddiadau cyllidebol yn cael eu torri, gan arbed amser felly i staff WEFO a gwella safon y rheolaeth dros ddata a gofnodir ar y system.

2.10 Serch hynny, mae digon o le ar gyfer gwelliannau pellach i effeithlonrwydd, a dymuna WEFO weithredu nifer o brosiectau i ehangu'r systemau presennol. Yn benodol, mae WEFO wedi methu integreiddio'n llawn cronfa ddata ESF i'r System Wybodaeth Rheoli Grantiau gan nad yw system ESF yn cofnodi manylion digonol ar allbynnau. O ganlyniad, rhaid casglu'r wybodaeth fonitro hon ar wahân gan noddwyr prosiectau ac i staff WEFO ei bwydo â llaw, tasg sy'n cymryd amser ac sy'n defnyddio dau aelod clerigol o staff amser llawn ar hyn o bryd.

2.11 Mae gan WEFO gynlluniau amlinellol i wella system ESF a datblygu'r system gyflawn fel y gellir gwneud ceisiadau am grantiau a thaliadau dros y Rhyngrwyd. Os caiff ei weithredu'n llwyddiannus, mae gan hyn y potensial i gyflwyno arbedion effeithlonrwydd mawr trwy gael gwared ar yr angen i staff taliadau WEFO lenwi ffurflenni a bwydo data â llaw. Gallai nifer yr archwiliadau safonol a gynhelir gan WEFO gael eu gostwng yn sylweddol trwy ymgorffori rheolaethau awtomataidd yn y system, a fyddai hefyd yn gostwng nifer yr ymholiadau bach ar ffurflenni y mae angen eu dychwelyd i noddwyr prosiect. Er nad yw wedi cynnal dadansoddiad cost a budd llawn, mae WEFO yn credu y gellid wella'r system bresennol i ddarparu'r gallu hwn o fewn cyfnod cymharol fyr.

2.12 O dan y fframwaith Merlin newydd ar gyfer ei dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (yr olynydd i system Osiris, yr adroddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru arno ym mis Hydref 2002), mae'r Cynulliad yn bwriadu rhesymoli ei drefniadau TG ac mae'n archwilio'r posibiliadau o ran arbedion effeithlonrwydd; ceir nifer o gannoedd o gynigion prosiect, sy'n cael eu mesur ar hyn o bryd. Mae cynlluniau am system gwbl integredig, y gellir ei gweithredu ar y we ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol yn flaenoriaeth o dan y trefniadau hyn fel y gellir ei roi ar waith mewn pryd ar gyfer y cylch newydd o raglenni ym mis Ionawr 2007. Gallai hefyd fod yn bosibl cynnwys trafodion gweddilliol o'r cylch presennol o raglenni ar y system newydd, gan y bydd y rhain yn parhau nes 2009

## PWYNTIAU ALLWEDDOL AR GEFNOGI'R BROSES

- Mae WEFO wedi cynyddu ei nifer lawn o staff, ond ceir cyfradd swyddi gwag o chwech i wyth y cant mewn meysydd cwbl weithredol o'r busnes. Nid yw hyn wedi cael effaith andwyol sylweddol ar allu WEFO i gyflwyno'i wasanaethau craidd er mae wedi, er enghraifft, cyfrannu at yr oedi mewn gweithredu systemau TG newydd.
- Gall staff WEFO drosglwyddo i rannau eraill o Lywodraeth y Cynulliad yn gymharol hawdd, ac mae'n gallu cymryd amser hir i recriwtio pobl newydd.
- Mae WEFO wedi gwneud cynnydd da wrth weithredu system gwybodaeth reoli newydd, sydd wedi cyflwyno'r manteision disgwyliedig gan mwyaf: gwybodaeth reoli lawer gwell a gweinyddiaeth fwy effeithlon.
- Ychydig o gynnydd a gafwyd tuag at system y gellir ei gweithredu ar y we, a fyddai'n gadael i noddwyr prosiect ymgeisio a hawlio dros y Rhyngrwyd. Byddai hyn yn esgor ar fanteision mawr o ran effeithlonrwydd a chyfleuster, ond mae'n annhebygol o ddigwydd nes 2007. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu pob prosiect TG yn ei fframwaith Merlin newydd, ac yn hwnnw gwelir system TG newydd i WEFO fel blaenoriaeth.

# Cael y prosiectau iawn 3

3.1 Mae datblygu cynigion prosiect cadarn, sy'n bodloni nodau strategol y rhaglenni ac yn cydymffurfio â rheoliadau Ewropeaidd, yn hollbwysig i lwyddiant y Cronfeydd Strwythurol. Mae angen cymorth ar noddwyr prosiectau posibl gan WEFO a'i bartneriaid i ddatblygu syniadau am brosiectau i fod yn gynigion grymus a gaiff eu dewis i gael grantiau. Yn nyddiau cynnar y rhaglenni presennol, achosodd ansicrwydd ac oedi am yr agweddau hyn ar y broses gryn rwystredigaeth ymhlith partneriaethau a noddwyr prosiectau. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried y cynnydd a wnaed wrth fodloni anghenion y noddwyr prosiect o ran sicrhau arian cyfatebol, ymgysylltu â'r sector preifat, lleihau amserau arfarnu prosiectau, symleiddio'r broses berthnasol a gwella manyldeb arferion arfarnu prosiectau.

## Nid yw'r swm o arian cyfatebol wedi rhwystro'r rhaglenni hyd yma, ond bydd angen rheolaeth gyllidebol dynnach i sicrhau bod hyn yn parhau

3.2 Mae'r Undeb Ewropeaidd yn cyfrannu tuag at gost gyffredinol pob rhaglen, ond rhaid i arian ddod o adnoddau domestig yn y sectorau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol. Ar gyfartaledd, bydd y Cronfeydd Strwythurol yn darparu 47 y cant o'r cyfanswm cyllid a gynlluniwyd ar gyfer y rhaglenni yng Nghymru, er bod hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng ac yn rhaglenni. Mae cynlluniau presennol yn gofyn am arian cyfatebol o £1.75 biliwn i fod ar gael ar gyfer y cyfnod hyd ddiwedd 2006, y mae disgwyl i £1.20 biliwn ohono (70 y cant) ddod o'r sector cyhoeddus a £548 miliwn (30 y cant) i ddod o'r sector preifat. Mae cyllid ar gael o ystod eang o ffynonellau; gall noddwyr prosiectau ddefnyddio'u harian craidd eu hunain i gyfateb i gost prosiectau Ewropeaidd, a gallant hefyd gyfrif gwerth cyfraniadau mewn nwyddau neu wasanaethau, megis llafur gwirfoddol, fel arian cyfatebol.

3.3 Rhaid i bob prosiect sicrhau ei arian cyfatebol ei hun cyn i WEFO gymeradwyo grant Cronfeydd Strwythurol. Arian cyfatebol yw cyfrifoldeb noddwr y prosiect ac nid yw WEFO yn darparu arian cyfatebol ei hun, er ei fod yn rhoi cyngor ar ffynonellau cyllid ac yn gweinyddu'r Gronfa Adfywio Lleol ar gyfer awdurdodau lleol fel rhan o Lywodraeth y Cynulliad.

3.4 Mae'n hollbwysig bod arian cyfatebol digonol ar gael ar gyfer prosiectau. Cydnabu'r Pwyllgor Archwilio rôl gyfyngedig WEFO wrth ddarparu arian cyfatebol, ond oherwydd pwysigrwydd y mater, argymhellodd i WEFO fod mor rhagweithiol â phosibl wrth fonitro argaeledd a'r nifer sy'n defnyddio arian cyfatebol fel y gallai'r rhai yr oedd ganddynt y dylanwad angenrheidiol i gyflwyno gwelliannau adnabod problemau - ac atebion posibl. Roedd hyn yn hynod bwysig gan y gallai problemau amlygu eu hun mewn diffyg prosiectau'n dod i'r amlwg, yn hytrach na phroblemau y gellir eu hadnabod yn haws gyda chynigion prosiect a oedd eisoes yn bodoli. Roedd y Pwyllgor hefyd yn awyddus sicrhau bod gwybodaeth a chyngor cynhwysfawr ar gael i ymgeiswyr, gan fod hyn wedi bod yn ddiffygiol yng nghyfnodau cynnar y rhaglenni.

3.5 Gall system gwybodaeth reoli newydd WEFO ddadansoddi tarddiad a swm yr arian cyfatebol i lefel y prosiect. Mae WEFO yn defnyddio'r wybodaeth hon i adrodd yn rheolaidd am y cyfraniad cymharol a wnaed gan y Cronfeydd Strwythurol ar gyfer pob Mesur, ar gyfer grant wedi'i gymeradwyo a grant wedi'i dalu. Ar 31 Rhagfyr 2003, dangosodd hyn fod cyfraddau grantiau (cyfran arian y prosiectau o'r Cronfeydd Strwythurol) ar y cyfan yn is na'r rhai a fwriadwyd, gan ddangos bod argaeledd cyffredinol arian cyfatebol ar gyfer grantiau a gymeradwywyd heb fod yn broblem fawr hyd hynny. Nid adroddodd yr un o'r gwerthusiadau canol-tymor unrhyw broblemau arwyddocaol yn y swm o arian cyfatebol ar gael.

3.6 Ar wahân i hyn, nid yw WEFO yn monitro argaeledd a'r nifer sy'n defnyddio arian cyfatebol ar lefel rhaglen yn benodol ac yn arferol, ond mae wedi cynorthwyo eraill i asesu materion penodol wrth iddynt godi. Mae'r ymagwedd dargedig hon yn briodol gan fod pwysau arian cyfatebol yn debygol o ddigwydd mewn meysydd penodol, ac mae angen mynd i'r afael â nhw ar adegau penodol - yn enwedig yn ystod cylch cynllunio cyllidebol ar gyfer ffynonellau arian cyfatebol sector cyhoeddus a ariennir yn ganolog. Fel rhan o'r broses hon, mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried i ba raddau y gellir defnyddio cyllidebau presennol i gyfateb i arian prosiectau Ewropeaidd, a sut i weithredu mewn ymateb i ddiffygion posibl.

3.7 Yn 2001, sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad nifer o linellau cyllideb yn benodol ar gyfer arian cyfatebol, gan roi cyfanswm o £207 miliwn ar gyfer y tair blynedd hyd 31 Mawrth 2004 a chan gyfrif am 29 y cant o gyfanswm gofyniad arian cyfatebol y sector cyhoeddus ar gyfer tair blynedd cyntaf y rhaglenni (ar y gyfradd gyfnewid wreiddiol o £1 = €1.62). Ers hynny, mae'r sefyllfa arian cyfatebol wedi tynhau'n sylweddol am nifer o resymau: codiadau arafach yng nghyllideb gyffredinol y Cynulliad nag mewn blynyddoedd blaenorol, cynnydd o £30 miliwn y flwyddyn yn y gofyniad arian cyfatebol cyffredinol (i gynnwys y cynnydd tebygol yn y Cronfeydd Strwythurol ar gael i Gymru o ganlyniad i'r gyfradd gyfnewid gynllunio is o £1: €1.40), a phrosiectau'n pentyrru dros y ddwy i dair blynedd nesaf yn sgil oedi cynharach wrth roi'r prosiectau ar waith. Mae WEFO wedi cynorthwyo swyddogion eraill Llywodraeth y Cynulliad i fonitro a darogan y galw am gyllidebau arian cyfatebol, ac mae wedi gweithio gyda'r awdurdodau lleol wrth gynllunio dyraniadau cyllidebol y dyfodol ar gyfer y Gronfa Adfywio Lleol **(gweler Blwch A)**.

3.8 Efallai bod y perygl o gael arian cyfatebol annigonol yn fwy yn y sector gwirfoddol, gan ei fod yn cael ei nodweddu gan sefydliadau bach gydag ychydig adnoddau. Cafwyd cynnydd arafach yn y Mesurau adfywio economaidd cymunedol, sy'n dibynnu fwyaf ar ymrwymiad y sector gwirfoddol, nag ym meysydd eraill y rhaglenni. Cyhoeddodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru adroddiad ym mis Mehefin 2003, *Y Sector Gwirfoddol ac Amcan 1 yng Nghymru*, a oedd yn ystyried y prif ffactorau sy'n effeithio ar ymrwymiad y sector gwirfoddol yn y rhaglen. Roedd yr adroddiad yn argymell ymdrechion newydd i gynyddu a rhesymoli'r defnydd o gronfeydd allweddol, codi ymwybyddiaeth, gwella'r arbenigedd sydd ar gael i'r sector a lleddfu'r baich gweinyddol ar ymgeiswyr;

## A Llwybr at Ffyniant (P2P) a'r Gronfa Adfywio Lleol (LRF)

Y rhain yw'r prif gyllidebau a ddyrennir yn benodol ar gyfer arian cyfatebol gan Lywodraeth y Cynulliad, ac maent yn arddangos tueddiadau diweddar yn sefyllfa ariannol y Cronfeydd Strwythurol: dechrau araf ac ymchwydd diweddar mewn galw.

Bwriedir i'r ddwy gyllideb ddarparu "arian yn y pen eithaf" ar gyfer prosiectau sy'n methu dod o hyd i ffynonellau cyllid eraill; dyrennir y Gronfa Adfywio Lleol i awdurdodau lleol ar gyfer prosiectau cyfalaf, tra bo P2P ar gael i Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Llywodraeth, y sector preifat ac asiantaethau menter. Golygodd oedi yn arfarnu datblygiad a chyflwyno prosiectau fod taliadau yn y ddwy flynedd cyntaf - hyd 31 Mawrth 2003 - llawer yn is na'r disgwyl. Roedd taliadau LRF yn £9.5 miliwn yn unig o gymharu â'r £60 miliwn disgwyliedig, yn bennaf yn sgil llithriant wrth gyflwyno prosiectau cymeradwy. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi trafod y sefyllfa ariannol gydag awdurdodau lleol ac wedi cytuno i ddwyn ymlaen symiau sylweddol o arian ar gyfer 2004-05; rhagwelir y bydd gwariant yn codi'n sydyn i £102 miliwn dros y tair blynedd ariannol hyd 2007.

Cododd y galw am P2P yn gyflym yn 2003-04, a datblygodd llwyth o geisiadau wrth i Lywodraeth y Cynulliad flaenoriaethu ceisiadau. Dywedodd swyddogion wrthym ei bod yn ymddangos bod disgwyliad wedi datblygu bod P2P yn hawdd ei gael ac y gellir ei ddefnyddio fel ffynhonnell ariannu prif ffrwd, pan nad oedd hyn erioed wedi bod yn fwriad. Er nad yw meini prawf cymeradwyo P2P wedi newid, mae swyddogion wedi'u cymhwyso'n fwy llym ac mae hyn wedi arwain at dynnu rhai prosiectau yn ôl. Caiff noddwyr prosiectau bellach eu hannog i fwyhau'r defnydd o'u harian craidd (a defnyddio hyn fel arian cyfatebol yn lle P2P os yn bosibl) ac o'r Cronfeydd Strwythurol; gwnaeth hyn leihau'r galw ar P2P ac mae'n helpu WEFO i fodloni ei dargedau gwario. Mae'r llwyth o brosiectau wedi'u clirio i bob pwrpas ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn hyderus y bydd y galwadau am arian cyfatebol P2P yn cael eu bodloni o'r gyllideb ddangosol ac, os oes angen, o danwariant mewn mannau eraill yng nghyllideb Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.

cafodd fod rhaglen Cymunedau'n Gyntaf Llywodraeth y Cynulliad yn ffynhonnell cyllid fwy poblogaidd i gyrff gwirfoddol gan y'i gwelwyd i fod yn gyflymach ac yn symlach yn ei gweithdrefnau gweinyddol. Nid ystyriwyd argaeledd arian cyfatebol yn rhwystr mawr; y prif fater a godwyd oedd yr anhawster i gydlynu gwahanol ffynonellau o gyllid, yn enwedig os na chafodd amseru taliadau o'r Cronfeydd Strwythurol eu halinio gyda rhai ffynonellau eraill.

3.9 Y dull symlaf o ddarparu arian cyfatebol i sefydliadau bach yw trwy gronfeydd allweddol, lle caiff grant Ewropeaidd ei gyfuno ag arian cyfatebol gan sefydliad mwy o faint, a'i drosglwyddo i'r buddiolwyr fel llif ariannu unigol. Gwnaed cynnydd cyfyngedig wrth sefydlu'r cronfeydd allweddol ar gyfer cyrff gwirfoddol; mae tua hanner yr awdurdodau lleol wedi sefydlu cronfeydd ar gyfer adfywiad economaidd cymunedol ac mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn gweithredu ei gynllun Cymru gyfan ei hun. Mae bellach yn gweithio gyda WEFO i sefydlu cronfeydd yn fwy eang eu seiliau a'u gwneud yn hygyrch i dalu am y gost o baratoi prosiect, a nodwyd yn gyfyngiad ar ddatblygu prosiect.

3.10 Mae gan Lywodraeth y Cynulliad bellach bolisi o gyflwyno'r rhaglenni'n ehangach trwy'r egwyddor cronfeydd allweddol, gan fwyhau'r defnydd o'r Cronfeydd Strwythurol i gyd-ariannu prosiectau mawr a rhaglenni presennol a fydd yn cyflwyno'r rhaglen yn rhanbarthol neu'n genedlaethol. Mae'r Llywodraeth yn credu y bydd hyn yn ymagwedd fwy strategol a fydd yn helpu llenwi bylchau sydd wedi ymddangos mewn rhannau penodol o'r rhaglen ac a fydd yn mwyhau'r defnydd o adnoddau presennol fel arian cyfatebol, ac felly'n gwarchod y cronfeydd arian cyfatebol penodol wrth i ofynion ariannol y rhaglen gyrraedd eu huchafbwynt.

## Mae llawer o'r prosiectau a arweinir gan y sector preifat wedi'u cymeradwyo neu ar y gweill, ac mae arian cyfatebol y sector preifat ar y trywydd iawn i fodloni'r targedau

3.11 Mae Llywodraeth y Cynulliad bob amser wedi rhagweld rôl lawer yn fwy ar gyfer y sector preifat yn rhaglenni 2000-06 na'r rowndiau rhaglennu blaenorol, pan oedd ychydig brosiectau'n cael eu harwain gan y sector preifat. Byddai'r sector preifat yn chwarae rôl allweddol yn y partneriaethau, yn arwain prosiectau er lles y cyhoedd ehangach, ac yn cyfrannu £548 miliwn (30 y cant o gyfanswm yr arian cyfatebol) tuag at gost y rhaglenni.

3.12 Er mwyn helpu cyflawni'r amcanion hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad:

- wedi sefydlu'r Uned Sector Preifat o fewn WEFO i roi gwybodaeth a chynghori'r sector preifat ynghylch y Cronfeydd Strwythurol, ac i arwain noddwyr prosiect potensial trwy'r broses ddatblygu ac arfarnu;
- wedi gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol i sefydlu'r Uned Partneriaid Cymdeithasol i gynorthwyo aelodau pwyllgorau'r partneriaethau o'r sector cymdeithasol (sy'n cynnwys y sector preifat);
- wedi cefnogi'r Siambrau Masnach yng Nghymru wrth benodi hwyluswyr y sector preifat, i annog busnesau lleol i ymrwymo â'r Cronfeydd Strwythurol; ac
- wedi datblygu'r cysyniad o gomisiynu prosiectau, trwy brosiectau templed. Byddai prosiect templed yn gynnig amlinellol wedi'i lunio gan WEFO a'i bartneriaid i fodloni anghenion a bylchau strategol yn y ddarpariaeth. Yna, byddai'r sector preifat yn cael ei wahodd i gyflwyno cynigion manwl ar gyfer cyflawni yn erbyn y templed. Byddai hyn yn gwneud y broses yn gliriach i ymgeiswyr gan y byddid wedi mynd i'r afael â'r prif faterion cyn i'r prosiect gael ei farchnata.

Cefnogodd y Pwyllgor Archwilio y mesurau hyn ond mynegwyd pryder ynghylch y cynnydd araf wrth gymeradwyo prosiectau a arweinir gan y sector preifat (22 ar ddiwedd mis Mawrth 2002) ac wrth benodi hwyluswyr y sector preifat.

3.13 Ers hynny, gwnaed cynnydd sylweddol wrth ymestyn y gefnogaeth sydd ar gael i'r sector preifat ac wrth gymeradwyo a datblygu prosiectau. Cafodd hwyluswyr y sector preifat i gyd eu penodi erbyn Chwefror 2003 ac maent wedi rhagori ar y targedau i godi ymwybyddiaeth am y rhaglenni. Mae'r prosiect wedi gosod targed i'w hun i godi trosiant busnesau lleol gan gyfanswm o £3.4 miliwn dros dair blynedd y prosiect;

bydd hyn yn cymryd yn hwy i'w gyflawni a'i fesur. Mae'r hwyluswyr wedi darganfod bod eu gwaith o'r fantais fwyaf wrth hyrwyddo prosiectau cyfredol a ariennir gan Ewrop, sydd yn aml yn ffynonellau cymorth mwy priodol ar gyfer busnesau llai o faint, na datblygu prosiectau newydd. Serch hynny, mae'r hwyluswyr wedi gallu dod â rhai syniadau ar gyfer prosiectau newydd i sylw'r Uned Sector Preifat, sydd mewn lle gwell i gysylltu â'r rhai sy'n gallu eu datblygu i fod yn gynigion hyfyw.

3.14 Bu cynnydd sylweddol wrth gymeradwyo prosiectau a arweinir gan y sector preifat, gyda llawer mwy yn destun arfarniad neu ar gamau datblygiad amrywiol **(Ffigur 4)**. Ar 31 Mawrth 2004, cafwyd cyfanswm o £427 miliwn o gyllid sector preifat, gan gynrychioli 35 y cant o gyfanswm yr arian cyfatebol a ymrwymwyd ac o flaen y targed o 30 y cant. Bydd cryn dipyn o'r buddsoddiad hwn yn digwydd mewn prosiectau a arweinir gan asiantaethau'r sector cyhoeddus ond sy'n cynorthwyo busnesau preifat, er enghraifft grantiau busnes a chynlluniau benthyca.

3.15 Gwnaed cynnydd arafach gyda'r prosiectau templed. Mae WEFO wedi cytuno ar weithdrefn ar gyfer datblygu a chymeradwyo'r fath brosiectau, sy'n golygu ymgynghori ac adolygu trylwyr i sicrhau bod manyleb y prosiect yn gadarn. Datblygwyd prosiect peilot i ddatblygu gwasanaeth rheoli data ar gyfer busnesau bach yn 2003 ac mae WEFO yn disgwyl cyhoeddi manyleb prosiect erbyn canol 2004. Mae nifer o brosiectau eraill ar gamau datblygiad cynharach, ac mae WEFO yn gobeithio datblygu rhyw wyth prosiect erbyn 2005.

3.16 Fodd bynnag, y profiad a gafwyd hyd yn hyn yw bod angen gwaith paratoi helaeth ac nid yw'r weithdrefn gyffredinol yn fyrrach o reidrwydd na'r broses datblygu a chymeradwyo prosiectau arferol. Er na fydd y prosiectau templed yn cynyddu graddau cyfranogiad y sector preifat yn y rhaglen yn gyflym, maent yn cynnig potensial tymor hwy sylweddol ar gyfer ehangu cyfranogiad, bodloni anghenion penodol a fyddai'n anodd eu bodloni mewn ffyrdd eraill, ac ehangu ansawdd y prosiectau trwy ymchwil ofalus a thrwy gystadleuaeth. Bydd hi'n cymryd nifer o flynyddoedd cyn y gellir asesu'n llawn llwyddiant y prosiectau templed wrth fodloni'r amcanion hyn.

## Mae WEFO wedi cadw'r broses arfarnu prosiect dan adolygiad ac wedi symleiddio'r system ar gyfer Amcan 1, ond ni fydd hyn o reidrwydd yn arwain at ostyngiad mewn amserau arfarnu

3.17 Mae gan bob rhaglen ei systemau ei hun ar gyfer arfarnu prosiectau, ond caiff mwyafrif y prosiectau eu hariannu o dan Raglen Amcan 1. Ar adeg ein hadroddiad cynharach roedd hyn yn golygu proses un cam ar ddeg a oedd yn cymryd nifer o fisoedd i fynd trwyddynt fel arfer. Yna, darganfuwyd gennym fod hyd a chymhlethdod y broses datblygu ac arfarnu'r prosiect yn un o agweddau mwyaf rhwystredig y Cronfeydd Strwythurol ar gyfer

**4** Prosiectau a arweinir gan y sector preifat: sefyllfa ar 31 Mawrth 2004

| Cyfnod | Nifer y prosiectau | Grant (£m) | Cyfanswm cost neu brosiect (£m) |
|---|---|---|---|
| Prosiectau a gymeradwywyd | 141 | 57 | 147 |
| Prosiectau sy'n destun arfarniad (derbyniwyd cais ffurfiol gan WEFO) | 70 | 43 | 112 |
| Prosiectau sy'n cael eu datblygu (ni dderbyniwyd cais WEFO eto) | 56 | 10 | 74 |

**SYLWER**

Amcangyfrifir ffigurau grant a chyfanswm cost ar gyfer prosiectau sy'n cael eu datblygu, ac mewn rhai achosion nid oes ffigurau wedi'u darparu eto. Mae'r ffigurau'n cynnwys prosiectau INTERREG, a gynhelir yn Iwerddon yn ogystal â Chymru

*Ffynhonnell: WEFO*

ymgeiswyr ac yn un yr oeddent am fynd i'r afael â hi fwyaf. Cydnabu'r Pwyllgor Archwilio fod cynnydd yn cael ei wneud ac y byddai rhywfaint o densiwn drwy'r amser rhwng cael proses gyfeillgar i ddefnyddwyr, ac un a oedd yn darparu'r manyldeb angenrheidiol i sicrhau bod y cronfeydd yn cael eu gwario'n gywir. Serch hynny, roedd y Pwyllgor yn parhau i boeni am y "broses lafurus a hir" ac yn ystyried y gellid "ei chyfiawnhau yn unig petai pob elfen yn eglur yn ychwanegu gwerth at y broses." Argymhellodd fod WEFO yn cadw'r broses dan adolygiad, gyda'r bwriad o symud neu ddiwygio'r elfennau hynny a oedd wedi mynd yn ddiangen. Roedd argymhellion eraill yn y maes hwn yn ymwneud â'r ffordd yr aeth WEFO ati i arfarnu prosiectau.

## Mae WEFO wedi symleiddio'r broses ymgeisio ac arfarnu ar gyfer Amcan 1

3.18 Pan ddaeth WEFO i adolygu'r broses ymgeisio ac arfarnu, casglodd fod y diwylliant partneriaeth bellach wedi'i sefydlu'n dda ac y gellir lleihau'r pwyslais ar strwythurau pwyllgorau a phrosesau ymgynghori ffurfiol. Ym mis Mehefin 2003, derbyniodd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni argymhellion WEFO ar gyfer ailffurfio'r strwythur a'r broses, a daeth y newidiadau allweddol canlynol yn effeithiol o 1 Ionawr 2004:

- mae'r deg partneriaeth ranbarthol a'r pedair partneriaeth strategaeth wedi'u diddymu ac wedi'u disodli gan chwe grwp cynghori thematig (TAGs), a ddewiswyd am eu harbenigedd i gynnig cyngor arbenigol i WEFO ar brosiectau a strategaeth;
- mae'r 15 partneriaeth leol yn parhau ond yn canolbwyntio mwy ar faterion datblygu economaidd ehangach yn eu hardaloedd, ac ar gynnig cymorth ôl-gymeradwyaeth i brosiectau ("ôl-ofal");
- nid oes rhaid cyflwyno mwyafrif y prosiectau bellach trwy bartneriaethau, er y caiff noddwyr eu hannog i geisio'u cyngor a'u cymorth lle bo'n briodol; ac
- mae'r broses ymgynghori wedi'i symleiddio fel bod safbwyntiau partneriaethau'n cael eu ceisio gan WEFO ar gam arfarnu, ar yr un adeg ag y mae cyngor yn cael ei geisio gan arbenigwyr a'r grwpiau cynghori thematig. Caiff y broses ddiwygiedig ei gosod allan a'i chymharu â phrosesau blaenorol yn **Ffigur 5.**

3.19 Mae'r newidiadau hyn wedi creu system fwy hyblyg sydd wedi dileu neu gyfuno nifer o gamau'r asesiad prosiect ffurfiol. Mae WEFO yn gobeithio gwella ymhellach gydlyniad y tasgau yn ystod y broses arfarnu fel bod cyngor yn cael ei geisio ar yr un adeg gan bartneriaethau, grwpiau cynghori thematig ac ymgynghorwyr arbenigol. Mae hyn yn allweddol i leihau hyd y broses arfarnu, gan nad yw swm y gwaith y mae ei angen wedi newid yn sylweddol.

3.20 Allwedd arall i leihau hyd y broses arfarnu yw sicrhau bod noddwyr prosiect yn datblygu ceisiadau ansawdd da y gellir eu harfarnu'n gyflym. Mae hyn yn gofyn am gyfathrebu da rhwng noddwyr, partneriaethau a WEFO fel bod yr ymgeisydd yn ymwybodol o ofynion WEFO ac y gellir datrys problemau posibl yn gynnar. Mae WEFO yn bwriadu cynyddu ei ymrwymiad ar y cam datblygu prosiect, gan gynnig cyngor yn ôl yr angen ac ymgynghori â grwpiau cynghori thematig os oes angen er mwyn cynnig cyfeiriad priodol i'r noddwr. Mae WEFO wedi penodi swyddogion i weithredu fel pwyntiau cyswllt a chynghorwyr ar gyfer pob Mesur yn Rhaglen Amcan 1, ac mae'n bwriadu datblygu ei ymrwymiad mewn datblygu prosiectau ar hyd 2004.

## Mae WEFO wedi gwella'r ffurflen gais Amcan 1 ar gyfer ERDF, EAGGF a FIFG, ond nid oes unrhyw gynlluniau i ddisodli'r ffurflen ESF broblematig

3.21 Mae WEFO wedi symleiddio'r ffurflen gais ar gyfer ERDF, EAGGF a FIFG mewn ymateb i bryderon gan ymgeiswyr ynghylch swm a chymhlethdod y wybodaeth a ofynnir amdani yn y ffurflen gais flaenorol. Yn Lloegr, mae ymgeiswyr Amcan 1 yn llenwi ffurflen fyrrach gyda gwybodaeth ffeithiol allweddol, ac yn cyflwyno cynllun busnes sy'n darparu cyfiawnhad sylweddol ar gyfer y prosiect. Er bod yna rai anfanteision i'r ymagwedd hon, argymhellwyd gennym fod WEFO yn ystyried mabwysiadu ymagwedd Lloegr gan y byddai cynllun busnes yn rhoi mwy o ryddid i ymgeiswyr gyflwyno'u prosiect, ac felly'n rhoi gwell syniad i WEFO ynghylch pa mor ddatblygedig oedd syniad y prosiect mewn gwirionedd.

## 5 Datblygiad y prosiect a'r broses arfarnu

| Cam | Hen broses (hyd at 31 Rhagfyr 2003) | Proses newydd (newidiadau o 1 Ionawr 2004) |
|---|---|---|
| 1 | Mae'r ymgeisydd yn mynd at y bartneriaeth berthnasol i drafod syniad am brosiect | Mae'r ymgeisydd yn cael ei gyfeirio (e.e. gan WEFO) at y corff cefnogi priodol - fel arfer Uned Sector Preifat y WEFO, partneriaeth leol, corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad neu Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. |
| 2 | Mae'r bartneriaeth yn cynorthwyo'r ymgeisydd i ddatblygu'r syniad a pharatoi cais pro-forma | Mae'r corff cefnogi'n cynorthwyo'r ymgeisydd i ddatblygu'r syniad ac i baratoi cais llawn |
| 3 | Ystyrir y pro-forma hwn gan is-grwp y bwrdd partneriaeth | Mae prosiectau'n symud ymlaen yn syth at arfarniad[1], er y ceir y dewis o ymgynghori â phartneriaethau lleol a sefydliadau eraill ar y cam hwn |
| 4 | Caiff manylion y pro-forma eu dosbarthu i bartneriaethau cyfrannog eraill | |
| 5 | Caiff y cynnig, sy'n cael ei ddiwygio yn ôl yr angen, ei gyflwyno i'r bwrdd partneriaeth llawn | |
| 6 | Mae'r bwrdd partneriaeth yn helpu'r ymgeisydd i lenwi ffurflen gais gyflawn | |
| 7 | Mae'r bartneriaeth yn cyflwyno'r ffurflen gais i WEFO, gan nodi ei gefnogaeth i'r prosiect | |
| 8 | Mae WEFO yn arfarnu'r prosiect, gan sicrhau cadarnhad o'i gymhwyster a'i fod yn darparu gwerth am arian, gan geisio cyngor allanol yn ôl yr angen | Mae WEFO yn arfarnu'r prosiect yn yr un modd ag o'r blaen, ac eithrio:<br>■ ymgynghori â phartneriaethau lleol ar y cam hwn[1]<br>■ bod grwpiau cynghori thematig wedi disodli'r partneriaethau strategaeth, ond bod ganddynt yr un rôl o ran arfarnu prosiectau<br>■ y caiff safbwyntiau partneriaethau lleol, grwpiau cynghori thematig ac arbenigwyr eu ceisio ar yr un pryd |
| 9 | Mae WEFO yn argymell cymeradwyo neu wrthod i'r bartneriaeth strategaeth (anfonir copi hefyd at y partneriaethau eraill a gynigiodd sylwadau yn flaenorol i'r cynnig) | |
| 10 | Mae'r bartneriaeth strategaeth yn cynnal asesiad ansoddol ar ba mor dda y mae'r prosiect yn cyfrannu at y strategaeth gyffredinol, gan argymell cymeradwyo neu wrthod, neu'n gofyn am wybodaeth bellach | |
| 11 | Mae WEFO yn dosbarthu, lle bo'n briodol, cynnig grant ffurfiol i'r ymgeisydd | Dim newid |

**SYLWER**

1 Caiff y prosiectau o dan y Mesurau y mae gan y bartneriaeth leol ddyraniad ariannol ar eu cyfer eu cyfeirio at y bwrdd partneriaeth yn ystod y cam datblygu, cyn iddynt gael eu trosglwyddo i WEFO i'w harfarnu

3.22 Derbyniodd WEFO yr argymhelliad hwn ac mae ffurflen gais newydd wedi cael ei defnyddio ers mis Awst 2003. Mae'r ffurflen dipyn yn fyrrach, yn canolbwyntio ar wybodaeth ffeithiol bwysig ac yn gofyn am lai o wybodaeth am gostau prosiect. Mae cynllun y prosiect yn gofyn am gyfiawnhad mwy sylweddol ar gyfer y prosiect ac mewn rhai achosion yn gofyn am fwy o wybodaeth benodol nag o'r blaen ynghylch yr angen am y prosiect a sut y bydd yn cael ei reoli, ei gyflwyno a'i farchnata. Mae'r tablau cost wedi'u hawtomeiddio fel y gellir cyfrif cyfansymiau a chyfraddau grantiau yn awtomatig. Mae'r iaith a'r derminoleg wedi'u symleiddio, mae gofynion gwybodaeth wedi'u cadarnhau a deliwyd â hepgoriadau - er enghraifft, nawr, mae'n rhaid i ymgeiswyr asesu'r prif beryglon sy'n wynebu eu prosiect ac esbonio sut y byddant yn cael eu rheoli. Er nad oes gostyngiad cyffredinol yn swm y wybodaeth y gofynnir amdani, mae'r newidiadau hyn wedi gwneud y ffurflen yn haws ei deall a'i llenwi, ac mae bellach yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer arfarniad manwl o'r prosiect.

3.23 Ni chafwyd unrhyw newid i ffurflen gais ESF. Mae WEFO yn parhau i ddefnyddio'r fersiwn gwbl gyfrifiadurol a ddefnyddir yn Lloegr. Mae'r gwerthusiadau canol-tymor ar gyfer rhaglenni Amcan 1 ac Amcan 3 wedi adrodd dau ofid mawr o ran y trefniant hwn:

- teimlai mwyafrif yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld gan y gwerthuswyr fod y ffurflen yn feichus am ei bod yn "gwahodd ailadrodd, yn annog ymgeiswyr i wneud cysylltiadau disylwedd rhwng prosiectau a dogfennau strategaeth ac yn y pen draw yn gwneud deunydd darllen trwm a diflas", ac
- mae'r ffurflen bresennol yn gofyn am wybodaeth helaeth am fuddiolwyr - y mae llawer ohoni'n anodd iawn ei hamcangyfrif yn gywir - ond nid yw'n galluogi'r casglu data y mae ei wir angen i fonitro'r rhaglen, gan wneud y system o fonitro dychweliadau ychwanegol yn angenrheidiol.

3.24 Roedd y ddau werthusiad canol-tymor perthnasol yn argymell bod WEFO yn ystyried mabwysiadu ffurflen gais newydd a phecyn arweiniad ar gyfer ymgeiswyr ESF, yn dilyn yr egwyddorion ar gyfer y ffurflen gais Amcan 1 newydd i'r Cronfeydd eraill sy'n galw am fwy o gefnogaeth ymhlith noddwyr prosiect. Fodd bynnag, mae WEFO wedi penderfynu peidio â disodli'r ffurflen. Mae'n ystyried ei fod yn fwy ymarferol cadw'r ffurflen bresennol, sy'n gyfarwydd i ymgeiswyr prosiect ac yn integredig â'r gronfa ddata ESF bresennol, lle byddai ffurflen newydd yn un a lenwir â llaw gan mwyaf yn absenoldeb system y gellir ei gweithredu ar y we sy'n ymdrin â phob rhaglen.

## Mae amserau arfarnu prosiectau wedi dirywio ers 2000 ond maent yn parhau ymhell uwchben targed WEFO o brosesu ceisiadau wedi'u paratoi'n llawn o fewn 90 diwrnod

3.25 Roedd hyd llwyr y broses arfarnu Amcan 1 yn ofid mawr a fynegwyd gan ymgeiswyr pan adroddwyd ar y Cronfeydd Strwythurol gennym gyntaf yn 2002. Roedd hyn yn bennaf yn sgil yr oedi hir a gafwyd ym mlwyddyn gyntaf y rhaglen pan gyflwynwyd dros 600 o brosiectau ar yr un pryd, yr oedd angen gwaith pellach sylweddol ar nifer fawr ohonynt cyn y byddai WEFO yn eu cymeradwyo. Gwnaeth y sefyllfa wella yn dilyn hynny wrth i'r amrywiol bartïon ynghlwm ennill gwell dealltwriaeth o'r hyn yr oedd ei angen, a chafodd terfynau amser penodedig ar gyfer cyflwyno ceisiadau eu tynnu ymaith yn bennaf, i ffafrio "rhaglen dreigl", lle gellid cyflwyno prosiectau ar unrhyw adeg.

3.26 Mae'r amser sydd ei angen i arfarnu prosiect yn dibynnu ar nifer fawr o ffactorau, gan gynnwys cymhlethdod y prosiect, swm a natur y cyngor arbenigol sydd ei angen, pa mor dda mae'r cais wedi'i baratoi ac a oes angen datrys unrhyw faterion mawr cyn rhoi cymeradwyaeth. Er enghraifft, gall problemau gyda rheoliadau cymorth y wladwriaeth neu ganiatâd cynllunio oedi cymeradwyo prosiectau am nifer fawr o fisoedd. Ni chaiff llawer o'r tasgau sy'n rhan o'r broses arfarnu eu cyflawni gan WEFO ac maent yn gorgyffwrdd â'i gilydd fel nad yw eu heffaith ar amser arfarnu cyffredinol bob amser yn glir. Argymhellodd y Pwyllgor Archwilio fod WEFO yn defnyddio'i system wybodaeth newydd i fonitro amserau arfarnu'n systematig, fel y gellir adnabod unrhyw broblemau neu oedi yn gyflym.

3.27 Ni chaiff y system wybodaeth newydd (paragraff 2.8) ei defnyddio ar hyn o bryd i fonitro amserau arfarnu, er ei bod yn gallu darparu ffigurau pennawd ar gyfanswm parhad y broses. Mae WEFO wedi sefydlu "dyddiadur electronig" ar wahân i gofnodi'r dyddiad y caiff 13 o dasgau arfarnu allweddol eu dechrau a'u gorffen. Bydd y wybodaeth o'r gronfa ddata yn galluogi dadansoddiad mwy soffistigedig o amserau arfarnu fel y gellir asesu effaith pob tasg yn gywir. Mae'r dyddiadur wedi bod yn gweithredu ers Gorffennaf 2003 a bydd yn cymryd peth amser i adeiladu digon o wybodaeth i lunio barnau deallus, gan fod y broses gyfan yn cymryd llawer o fisoedd i'w chwblhau ym mwyafrif yr achosion.


3.28 Defnyddiodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ddata o brif system wybodaeth WEFO i adnabod tueddiadau mewn amserau arfarnu cyffredinol ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd o dan Amcan 1. Caiff y canlyniadau eu dangos 0yn **Ffigur 6:**

- cafwyd gostyngiad sylweddol yng nghyfran y prosiectau sy'n cymryd mwy na blwyddyn i'w cymeradwyo (o 60 y cant yn 2000 i 13 y cant yn 2002);
- caiff mwyafrif y prosiectau bellach eu cymeradwyo o fewn chwe mis, gwelliant mawr o'r sefyllfa yn 2000; ac

6 Mae amserau arfarnu prosiectau wedi gwella, ond ychydig brosiectau a brosesir o fewn targed WEFO o 90 diwrnod ar gyfer ceisiadau wedi'u paratoi'n llawn

Mae'r graff yn mesur yr amser rhwng derbyn cais yn WEFO a'r dyddiad y gellir anfon llythyr cymeradwyo grant. Mae'n cynnwys pob prosiect a gymeradwywyd o dan Raglen Amcan 1 erbyn 31 Rhagfyr 2003. Caiff perfformiad ei fesur i'r dyddiad diweddaraf sydd ar gael (er enghraifft, mae data ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd o fewn 90 diwrnod yn cynnwys pob cais a dderbyniwyd ar neu cyn 30 Medi 2003, sef 90 diwrnod cyn 31 Rhagfyr 2003).

Mae graddfa'r graff yn gynyddol felly mae pob llinell yn cynnwys pob prosiect sy'n cael ei brosesu mewn llai na'r amser a nodir. Er enghraifft y llinell yn dangos lle mae'r prosiectau wedi'u prosesu o fewn 180 diwrnod yn cynnwys y prosiectau hynny s'y wedi'u prosesu 90 diwnrnod.




*Ffynhonnell: Dadansoddiad NAO o ddata WEFO*

- mae WEFO wedi cael llai o lwyddiant wrth godi nifer y prosiectau a gymeradwyir o fewn 90 diwrnod (ei darged ar gyfer ceisiadau wedi'u paratoi'n llawn) - mae perfformiad wedi gwella ond nid oes arwydd bod WEFO yn gallu cyflawni ei dargedau yn y mwyafrif o achosion.

3.29 Felly, cafwyd gwelliant nodedig yng nghyfartaledd amserau arfarnu rhwng 2000 a 2001, gyda gwelliant arafach ers hynny. Syrthiodd amserau arfarnu canolrifol o 17.4 mis yn 2000 i 7.3 mis yn 2001 a phum mis yn 2002, gyda pherfformiad tebyg yn ymddangos ar gyfer 2003. Mae amserau arfarnu wedi gwella ar draws Rhaglen Amcan 1, gyda'r rhai ar gyfer ESF dipyn gwell na'r rhai ar gyfer y Cronfeydd eraill.

3.30 Nid yw'r ffigurau pennawd hyn yn caniatáu dadansoddiad ystyrlon o'r rhesymau ar gyfer oedi. Mae WEFO wedi ymchwilio yn fanylach i sampl o brosiectau Amcan 1 ac wedi adnabod y nodweddion canlynol:

- mae wedi treulio mwy o amser ar dasgau arfarnu penodol (gan fod mwy o gyngor yn cael ei geisio gan arbenigwyr, er enghraifft) ond mae wedi llwyddo i orgyffwrdd y tasgau hyn fel bod cyfanswm parhad y broses wedi dirywio;
- gyda rhai prosiectau, yn enwedig y rhai diweddaraf, rhoddodd WEFO fwy o gefnogaeth i brosiectau cyn anfon cais i mewn. Arweiniodd hyn at arbed cyfartaledd amser o ryw dri mis ar y cam arfarnu; ac
- y tasgau sy'n cymryd y rhan fwyaf o amser yw cael cyngor proffesiynol a cheisio gwybodaeth ychwanegol ac eglurhad gan ymgeiswyr - yn nodweddiadol, mae pob un yn cymryd mwy na 80 diwrnod i'w cwblhau. O gymharu â hyn, nid yw un o'r tasgau sydd yn gyfan gwbl o dan reolaeth WEFO (er enghraifft cadarnhau cymhwyster sylfaenol) yn cymryd mwy na 40 diwrnod ac mae'r mwyafrif yn cael eu cwblhau mewn llai na deng niwrnod.

3.31 Yn gyffredinol, mae WEFO wedi gwella ei amserau arfarnu yn sylweddol o flwyddyn gyntaf anodd y rhaglenni yn 2000, ond wedi gwella'n arafach ers hynny. Caiff llai na 15 y cant o brosiectau eu cymeradwyo o fewn y targed o 90 diwrnod. Fodd bynnag, caiff mwyafrif y prosiectau bellach eu cymeradwyo o fewn chwe mis, ac awgrymodd y gwerthusiad canol-tymor Amcan 1 fod chwe mis yn amcan mwy realistig. Fodd bynnag, mae WEFO yn dymuno cadw'r targed 90 diwrnod, gan ystyried bod modd ei gyflawni yn y tymor hwy gyda pharatoi gwell ar y cam gwneud cais am brosiect a chydlynu tasgau'n fedrus yn y cam arfarnu. Mae ei waith ei hun yn awgrymu y gallai amser arfarnu gael ei leihau'n sylweddol trwy ddefnyddio'r technegau hyn, ond mae'r targed yn parhau yn uchelgeisiol iawn ac ni fyddai'n ddoeth i WEFO na noddwyr y prosiect gynllunio ar sail amser arfarnu arferol o 90 diwrnod.

## Mae WEFO wedi gwella'r arweiniad sydd ar gael i'w swyddogion arfarnu prosiectau yn fawr ond nid yw'r rhesymau dros farnau pwysig bob amser yn cael eu dogfennu o hyd

3.32 Fel yr awdurdod rheoli ar gyfer y rhaglenni Ewropeaidd yng Nghymru, mae WEFO yn gyfrifol am arfarnu pob cais am brosiect i sicrhau ei fod yn gymwys i gael cefnogaeth. Er bod gan bob rhaglen ei fframwaith arfarnu ei hun a allai amrywio yn ôl Cronfa a Mesur, ym mwyafrif yr achosion, i fod yn gymwys am grant, rhaid i'r prosiect:

- gydymffurfio â rheolau sylfaenol;
- bod yn un angenrheidiol;
- bod yn hyfyw a chynaliadwy;
- cael ei reoli'n dda a'i fonitro'n gywir;
- mynd i'r afael â themâu trawsbynciol cyfle cyfartal, cynaliadwyedd amgylcheddol a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu; a
- chynnig gwerth am arian.

Mae hyn yn golygu asesiad helaeth o bob cynnig gan staff WEFO, sy'n ymgynghori â chynghorwyr arbenigol, partneriaethau lleol a grwpiau cynghori thematig fel bo'n briodol.

3.33 Pan astudiwyd gweithdrefnau arfarnu prosiectau WEFO gennym yn 2001, darganfuwyd bod WEFO yn arfarnu prosiectau'n systematig trwy ddefnyddio meini prawf dethol penodedig, a gwnaed archwiliadau trylwyr i sicrhau bod prosiectau'n gymwys am grant. Fodd bynnag, pan lansiwyd y rhaglenni yn 2000, nid oedd gan y staff arweiniad digonol, roedd y broses yn aml yn cael ei dogfennu'n wael ac ni chafodd diffygion llawer o geisiadau eu herio'n ddigonol. Gwellodd pethau yn ystod 2001 gan i arweiniad gwell gael ei ddatblygu a daeth staff ac ymgeiswyr yn fwy cyfarwydd â'r gofynion. Fodd bynnag, roedd llawer o'r barnau anos - ar werth ychwanegol, galw am y prosiect a gwerth am arian - naill ai heb eu dogfennu'n gywir neu heb eu hasesu'n ddigon trylwyr. Ni ofynnwyd i noddwyr prosiect asesu'r peryglon sy'n wynebu eu prosiectau ac ni wnaed unrhyw asesiad risg gan WEFO. Roedd y Pwyllgor Archwilio yn poeni'n benodol am y problemau hyn a gofynnodd fod WEFO'n eu datrys yn ddi-oed.

3.34 Mae WEFO bellach wedi cyhoeddi arweiniad newydd sy'n darparu fframwaith arfarnu cynhwysfawr a phriodol ar gyfer staff sy'n arfarnu pob prosiect Amcan 1, ac sydd wedi'i gymeradwyo gan y gwerthusiad canol-tymor Amcan 1. Defnyddir y fframwaith hefyd wrth arfarnu prosiectau ESF, er y mae'r rhain yn parhau i gael eu harfarnu trwy ddefnyddio meini prawf ar wahân a phroses sgorio fwy mecanyddol nag ar gyfer Cronfeydd eraill.

3.35 Mae'r gwerthusiadau canol-tymor a gwasanaeth archwilio mewnol y Cynulliad wedi adolygu arferion arfarnu prosiectau WEFO trwy astudio sampl o brosiectau. Roedd y gwerthuswyr yn gyffredinol hapus â'r ffordd yr arfarnwyd prosiectau, er iddynt gynnig sylwadau ar enghreifftiau unigol gwerth am arian amheus ac anghysonderau mewn ceisiadau ESF. Roedd archwiliad mewnol diweddar gan y Cynulliad o arfarniadau'r ERDF yn fwy beirniadol, er ei fod yn derbyn bod y broses arfarnu'n cael ei rheoli'n dda ac yn cael ei gwneud yn unol â'r canllawiau Ewropeaidd. Adroddodd nad oedd WEFO yn herio gwendidau pwysig mewn ceisiadau prosiect, ychydig iawn o brosiectau oedd yn dangos unrhyw dystiolaeth o asesu risg ac nid oedd hanes blaenorol noddwyr prosiectau'n cael ei archwilio'n gyson (mae hwn yn ddangosydd

## 7 Sut mae WEFO wedi mynd i'r afael â'r materion yn codi o'n hadroddiad yn 2002

| Mater yn adroddiad 2002 | Aethpwyd i'r afael ag ef yn yr arweiniad ar gyfer ymgeiswyr a staff? | Gwelliannau a weithredwyd yn ymarferol? |
|---|---|---|
| **Gwerth ychwanegol**<br>Dibynnodd WEFO yn bennaf ar y partneriaethau i'w rybuddio rhag dyblygu neu amnewid gweithgarwch. Ar gyfer prosiectau'r sector cyhoeddus, nid oedd hi bob amser yn glir faint o ddarpariaeth ychwanegol oedd ar gael gyda'r grant neu lle byddai unrhyw adnoddau a ryddheir trwy ariannu'r prosiect yn cael eu hailgyfeirio. Angen:<br>■ canolbwyntio ar brosiectau perygl uchel<br>■ gofyn cwestiynau perthnasol ynghylch ariannu blaenorol, darpariaeth bresennol ac ailgyfeirio adnoddau. Rhaid sefydlu safle waelodlin<br>■ sicrhau bod ymgeiswyr a staff yn gwbl ymwybodol o'r gofynion | Nid oes angen cyflwyno mwyafrif y prosiectau bellach trwy bartneriaethau, felly daw'r asesiad gan WEFO hyd yn oed yn bwysicach.<br><br>Mae arweiniad ar gyfer staff bellach yn mynd i'r afael â'r materion allweddol ac yn darparu enghreifftiau o dystiolaeth ar gyfer gwerth ychwanegol. Ar gyfer Amcan 1, ERDF/EAGGF/FIFG mae'r ffurflen gais bellach yn gofyn am wybodaeth benodol ar natur a swm y ddarpariaeth bresennol, fel y gellir sefydlu gwaelodlinau | Ni chododd gwerthusiadau canol-tymor unrhyw bryderon penodol ynghylch gwerth ychwanegol. Ar gyfer Amcan 1, hawliodd llawer o brosiectau werth ychwanegol ar sail darpariaeth ansawdd gwell yn hytrach na swm mwy o faint - mae hyn yn dderbyniol ond mae angen bod yn ofalus i gyfri'r fantais ychwanegol yn unig fel allbwn Rhaglen Amcan 1.<br><br>Cafodd adroddiadau archwilio mewnol fod asesiad gwerth ychwanegol WEFO yn aml wedi'i ddogfennu'n wael a bod rhai prosiectau wedi gwneud honiadau croes na chafodd eu cwestiynu.<br><br>Diwygiwyd dogfennau ESF i adlewyrchu'n well yr asesiad ar werth ychwanegol |
| **Angen am y prosiect**<br>Roedd y prosiectau'n amrywio'n fawr o ran ansawdd eu hachos, a phrin yr oedd addewidion yn cael eu harchwilio gan WEFO<br><br>Dibyniaeth gref ar bartneriaethau ond nid oedd cwmpas a dyfnder yr asesu'n glir o'r dogfennau ym meddiant WEFO<br><br>Argymhelliad: ymgorffori asesiad manylach o'r angen am ac ansawdd y prosiect yn ei feini prawf dethol ar gyfer ERDF, EAGGF a FIFG, ac ar gyfer pob Cronfa, bod gwaith y partneriaethau yn hyn o beth yn cael ei ymgorffori'n uniongyrchol i leihau dyblygu<br><br>Fframwaith defnyddiol yw gofyn cyfres o gwestiynau cysylltiedig megis: beth yw'r angen penodol y mae'r prosiect yn mynd i'r afael ag ef? Pa ddarpariaeth arall sydd a pham nad yw hyn yn ddigonol? Pa dystiolaeth a geir y bydd y prosiect hwn yn effeithiol? Pa ddewisiadau eraill sydd? Sut bydd y prosiect yn cael ei hyrwyddo a buddiolwyr yn cael eu recriwtio? | Mae arweiniad ar gyfer swyddogion arfarnu bellach yn cynnig enghreifftiau o dystiolaeth i chwilio amdanynt<br><br>Atgyfnerthwyd arweiniad arfarnu i fynd i'r afael yn benodol â'r angen am allbynnau prosiect, gweithgarwch prosiect a nawdd prosiect. Ni fydd partneriaethau bellach yn cynnal eu hasesiadau manwl eu hunain ond bydd grwpiau cynghori thematig yn ystyried yr angen am y prosiect a bydd ymgynghori â phartneriaethau lleol yn parhau<br><br>Caiff y cwestiynau hyn bellach eu cynnwys yn yr arweiniad ar gyfer swyddogion arfarnu a dywedir wrth ymgeiswyr Amcan 1 i fynd i'r afael â mwyafrif y materion hyn yng nghynllun eu prosiect neu eu ffurflen gais. Fodd bynnag, ni chynhwysir ymgeiswyr ESF yn yr arweiniad hwn. | Cafodd archwiliad mewnol o arfarniadau prosiect ERDF Amcan 1 fod barnau ar angen am y prosiect yn aml yn cael eu dogfennu mewn ffordd fras iawn ac nid oedd yn glir o ffeiliau'r prosiect pa dystiolaeth a oedd wedi'i harchwilio. Ni chafodd gwaith gan y partneriaethau ei ddefnyddio'n ffurfiol gan WEFO<br><br>Mae'n rhy gynnar i asesu effaith y gweithdrefnau arfarnu newydd gan iddynt gael eu cyflwyno yn ddiweddar |
| **Gwerth am Arian**<br>Fel rheol asesir costau prosiect mewn peth manylder, ond roedd asesu canlyniadau a chostau uned heb ei ddatblygu cystal<br><br>Ni chaiff costau uned eu hymgorffori'n uniongyrchol ym meini prawf sgorio ar gyfer Amcan 1<br><br>Lle i ddatblygu costau ac addasiadau uned ddangosol ar gyfer pwysau marw, dadleoli a ffactorau eraill sy'n lleihau effaith yr allbynnau a briodolir i brosiect | Mae arweiniad gwell bellach ar gael i staff arfarnu, gan gynnwys costau meincnodi ar gyfer gweithgareddau penodol a ffactorau disgownt dangosol ar gyfer targedau swyddi<br><br>Nid yw meini prawf sgorio eto wedi'u newid ar gyfer unrhyw un o'r rhaglenni | Cynyddu'r defnydd a wneir o arfarniad ariannol a chyngor gan yr Isadran Ystadau ar brosiectau cyfalaf ar gyfer prosiectau ERDF/EAGGF/FIFG<br><br>Ceisio cyngor allanol ar gyfer prosiectau ESF gan bartneriaethau ac ELWa<br><br>Ni chafodd yr Archwiliad mewnol fawr o dystiolaeth ysgrifenedig fod costau prosiect yn cael eu hadolygu'n fanwl, yn enwedig costau uned a chanlyniadau |

pwysig o allu noddwr i gyflwyno prosiect fel a fwriadwyd). Mae **Ffigur 7** yn gosod y prif faterion yn y maes hwn a nodwyd yn ein hadroddiad yn 2002, sut yr aeth WEFO i'r afael â nhw yn y fframwaith arfarnu newydd a chanfyddiadau cysylltiedig y gwerthusiadau canol-tymor a'r archwilwyr mewnol.

3.36 Mae WEFO yn benderfynol bod arfarniad manwl yn cael ei gyflawni ym mhob achos, ond yn derbyn bod angen dogfennu barnau ar gwestiynau mwy cymhleth am werth am arian yn well. Caiff canlyniadau'r arfarniad eu cofnodi ar gyfres o restrau gwirio manwl, ac ar gyfer materion ansoddol fel gwerth ychwanegol ac ansawdd systemau rheoli, hwyrach mai'r farn olaf a gofnodir yn unig.

## PWYNTIAU ALLWEDDOL AR GAEL Y PROSIECTAU IAWN

**Ar arian cyfatebol:**

- MaeLlywodraeth y Cynulliad yn monitro argaeledd arian cyfatebol yn bennaf fel rhan o'r cylch cynllunio cyllidebol.
- Nid oes tystiolaeth bod diffyg arian cyfatebol wedi cyfyngu ar y cynnydd hyd yn hyn, ond mae'r pwysau yn cynyddu yn sgil symudiadau yn y gyfradd gyfnewid, twf arafach yn y gwariant cyffredinol ar ddatblygu economaidd, a phrosiectau'n pentyrru yn dilyn oedi cynharach yn y rhaglenni.
- Mae'r galw am ddwy gyllideb arian cyfatebol benodol Llywodraeth y Cynulliad wedi cynyddu'n sylweddol ar ôl dechrau araf. Cafodd y gyllideb Llwybr i Ffyniant ei gordanysgrifio yn 2003 ond mae swyddogion wedi gweithredu i reoli'r galw trwy flaenoriaethu ceisiadau ac annog prosiectau i fwyhau'r defnydd o ffynonellau cyllid eraill.
- Gallai mwy o ddefnydd o gronfeydd allweddol helpu hwyluso mynediad ar gyfer sefydliadau gwirfoddol bach, sy'n ei chael yn anodd cydlynu nifer o ffynonellau ariannu.

**Ar ymgysylltiad y sector preifat â'r rhaglenni:**

- Gwnaed cynnydd da wrth gymeradwyo prosiectau a arweinir gan y sector preifat ac mae nifer fawr o rai eraill ar y gweill.
- Mae'r sector preifat wedi ymrwymo £427 miliwn mewn arian cyfatebol erbyn 31 Mawrth 2004, ac mae ar y ffordd i fodloni targed penodol y rhaglenni.
- Gwnaed cynnydd arafach wrth gomisiynu'r sector preifat i gyflwyno prosiectau penodol; nid oes prosiectau "templed" o'r fath wedi'u cyflwyno eto, ond mae WEFO yn gobeithio cael wyth prosiect ar waith erbyn 2005.

**Ar ddatblygu ac arfarnu prosiectau:**

- Mae WEFO wedi symleiddio proses datblygu ac arfarnu'r prosiect yn sylfaenol, gan gyfuno gwahanol gamau a lleihau nifer y partneriaethau. Mae WEFO yn bwriadu darparu mwy o arweiniad ar gyfer ymgeiswyr wrth iddynt baratoi ceisiadau prosiectau er mwyn mwyhau manteision y newidiadau a wnaed.
- Mae'r ffurflen gais ar gyfer ERDF, EAGGF a FIFG wedi'i gwella ond nid oes cynlluniau i ddisodli'r ffurflen ESF broblematig.
- Mae cyfartaledd amserau arfarnu wedi disgyn o 14 mis i chwe mis ers 2000 ac yn parhau i wella'n araf, ond caiff rhai prosiectau eu hasesu o fewn y targed o 90 diwrnod. Dylai cydlynu gwell o dasgau arfarnu helpu torri ar yr amserau ymhellach, ond mae'r targed 90 diwrnod yn parhau i fod yn uchelgeisiol iawn.
- Mae WEFO wedi datblygu fframwaith grymus ar gyfer arfarnu prosiectau, yn cyhoeddi arweiniad cadarn i'r staff ac yn gwneud gwell defnydd o arbenigedd allanol. Fodd bynnag, ni cheir fawr o dystiolaeth bod y materion gwerth am arian mwy cymhleth yn cael eu harchwilio'n gywir ac mae WEFO yn derbyn bod angen gwell tystiolaeth o weithredoedd.

# 4 Helpu cyflwyno'r hyn a addewir

4.1 Ar ôl dewis y prosiectau iawn, mae eu cyflwyno'n llwyddiannus yn dibynnu ar reoli'r prosiectau yn gadarn. Dyma gyfrifoldeb noddwr y prosiect, y mae ganddo rwymedigaeth gyfreithiol trwy'r llythyr cynnig grant i gyflwyno'r prosiect fel a gynlluniwyd. Mae gan WEFO ddwy brif swyddogaeth yn ystod y cam hwn:

- fel yr awdurdod sy'n talu, mae'n gyfrifol am dalu grantiau, ceisio am ad-daliad gan y Comisiwn Ewropeaidd a rheoli gwariant er mwyn cydymffurfio â rheoliadau llym Ewrop sy'n llywodraethu'r Cronfeydd Strwythurol. Dyma'r **swyddogaeth rheolaeth ariannol;** ac
- fel awdurdod rheoli, mae'n gyfrifol am fonitro cynnydd pob rhaglen tuag at yr amcanion a'r targedau a gytunwyd arnynt â'r Comisiwn. Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch monitro parhaus a gwerthusiad llai aml ond manwl o'r canlyniadau ac effaith ehangach sy'n codi o'r rhaglen. Dyma'r s**wyddogaeth fonitro a gwerthuso.**

## Mae WEFO wedi sefydlu rheolaethau ariannol cadarn ac mae'n eu datblygu ymhellach i fodloni anghenion y rhaglen

4.2 Mae noddwyr prosiectau yn cyflwyno ffurflenni hawlio yn rheolaidd i WEFO yn adrodd eu gwariant a'r allbynnau a gyflawnwyd gan y prosiect. Mae WEFO yn talu'r grant yn seiliedig ar y ffurflenni hawlio hunanardystiedig hyn. Yn 2002, adroddwyd gennym fod WEFO wedi sefydlu hierarchaeth o reolaethau ariannol i helpu sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n gywir. Roedd y rhain yn cynnwys:

- archwiliadau'n cael eu gwneud ar bob ffurflen hawlio (fel rheol fe'u derbynnir bob chwarter) gan y tîm taliadau perthnasol, sy'n ymchwilio i unrhyw anghysonderau neu newidiadau annisgwyl;
- archwiliad blynyddol annibynnol o bob prosiect, ac eithrio prosiectau ESF gyda chyfanswm grant o lai na £20,000. Mae WEFO yn atal taliadau os yw archwiliad prosiect yn hwyr neu os yw'r canlyniadau'n anfoddhaol; ac
- arolygiadau manylach o brosiectau ar sail sampl gan dîm rheoli ariannol WEFO. Mae'r Undeb Ewropeaidd yn mynnu bod yr arolygiadau hyn yn cynnwys isafswm o bump y cant o gyfanswm gwariant cymwys pob rhaglen ac yn cyhoeddi arweiniad ar beth i'w archwilio, sut i'w archwilio a sut i ddewis y prosiectau i'w harbrofi.

4.3 Mae'r rheolaethau hyn, o'u gweithredu'n llawn, yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer sicrhau bod y Cronfeydd Strwythurol yn cael eu gwario'n gywir. Adroddwyd gennym fod archwilio hawliadau yn y cam talu ac archwiliadau prosiectau wedi'u gorfodi ers dechrau'r rhaglenni presennol, er y cafwyd rhai anghysonderau yng nghwmpas y gwaith y gofynnwyd i'r archwilwyr ei gyflawni. Yn bwysicach, nid oedd yr arolygiadau gan y tîm rheoli ariannol wedi dechrau ar gyfer y rhaglenni newydd gan nad oedd WEFO wedi cwblhau'r gwaith ar raglenni 1994-1999, nad oedd yr arolygiadau ar eu cyfer wedi dechrau nes haf 2000.

4.4 Roedd y Pwyllgor Archwilio hefyd yn poeni bod WEFO yn canolbwyntio'n bennaf ar archwilio gwariant ar ôl iddo gael ei wario gan noddwyr y prosiect. Datgelodd gwaith archwilio prosiectau gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ac arolygiadau gan WEFO broblemau arwyddocaol, yn bennaf am nad oedd noddwyr prosiectau yn dogfennu gwariant yn ddigonol ac eu bod yn hawlio gwariant anghymwys. Yng ngoleuni'r diffygion hyn, roedd y Pwyllgor yn ffafrio ymagwedd fwy rhagweithiol i gefnogi prosiectau ac atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf. Roedd yn argymell bod WEFO yn datblygu trefniadau i sicrhau bod gan brosiectau systemau da yn eu lle yn gynnar, ac y dylent ystyried polisi o ymweld â phob noddwr prosiect o leiaf unwaith i adolygu cynnydd cyffredinol a gwirio

gwybodaeth am allbynnau. Argymhellodd hefyd fod WEFO yn adolygu ei drefniadau rheoli i egluro rolau archwilwyr prosiectau a'i dîm rheoli ariannol ei hun er mwyn lleihau'r gorgyffwrdd rhyngddynt.

## Mae anghysonderau yn parhau yng nghwmpas y gwaith y gofynnwyd i'r archwilwyr gyflawni

4.5 Mae cyfarwyddiadau i archwilwyr wedi'u cyhoeddi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (ar gyfer prosiectau ESF), y Comisiwn Archwilio (ar gyfer prosiectau awdurdod lleol mewn Cronfeydd eraill) a chan WEFO ei hun (ar gyfer prosiectau eraill). Pan adroddwyd ar y Cronfeydd Strwythurol gennym yn 2002, roedd anghysonderau yn y wybodaeth gefndir a ddarparwyd ac yng nghwmpas y gwaith y gofynnwyd i archwilwyr ei gyflawni. Er enghraifft, dim ond archwilwyr ESF y gofynnwyd iddynt gadarnhau refeniw prosiectau, dim ond archwilwyr y Comisiwn Archwilio y gofynnwyd iddynt gadarnhau caffael cystadleuol, a dim ond cyfarwyddiadau WEFO a ofynnodd i archwilwyr adolygu rheolaethau ariannol cyffredinol a chadarnhau bod gwariant gweinyddol wedi'i gyfyngu i 10 y cant o'r costau prosiect. Argymhellwyd gennym fod WEFO yn adolygu'r cyfarwyddiadau i sicrhau eu bod yn gyson ac yn gynhwysfawr, bod archwilwyr yn cael rhybudd am beryglon cyffredin a bod digon o wybodaeth gefndir yn cael ei darparu.

4.6 Mae awdurdodau talu'r ESF ym Mhrydain Fawr wedi cydadolygu'r gofyniad archwilio ESF ac wedi dosbarthu cyfarwyddiadau diwygiedig, sydd dipyn yn gliriach o ran natur a graddau'r gwaith i'w gyflawni. Yn benodol, roedd yr arweiniad yn nodi isafswm meintiau sampl ac yn tynnu ymaith y gofyniad am i archwilwyr gadarnhau nad oedd y prosiect eisoes yn cael ei ariannu'n llawn gan ffynhonnell arall - agwedd allweddol o werth ychwanegol, ond un sy'n cymryd amser ac sy'n anodd ei gwirio. Mae'r cyfarwyddiadau hefyd yn cyfyngu ar atebolrwydd yr archwilydd ac yn darparu arweiniad clir ar feysydd risg. Felly mae'r sefyllfa ar ESF yn llawer gwell.

4.7 Mewn cyferbyniad, nid yw WEFO wedi cynnal adolygiadau tebyg ar gyfer y ddwy set o gyfarwyddiadau ar y Cronfeydd eraill, sy'n golygu bod yr un anghysonderau'n parhau yng nghwmpas y gwaith y gofynnir i'r archwilwyr ei gyflawni. Yn benodol, mae'r cyfarwyddiadau'n gwahaniaethu yn y graddau yr ymdrinnir ag allbynnau prosiectau; yn wahanol i ESF, nid yw archwilwyr ar gynlluniau eraill yn gofyn am adolygu systemau ar gyfer casglu data buddiolwyr ac nid ymdrinnir ag allbynnau prosiect o gwbl.

## Mae'r tîm rheoli ariannol wedi dechrau gweithio ar y rhaglenni presennol, wedi gwella'i weithdrefnau ac wedi bodloni targedau ar gyfer cwmpas ei arolygiadau

4.8 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn mynnu bod yr awdurdod talu ar gyfer pob rhaglen yn asesu'r risg o gamgymeriad yn digwydd ar draws yr ystod o weithredoedd o dan ei rheolaeth, ac arolygu sampl o brosiectau yn seiliedig ar yr asesiad risg hwn. Cwblhaodd y tîm rheoli ariannol ei raglen o arolygiadau ar raglenni 1994-99 ym mis Ionawr 2003, ond mae wedi gorfod ymgymryd â gwaith ychwanegol yng nghyd-destun adolygiad y Comisiwn Ewropeaidd ar gau'r rhaglenni hyn ledled y Deyrnas Unedig (caiff y materion hyn eu hystyried yn fanylach yn Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2004, a gyhoeddwyd ar 11 Mehefin 2004). Mae WEFO wedi atgyfnerthu ei weithdrefnau i sicrhau y caiff prosiectau yn y rhaglenni presennol eu dewis ar sail y risg gydnabyddedig tra'n sicrhau bod yr holl raglenni, y mathau o brosiectau a'r cyfnodau talu yn cael eu cynnwys yn ddigonol.

4.9 Un o'r meini prawf ar gyfer y Gronfa Berfformiad - a ddisgrifir yn fanylach yn Rhan 5 - oedd y dylai WEFO erbyn 31 Rhagfyr 2003 fod wedi arolygu o leiaf pump y cant o gyfanswm y gwariant cymwys o dan y rhaglenni fel yr oeddent ar 30 Mehefin 2003. Mae WEFO wedi bodloni'r targed hwn yn gyfforddus, gan gyflawni rhwng 7.2 y cant ac 11.6 y cant ar gyfer y prif raglenni. Mae gwaith ar y gweill i ddosbarthu a choladu'r argymhellion a dosbarthu canfyddiadau'r gwaith a gyflawnwyd hyd yn hyn.

## Bydd WEFO a'r partneriaethau lleol yn ymweld â phrosiectau i adolygu cynnydd cyffredinol, a dylai'r rhain rhoi sicrwydd cynnar fod systemau rheoli cadarn ar waith

4.10 Ac eithrio'i ymweliadau rheoli ariannol, ychydig o gyswllt uniongyrchol sydd gan WEFO ar hyn o bryd gyda noddwyr prosiect ar ôl cymeradwyo grantiau iddynt. Mae awdurdodau rheoli yn Lloegr yn tueddu i gael mwy o gyswllt uniongyrchol - er enghraifft, yng Nghernyw a Glannau Merswy, ceir polisi o ymweld â phob prosiect ERDF yn eu blwyddyn gyntaf. Gofynnodd y Pwyllgor Archwilio i WEFO ystyried ymweld â phob noddwr prosiect o leiaf unwaith er mwyn adolygu cynnydd cyffredinol a sicrhau bod y prosiect wedi cyflawni'r allbynnau a hawliwyd. Atgyfnerthodd gwerthusiad canol-tymor Amcan 1 y safbwynt hwn trwy awgrymu'n gryf fod angen mwy o gyswllt er mwyn dal profiad prosiectau, tynnu sylw at arfer gorau a chynorthwyo wrth adnabod a datrys unrhyw broblemau yn gynnar. Argymhellodd y dylai'r partneriaethau yn hytrach na WEFO anelu at ymweld â noddwyr y prosiect bob blwyddyn; byddai hyn yn gwahaniaethu'r ymweliadau o swyddogaethau "plismona ac archwilio" tîm WEFO.

4.11 Mae WEFO bellach wedi ystyried y materion sydd ynghlwm ac wedi penderfynu ar ymagwedd ddeuol gydag ymweliadau gan WEFO a'r partneriaethau lleol **(Ffigur 8)**. Bydd gan y partneriaethau rôl "ôl-ofal" gan ddarparu cyngor a chefnogaeth i noddwyr prosiect, tra'n ennill dealltwriaeth fanylach ynghylch sut mae'r prosiectau'n cyfrannu at gyflwyno'r strategaeth leol. Dosbarthodd WEFO arweiniad ym mis Mehefin 2003 ynghylch cwmpas ac amlder yr ymweliadau hyn.

4.12 Ar hyn o bryd, mae WEFO yn sefydlu tîm o 12 person i gyflawni ei ymweliadau monitro ei hun, sy'n debygol o fod yn gwbl weithredol erbyn haf 2004. Mae cynnydd wedi'i oedi'n bennaf yn sgil anawsterau wrth recriwtio staff, ac mae'r awdurdodau rheoli yn yr Alban, Glannau Merswy a De Swydd Efrog yn fwy datblygedig yn eu rhaglen o ymweliadau. Bydd tîm WEFO yn cyflawni rhai archwiliadau sy'n ofynnol o dan reoliadau Ewrop ond nad ydynt yn cael eu cynnwys yn llawn gan archwilwyr prosiectau. Fodd bynnag, ei rôl bennaf fydd sicrhau bod y noddwr wedi sefydlu systemau rheoli cadarn a'i fod yn gwneud cynnydd da tuag at ei amcanion, ac i roi rhybudd cynnar o unrhyw broblemau a allai beryglu cyflwyniad llwyddiannus. Bydd yr ymweliadau'n fyr ac ni fyddant yn cynnwys astudiaeth fanwl o gofnodion y prosiect - mae hyn yn gyson â dymuniad WEFO i ddarparu gwasanaeth cefnogol a datblygu cyfathrebiadau agored â noddwyr y prosiect. Yn ychwanegol, mae'r timau (arfarnu) rheoli rhaglenni yn ymweld â rhai o'r prosiectau mwyaf yn rheolaidd i drafod cynnydd.

**8** ymweliadau monitro prosiectau gan WEFO a'r partneriaethau lleol

| | **WEFO** | **Partneriaethau lleol** |
|---|---|---|
| Pwy fydd yn cynnal yr ymweliadau? | Tîm monitro prosiectau WEFO | Ysgrifenyddiaeth y 15 partneriaeth leol (Amcan 1 yn unig) |
| Sawl prosiect fydd yn destun ymweliad? | Sampl o 10% o'r holl brosiectau, i gynnwys ystod y rhaglenni a'r prosiectau yn seiliedig ar asesiad risg | Pob prosiect lleol o leiaf unwaith y flwyddyn, gyda galwad ffôn o leiaf ddwywaith y flwyddyn |
| Pryd dechreuodd yr ymweliadau? | Ionawr 2004 | Haf 2003 |
| Beth a wneir? | ■ Archwiliad dilysu corfforol yn ôl rheoliadau'r UE - h.y. i gadarnhau bod y prosiect ei hun a'r gweithgarwch yr hawliwyd amdanynt wir yn bodoli<br>■ Adolygu mesurau a gymerwyd gan y noddwr i fodloni gofynion ar gymorth y wladwriaeth, caffael, cyhoeddusrwydd a themâu trawsbynciol<br>■ Adolygu system ar gyfer cofnodi allbynnau<br>■ Adolygu cynnydd cyffredinol a chynnig cyngor os oes angen | Adolygiad cyffredinol ar gynnydd i ateb y cwestiynau canlynol:<br>■ A yw'r prosiect yn cael ei gyflwyno i amser?<br>■ A yw'r prosiect yn debygol o danwario?<br>■ A yw'r noddwr yn cael anhawster wrth weithredu'r prosiect? Os felly, a allai'r bartneriaeth neu WEFO helpu?<br>■ A oes allbynnau heb eu hadrodd i WEFO, h.y. yn ychwanegol at dargedau'r prosiect?<br>■ A oes yna arfer da y gellir ei rannu? |

### Mae WEFO wedi sefydlu elfennau hanfodol rheoli prosiectau ond erbyn hyn mae angen iddo sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu cynnwys yn rheoli rhaglenni a bod y gwaith yn cael ei gydlynu i leihau'r baich ar noddwyr prosiectau

4.13 Mae WEFO bellach wedi sefydlu'r holl elfennau y mae arno eu hangen i ymarfer lefel oruchwylio briodol dros brosiectau'r Gronfa Strwythurol yn unol â rheoliadau Ewrop ac arfer da. Mae rhai o'r mesurau yn parhau i fod ar gyfnod datblygu cynnar a bydd yn cymryd amser i asesu eu heffaith a mireinio gweithdrefnau fel eu bod yn cyfrannu'n effeithiol at reoli rhaglenni, heb fod yn ormod o faich ar noddwyr prosiectau.

4.14 Mae tipyn yn dibynnu ar reoli risg da. Mae WEFO wedi datblygu model risg grymus ar gyfer ei dîm rheoli ariannol, a fydd yn tynnu ar wybodaeth o'r canghennau arfarnu prosiectau ac o hawliadau archwiliedig (arsylwadau ac amodau gan archwilwyr prosiectau). Fodd bynnag, nid yw'r systemau cofnodi ac adborth angenrheidiol wedi'u sefydlu eto. Er enghraifft, nid yw WEFO yn dosbarthu a choladu camgymeriadau a nodir gan archwilwyr prosiectau a'i dîm rheolaeth ariannol. Mae hyn yn angenrheidiol i reoli risg a rhannu gwybodaeth yn systematig - ar hyn o bryd, nid yw WEFO yn gwybod yn derfynol a yw cywirdeb ei wariant gwaelodol yn gwella o'r problemau difrifol a brofwyd yn rhaglenni 1994-99.

4.15 Bydd yr ymweliadau "ôl-ofal" gan y partneriaethau lleol, a'r ymweliadau monitro gan WEFO, yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gynnydd cyffredinol ac mae angen i ganlyniadau'r gwaith hwn hefyd gael eu rhoi i'r staff perthnasol yn WEFO fel y gellir rheoli unrhyw broblemau gweithredu mewn da bryd. Mae profiad wedi dangos bod prosiectau yn aml yn rhedeg yn hwyr, ond mae noddwyr prosiectau'n methu diweddaru eu rhagolygon yn realistig i adlewyrchu'r llithriant. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i WEFO reoli gwariant i osgoi dadneilltuo, gan nad yw'n gallu dibynnu ar y wybodaeth a gyflenwir gan noddwyr gyda'u hawliadau misol. Mae gwell cyfle o asesu'r gwir sefyllfa mewn cyfarfod wyneb yn wyneb.

4.16 Mae ychydig gorgyffwrdd yn parhau rhwng y gwahanol fesurau rheoli. Mae'r arolygiadau rheolaeth ariannol a'r archwiliadau prosiect yn arbennig yn ymdrin â thipyn o'r un tir. Y prif wahaniaeth yw bod WEFO yn astudio prosiectau ar sail sampl ac yn fanylach, lle mae'r gofyniad archwilio yn ymdrin â bron bob prosiect. Serch hynny, ar gyfer y prosiectau hynny sy'n destun y ddau archwiliad, bydd dyblygu gwaith. Mae'r rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd yn gofyn am y ddau fath o reolaeth, sy'n golygu nad oes modd osgoi rhyw radd o ddyblygu. Fel rhan o'i adolygiad o'r gofyniad archwilio, dylai WEFO ystyried ffyrdd ymarferol o leihau'r baich arolygu ar noddwyr prosiect. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, adolygu'r trothwy lle y mae angen archwiliad (£20,000 ar hyn o bryd ar gyfer ESF, ond dim i'r Cronfeydd eraill) ac yn gofyn am archwiliad unigol ar gyfer prosiectau llai o faint yn hytrach nag archwiliad bob blwyddyn.

### Mae WEFO yn monitro'r rhaglenni'n effeithiol ac yn awr mae'n bwriadu gwirio data yn ddewisol

4.17 Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi sefydlu fframwaith llym ar gyfer monitro manteision rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol ym mhob aelod-wladwriaeth: rhaid i bob gweithred gyfrannu tuag at dargedau meintiol, cytûn, a rhaid adrodd ar gynnydd yn rheolaidd i'r Pwyllgorau Monitro Rhaglenni a'r Comisiwn ei hun. Mae rheoliadau Ewropeaidd hefyd yn gofyn i WEFO gomisiynu gwerthusiad canol-tymor allanol o bob rhaglen i asesu ei gynnydd a pherthnasedd parhaus y strategaeth sy'n ei thanategu.

4.18 Gwnaeth absenoldeb cronfa ddata integredig atal WEFO rhag coladu gwybodaeth ar allbynnau bwriadedig a gwirioneddol pob prosiect nes diwedd 2002, gan olygu ei bod yn amhosibl dadansoddi cynnydd yn erbyn targedau ar lefel rhaglen (er ar yr adeg honno, ychydig o bob rhaglen oedd wedi'i gwario a byddai hyd yn oed llai o allbynnau wedi'u cyflwyno). Roedd y Pwyllgor Archwilio yn poeni nad oedd system ar gyfer cofnodi allbynnau wedi'i sefydlu dros ddwy flynedd ar ôl dechrau'r rhaglenni, ac wedi pwyntio at dri cham wrth ddatblygu system fonitro gadarn:

- dewis targedau priodol;
- gweithredu system ar gyfer cofnodi a dadansoddi allbynnau; a
- gwirio'r wybodaeth a gafwyd i sicrhau bod cynnydd yn erbyn y targedau yn cael ei adrodd yn gywir. Gallai hwn fod ar ffurf gwirio parhaus yn ogystal â gwerthusiadau manwl llai aml ond mwy targedig.

## Mae WEFO wedi rhesymoli ei system o dargedau ond mae'r gwerthusiadau canol-tymor wedi awgrymu gwelliannau pellach

4.19 Yn y dechrau, gwnaeth WEFO resymoli'r targedau ar gyfer Amcan 1 yn 2001 ar ôl iddi ddod yn glir bod rhai targedau ar y lefel Mesur yn anghyson â thargedau lefel uwch, tra bo dangosyddion eraill heb eu diffinio'n ddigonol. Gwnaeth y gwerthusiad canol-tymor ar gyfer Amcan 1 ategu mwyafrif y targedau a chadarnhau bod strategaeth y rhaglen yn parhau'n berthnasol. Argymhellodd rai newidiadau i'r system o fonitro allbynnau, y cafodd y mwyafrif ohonynt eu derbyn gan WEFO **(Ffigur 9).**

## Mae gan WEFO bellach y gallu i gasglu a dadansoddi gwybodaeth fonitro yn effeithiol

4.20 Mae'r system wybodaeth rheoli grant a weithredwyd yn gynyddol yn ystod 2002 bellach yn casglu'r holl allbynnau a fwriadwyd a gwirioneddol o raglenni'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru, ac yn caniatáu dadansoddiad helaeth o allbynnau ar gyfer Mesurau ac ardaloedd daearyddol penodol. Caiff y data hwn ei ddadansoddi'n fanwl gan is grŵp monitro Pwyllgor Monitro Rhaglenni Amcan 1, ac fe'i defnyddir i adrodd ar batrymau a thueddiadau cyffredinol i'r gwahanol Bwyllgorau Monitro Rhaglenni a Phwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth y Cynulliad Cenedlaethol.

4.21 Mae'r partneriaethau a'r Grwpiau Cynghori Thematig hefyd yn derbyn adroddiadau manwl ar y prif allbynnau yn eu hardal neu'n rhan o'r rhaglen, gan gynnwys cyfraniad posibl prosiectau yn cael eu harfarnu gan WEFO. Caiff rhai dangosyddion eu rhannu ymhellach yn gategorïau amrywiol - er enghraifft, caiff swyddi eu dadansoddi yn ôl rhyw, ethnigrwydd ac iaith, tra bo cwmnïau a gynorthwyir yn cael eu dadansoddi yn ôl maint a sector economaidd. Mae'r lefel hon o fanylder yn

**9** Newidiadau a awgrymwyd yng ngwerthusiad canol-tymor Amcan 1 i'r system o dargedau a dangosyddion allbwn

| Newid arfaethedig | Ymateb WEFO |
|---|---|
| **Symleiddio'r strwythur targedau** lle bo'n bosibl, disodli'r mesurau cymharol a sicrhau cysondeb rhwng y targedau lefel uchel a'r rhai yn y Ddogfen Ategol i'r Rhaglen. Addasiadau amrywiol wedi'u cynnig | Mae WEFO yn ymgorffori mwyafrif y newidiadau yn ei adolygiad o'r Ddogfen Ategol i'r Rhaglen ond mae'n ei ystyried yn amhriodol diwygio'r targedau lefel uchel yn y cam hwn o'r rhaglen |
| **Diffinio rhai dangosyddion yn gliriach**, gan fod dehongli yn amrywio ymhlith noddwyr prosiectau, ac mewn rhai achosion nid yw'r hawliadau a wnaed yn argyhoeddiadol. Swyddi, buddiolwyr a mentrau bach a chanolig eu maint (SMEs) a gynorthwyir yw'r prif ddangosyddion y mae angen eu hadolygu | Diffiniadau swyddi wedi'u llunio a'u dosbarthu |
| **Comisiynu ymchwil i gyfrif allbynnau ddwywaith** rhwng prosiectau: mae hyn yn debygol o ddigwydd os nad oes rheolaethau i'w hatal | WEFO i gomisiynu ymchwil |
| **Sicrhau bod yr holl dargedau'n cael eu mesur a bod modd asesu cynnydd**. Ychydig brosiectau sydd â systemau i fesur y twf yn nhrosiant eu buddiolwyr, ac ar gyfer rhai targedau nid oes data gwaelodlin ar gael yn hawdd felly ni ellir mesur cynnydd. | Mae WEFO yn ymchwilio i sut y gellir mesur twf trosiant ac yn ystyried sut y gellir sefydlu gwaelodlinau |
| **Caniatáu mwy o hyblygrwydd i brosiectau greu eu targedau eu hunain ac adrodd ar gyflawniadau y tu allan i strwythur presennol targedau**. Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth i adrodd "canlyniadau meddal" yn hawliadau'r prosiect, ac mae rhai noddwyr prosiectau yn teimlo nad yw gwir werth eu prosiect yn cael ei asesu'n llawn | Ni fydd WEFO yn gwneud hyn gan y byddai'n gwneud gweinyddu ac adrodd yn fwy cymhleth |
| **Mwy o ffocws ar werthusiad lefel prosiect**, a ddylai fod yn orfodol ar gyfer prosiectau'n derbyn dros £1 miliwn mewn grant. | Rhaid i brosiectau sy'n derbyn dros £2 miliwn mewn grant gael eu gwerthuso'n annibynnol. Mae WEFO hefyd yn mynnu bod cam cyntaf prosiect yn cael ei werthuso cyn iddo gymeradwyo'r ail gam, a bydd yn defnyddio'r gwerthusiad fel rhan o'r broses arfarnu |

lletchwith i gasglu ar gyfer noddwyr prosiectau (yn enwedig y rhai sy'n gweithredu ar draws ffiniau awdurdodau lleol a sectorau) ond dylai hwyluso lefel lawer mwy soffistigedig o fonitro a gwerthuso nag oedd yn bosibl yn y gorffennol. Mae angen y manylder hefyd i fodloni disgwyliadau partneriaethau a gwleidyddion, sydd weithiau â diddordeb yng nghynnydd y rhaglenni mewn sectorau neu ardaloedd daearyddol penodol iawn.

## Ceir rhai problemau gydag ansawdd data ac mae WEFO yn bwriadu gwirio mewn modd cyfyng i sicrhau bod y data yn gywir

4.22 Cododd gwerthusiad canol-tymor Amcan 1 rai pryderon ynghylch ansawdd data allbwn a ddarparwyd gan noddwyr prosiectau, a thynnu sylw at y ffaith ei bod yn anodd iawn gwirio allbynnau yn wrthrychol. Fel a nodwyd yn Ffigur 9, gwnaeth y noddwyr prosiectau ddehongli dangosyddion penodol mewn gwahanol ffyrdd ac mewn rhai achosion mae'r hawliadau i'w gweld yn ormodol. Tra oedd gan fwyafrif y prosiectau systemau i atal cyfrif allbynnau ddwywaith o fewn eu prosiect, ni chafwyd rheolaethau i atal hyn rhwng prosiectau. Mae WEFO yn cymryd camau i wella ymwybyddiaeth trwy gyhoeddi arweiniad newydd, a bydd yn ymchwilio i raddau cyfrif ddwywaith fel rhan o werthusiad arfaethedig ar effaith y rhaglenni.

4.23 Hyd yn hyn, cafwyd gwirio cyfyng bod y data allbwn a ddarperir gan noddwyr prosiectau yn gywir, ond mae hyn wedi dechrau gwella gan fod WEFO wedi ymestyn ei ymweliadau rheoli ariannol i gynnwys y rhaglenni presennol. Mae archwilwyr prosiect ESF hefyd yn adolygu systemau i sicrhau bod buddiolwyr yn cael eu cofnodi'n gywir. Bydd y tîm monitro prosiectau newydd yn ymweld â phrosiectau yn gynharach a bydd yn gwirio bod noddwyr yn defnyddio'r diffiniadau cywir o ddangosyddion allweddol, a bod ganddynt waelodlinau grymus i fesur cynnydd yn eu herbyn a systemau priodol ar gyfer casglu data.

## PWYNTIAU ALLWEDDOL AR HELPU CYFLWYNO YR HYN SYDD WEDI'I ADDO

**Ar reolaeth ariannol:**

- Mae WEFO wedi sefydlu system o reolaethau ariannol cadarn ac mae'n ei datblygu ymhellach i fodloni anghenion y rhaglen
- Mae anghysonderau yn parhau yng nghwmpas y gwaith y gofynnir i archwilwyr prosiectau ei gyflawni. Mae WEFO wedi adolygu cyfarwyddiadau archwilio'r ESF ond nid y rhai ar gyfer y Cronfeydd eraill.
- Mae'r tîm rheoli ariannol wedi clirio'r pentwr o arolygiadau a achoswyd gan ddechrau ar y rhaglenni blaenorol yn hwyr ac mae wedi bodloni'r targed ar gyfer y Gronfa Berfformiad. Mae wedi gwella ei weithdrefnau i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn ystod cau'r rhaglenni blaenorol.
- Yn ddiweddar, mae WEFO wedi sefydlu tîm monitro prosiectau i ymweld â noddwyr prosiectau yn gynnar i adolygu cynnydd cyffredinol a chadarnhau bod y rheolaethau allweddol yn eu lle. Ynghyd ag ymweliadau gan bartneriaethau lleol, dylai hyn fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Archwilio a gwerthusiad canol-tymor Amcan 1 sef y dylai WEFO gael mwy o gyswllt uniongyrchol gyda phrosiectau yn ystod y cyfnod gweithredu.
- Mae angen i WEFO sicrhau canlyniadau monitro prosiectau a rheoli adborth i'r rhai y gallant ei ddefnyddio er mwyn asesu risg a gwella rheoli rhaglenni.
- Ceir rhywfaint o ddyblygu rhwng yr archwiliadau prosiect ac arolygiadau rheoli ariannol WEFO, a dylai WEFO ystyried ffyrdd ymarferol o leihau'r baich ar ymgeiswyr prosiectau lle mae rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd yn caniatau.

**Ar fonitro rhaglenni:**

- At ei gilydd, mae'r gwerthusiadau canol-tymor wedi ategu'r targedau a osodwyd ar gyfer y rhaglen ond wedi awgrymu rhai newidiadau a gwelliannau. Mae WEFO yn gweithredu ar y rhan fwyaf o'r rhain ond mae wedi penderfynu yn erbyn rhai o'r cynigion.
- Mae gan WEFO bellach y gallu i gasglu a dadansoddi gwybodaeth fonitro trwy ei system TG, ac mae'n llunio ystod eang o adroddiadau.
- Ceir rhai pryderon ynghylch ansawdd y data allbwn a adroddir gan noddwyr prosiectau, ac mae WEFO yn cymryd camau i wella hyn trwy gyhoeddi arweiniad newydd ac adolygu systemau ar gyfer noddwyr prosiectau.

# 5 Cadw'r arian

## Mae angen i WEFO fodloni targedau gwariant a pherfformiad i fwyhau'r swm o Ariannu Strwythurol i Gymru

5.1 Mae'r Undeb Ewropeaidd yn cytuno ar broffil gwario ar gyfer pob rhaglen, ac yn gosod isafswm targedau gwariant ar gyfer pob blwyddyn yn dechrau o ddiwedd trydedd flwyddyn y cyfnod rhaglennu. Rhaid i bob rhaglen fodloni'r targedau hyn neu caiff y balans heb ei wario ei dynnu'n ôl ("ei ddadneilltuo") a chaiff yr Ariannu Strwythurol ei golli'n barhaol. Caiff y gofyniad hwn ei adnabod fel y rheol N+2 neu ddadneilltuo **(gweler y Blwch B)**, a chaiff ei gofnodi yng nghyfraith Ewrop ac mae yr un mor gymwys i bob aelod-wladwriaeth. Caiff targed ar wahân ei osod ar gyfer pob Cronfa Strwythurol ym mhob rhaglen.

5.2 Yn ychwanegol, ceir Gronfa Berfformiad sy'n gyfwerth â phedwar y cant o gyfanswm cyllidebau rhaglenni Amcanion 1, 2 a 3. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y gronfa, rhaid i'r rhaglen fodloni'r rhan fwyaf o set o feini prawf perfformiad y cytunir arnynt ymlaen llaw â'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r meini prawf hyn yn gysylltiedig â chyllid (gan gynnwys gofyniad i wario digon i osgoi dadneilltuo), rheoli (er enghraifft, o ran ansawdd systemau arfarnu a monitro) ac effeithiolrwydd (cyflawni targedau allbwn allweddol). Asesir y meini prawf yng nghanol tymor y rhaglenni, fel rheol yn seiliedig ar y sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2003. Os oes rhaglen yn gymwys ar gyfer y gronfa, caiff y cronfeydd ychwanegol eu dyrannu i flaenoriaethau mwyaf llwyddiannus y rhaglen dros weddill y cyfnod rhaglennu.

5.3 Yn yr un modd â rhaglenni eraill ledled Ewrop, mae Cymru wedi dioddef yn y gorffennol yn sgil gwariant cychwynnol araf gyda rhuthr o daliadau ar ddiwedd y cyfnod rhaglennu. Gwnaeth oedi wrth gymeradwyo grantiau a gwario arian ar ddechrau'r cylch rhaglennu presennol atgyfnerthu pryderon y byddai'r rhaglenni hyn yn cael eu hailadrodd, a gofynnodd y Comisiwn Archwilio i WEFO sicrhau bod popeth posibl yn cael ei wneud i fanteisio ar y Gronfa Berfformiad ac i osgoi dadneilltuo. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn astudio pa mor lwyddianus fu WEFO a'i bartneriaid wrth fodloni'r amcan hwn.

## Bodlonodd WEFO y targedau angenrheidiol i ennill y Gronfa Berfformiad

5.4 Ym mis Mawrth 2004, cadarnhaodd y Comisiwn Ewropeaidd y byddai Cymru yn gymwys ar gyfer y Gronfa Berfformiad ar gyfer pob un o'r tair prif raglen (Amcanion 1, 2 a 3). Bydd hyn yn darparu £65 miliwn ychwanegol dros y tair blynedd sy'n weddill o'r cyfnod rhaglennu, ac na fydd angen

### B Y rheol N+2 neu ddadneilltuo

Cyflwynwyd y rheol N+2 ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2000-06 i annog rheoli ariannol tynnach ac i osgoi taliadau rhag adeiladu'n sydyn tua diwedd y cyfnod rhaglennu o saith mlynedd. Fel arfer, caiff y gyllideb ar gyfer pob rhaglen ei dyrannu'n eithaf cyfartal ar draws y cyfnod. Yn ei hanfod, mae'r rheol N+2 yn mynnu bod dyraniad pob blwyddyn yn cael ei wario o fewn dwy flynedd.

Er enghraifft, mae angen i ddyraniad 2002 gael ei wario erbyn diwedd 2004. Mae'r rheoliadau'n cydnabod ei bod yn cymryd amser i sefydlu rhaglen ac felly mae pob un yn cael blaenswm o saith y cant o'i gwerth cyfan ar ddechrau'r cyfnod. Caiff y blaenswm hwn ei wrthbwyso yn erbyn y targedau dadneilltuo, ac mae'n rhaid ei wario cyn i'r rhaglenni gau ym Mehefin 2009.

Mae'r targed yn berthnasol i'r swm cronnol y mae WEFO yn ei hawlio gan y Comisiwn Ewropeaidd i ad-dalu gwariant cymwys (taliadau i noddwyr prosiect i ad-dalu costau a wariwyd ganddynt). Er mwyn cyfrif yn erbyn y targed dadneilltuo, mae'n rhaid i'r Comisiwn dderbyn yr hawliad erbyn dyddiad y targed.

arian cyfatebol ychwanegol. Er mwyn bod yn gymwys, roedd targed i bob rhaglen fodloni 75 y cant o'r meini prawf ym mhob categori o dargedau ariannol, rheoli ac effeithiolrwydd, gyda phwyslais arbennig ar feini prawf ariannol a rheoli. Dangosir crynodeb o'r meini prawf a'r perfformiad yn eu herbyn yn **Ffigur 10**.

5.5 Cyflawnodd WEFO fwyafrif y targedau mesuradwy yn gyfforddus, gan ragori ar lawer ohonynt yn eang. Fodd bynnag, roedd prosiectau ôl-weithredol (y rhai a ariannwyd gan WEFO ar ôl iddynt gael eu cyflawni - gweler paragraff 5.10) yn chwarae rhan arwyddocaol wrth fodloni meini prawf effeithiolrwydd ar gyfer Amcan 2 a meini prawf ariannol ar gyfer yr holl Amcanion.

5.6 Mae'r gronfa wedi'i dyrannu i'r Mesurau hynny y mae WEFO yn ystyried bod ganddynt y potensial gorau ar gyfer bodloni amcanion a blaenoriaethau strategol, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad a'r adolygiad canol-tymor. Yn gyffredinol, ceir hefyd Fesurau â lefel uchel o alw a oedd wedi'u neilltuo a'u gwario gan mwyaf yn y canol-tymor. Y prosiectau a fydd yn elwa yw'r rhai sy'n delio ag anweithgarwch economaidd, arloesedd, isadeiledd, pysgodfeydd a dyframaeth, a chefnogaeth ariannol i fentrau bach a chanolig. Ar gyfer Amcan 1, bydd adfywiad canol tref yn cael ei ariannu am y tro cyntaf.

## 10 Cronfa Berfformiad

| **Meini prawf** | **% o'r targedau a gyflawnwyd (ar 31 Rhag 2003)** | | |
|---|---|---|---|
| | **Amcan 1** | **Amcan 2** | **Amcan 3** |
| **Meini prawf effeithiolrwydd**<br><br>Ystod o ddangosyddion allbwn ar gyfer gweithgareddau (gan fesur darparu gwasanaethau yn uniongyrchol, e.e. pobl a hyfforddwyd) a chanlyniadau (manteision a gyflawnwyd, e.e. gros swyddi a grëwyd), yn ymdrin ag ystod o Fesurau ac fel rheol wedi'u gosod rhwng 20% a 30% o'r targed ar gyfer y cyfnod rhaglennu cyfan | **85**<br><br>84 (gweithgareddau)<br>88 (canlyniadau) | **71**<br><br>67 (gweithgareddau)<br>100 (canlyniadau) | **79**<br><br>77 (gweithgareddau)<br>83 (canlyniadau) |
| **Meini prawf rheoli**<br><br>Pedwar o feini prawf yn ymdrin ag ansawdd system fonitro, defnydd o feini prawf dethol wedi'u diffinio'n glir, cwblhau gwerthusiad canol-tymor derbyniol | **100** | **100** | **100** |
| **Meini prawf ariannol**<br><br>Dau o feini prawf: targedau gwario a fodlonwyd (dim dadneilltuo), swm o arian cyfatebol sector preifat | **100** | **100** | **100** |
| **Gwerth cronfa berfformiad** | **£57.5m** | **£3.8m** | **£4.1m** |

**SYLWER**

Dyfarnodd y Comisiwn Ewropeaidd y Gronfa yn seiliedig ar amcangyfrifon o'r sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2003. Cafodd yr amcangyfrifon eu cadarnhau yn fras gan y data gwirioneddol a gyflwynwyd gan hawlwyr ar ôl diwedd y flwyddyn. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd wedi derbyn cynnig WEFO sef y dylid anwybyddu nifer o'r dangosyddion canlyniad oherwydd nad oedd data cywir ar berfformiad ar gael.

*Ffynhonnell: WEFO (cronfa ddata o allbynnau a chyflwyniadau i'r Comisiwn Ewropeaidd) a'r Comisiwn Ewropeaidd (Penderfyniad 23 Mawrth 2004 ar ddyraniad y Gronfa Berfformiad).)*

## Bodlonodd WEFO ei holl dargedau dadneilltuo ar gyfer 2003 ond roedd yn dibynnu ar fesurau arbennig i helpu eu cyflawni

5.7 Bodlonodd WEFO ei holl dargedau dadneilltuo yn 2003, rhai ohonynt yn gyfforddus **(Ffigur 11)**. Fodd bynnag, profodd y targedau yn eithriadol o heriol - i ryw raddau oherwydd effaith yr amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid **(gweler y Blwch C)** - a chyflawnwyd rhai mor hwyr â Rhagfyr, gan gynrychioli canlyniad ymdrech ddwys i greu gwariant ychwanegol. Y canlyniad yw bod WEFO wedi osgoi'r golled o £105 miliwn a fyddai fel arall yn cael ei golli yn sgil dadneilltuo (£40 miliwn) a cholli'r Gronfa Berfformiad (£65 miliwn).

5.8 Yng ngolwg y pwysigrwydd yr oedd WEFO yn ei roi i osgoi dadneilltuo, yn 2002 sefydlodd WEFO weithgor o swyddogion uwch i fonitro'r sefyllfa wariant a sicrhau bod WEFO yn cymryd camau gweithredu priodol i fodloni targedau N+2. Cyfarfu'r grwp yn fisol i asesu cynnydd ac adolygu adroddiadau ar wariant, hawliadau grant dyledus a rhagolygon gwariant y dyfodol. Daeth yr adroddiadau hyn yn fwy soffistigedig yn ystod chwarter olaf 2003, gyda dadansoddiadau sensitifrwydd yn dangos sut y byddai perfformiad yn erbyn y targedau yn amrywio yn dibynnu ar gywirdeb rhagolygon gwario'r noddwyr prosiectau. Gwnaeth WEFO ddwysáu ei weithgarwch monitro wrth i'r terfyn amser ddynesu, gan ganolbwyntio ar y rhaglenni mwyaf mewn perygl a'r prosiectau â'r potensial mwyaf ar gyfer osgoi dadneilltuo.

### C Gwnaeth symudiadau'r gyfradd gyfnewid y targedau dadneilltuo'n fwy heriol

Mae Cymru yn derbyn ei Chronfeydd Strwythurol mewn ewros, ond mae WEFO yn talu noddwyr prosiectau mewn punnoedd sterling. Mae WEFO yn gweithio ar sail amcangyfrif o gyfradd cyfnewid sy'n adlewyrchu'r marchnadoedd presennol, ond mae hawliadau i'r Comisiwn Ewropeaidd yn seiliedig ar gyfraddau cyfnewid cyhoeddedig ar gyfer mis y taliad. Ym mis Mehefin 2003 diwygiodd WEFO y gyfradd gynllunio o £1 = €1.62 i £1 = €1.40 i adlewyrchu cwymp sydyn yn y gyfradd gyfnewid dros y tri mis blaenorol. Roedd hwn yn ei gwneud yn sylweddol anos i fodloni'r targedau dadneilltuo; roedd angen £25 miliwn ychwanegol o wariant o gymharu â'r hyn a fyddai ei angen petai'r gyfradd gynllunio flaenorol wedi'i defnyddio.

Petai'r gyfradd gyfnewid flaenorol wedi bod yn berthnasol ar hyd 2003, byddai WEFO wedi bodloni ei holl dargedau dadneilltuo, ac eithrio ar gyfer Amcan 1 EAGGF ac Amcan 2, heb yr angen am yr ymyriadau arbennig a ddisgrifir isod.

### 11 Targedau dadneilltuo ar gyfer 31 Rhagfyr 2003 o gymharu â'r gwariant a gyflawnwyd

| Rhaglen a Chronfa | Targed, £m (gweler nodyn isod) | Cyflawnwyd, £m | Cyflawnwyd fel % o'r targed | Targed wedi'i fodloni? |
|---|---|---|---|---|
| Amcan 1 - ERDF | 172.9 | 184.0 | 106 | ✓ |
| Amcan 1 - ESF | 88.4 | 93.9 | 106 | ✓ |
| Amcan 1 - EAGGF | 20.4 | 23.0 | 113 | ✓ |
| **Cyfanswm ar gyfer Amcan 1** | **281.7** | **300.9** | **107** | |
| Amcan 2 (ERDF) | 24.7 | 24.9 | 101 | ✓ |
| Amcan 3 (ESF) | 21.6 | 25.4 | 118 | ✓ |
| Interreg IIIa (ERDF) | 2.6 | 2.7 | 103 | ✓ |
| Leader+ (EAGGF) | 0.9 | 1.1 | 118 | ✓ |
| Urban II (ERDF) | 0.6 | 0.7 | 117 | ✓ |
| **Cyfanswm** | **332.1** | **355.7** | **107** | |

**SYLWER**

y targed yw'r swm penodedig mewn ewros a drosir i bunnoedd sterling ar £1 = €1.439, y gyfradd a ddefnyddiwyd yn wirioneddol i drosi taliadau punnoedd sterling i ewros at ddibenion hawliad ad-dalu Rhagfyr 2003 i'r Comisiwn Ewropeaidd. Gweithiodd WEFO tuag at darged ychydig uwch a gyfrifwyd trwy ddefnyddio'r gyfradd gynllunio o £1 = €1.40

*Ffynhonnell: WEFO*

5.9 Erbyn canol 2003, daeth yn glir fod hawliadau grantiau ym mwyafrif yr ardaloedd yn rhedeg dipyn yn is na'r lefelau yr oedd eu hangen i fodloni'r targedau, ac y byddai mesurau ychwanegol yn angenrheidiol i osgoi dadneilltuo. Roedd y mesurau a ddefnyddiwyd i fodloni targedau 2002 - megis dwyn gwariant ymlaen trwy wneud taliadau misol yn hytrach na thaliadau chwarterol i noddwyr prosiectau mwy o faint **(gweler y Blwch D)** - yn annhebygol o fod yn ddigon yn 2003. Wynebai awdurdodau rheoli mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig anawsterau tebyg iawn, a gweithiai WEFO yn agos gydag Adrannau eraill y Llywodraeth i ddatblygu mentrau a fyddai'n helpu creu gwariant yn gyflym ac i drafod y cynlluniau hyn gyda'r Comisiwn Ewropeaidd.

5.10 Ceisiodd a chafodd WEFO gytundeb y Comisiwn Ewropeaidd ar ddau ymyriad arbennig arwyddocaol:

a) roedd **ariannu ôl-weithredol** prosiectau a oedd eisoes ar waith neu wedi'u cwblhau yn gymwys am gefnogaeth a gallent fod wedi'u hariannu yn gynharach petaen nhw wedi gwneud cais i WEFO am grant. Gellir ariannu'r "cyfleodd colledig" hyn petai'r arian a ryddheir yn cael ei ailgylchu i weithgareddau adfywio economaidd eraill o fewn ardal y rhaglen. Roedd y pwyslais ar brosiectau a rhaglenni mawr a oedd yn ffitio'n glir â strategaeth y rhaglen berthnasol, ond cafwyd bod rhai prosiectau lleol llai o faint hefyd yn addas **(Ffigur 12)**. O ganlyniad, roedd WEFO yn gallu cynnig grantiau ar gyfer 28 prosiect ôl-weithredol, gan greu gwariant ychwanegol o £33.5 miliwn; a

b) **chynyddu cyfraddau grantiau** - mae cyfartaledd cyfraddau grantiau ym mwyafrif o Fesurau'r rhaglen rhywfaint yn is na'r cyfartaleddau bwriadedig a gytunwyd arnynt gan y Comisiwn Ewropeaidd. Trwy gynyddu'r gyfradd grantiau ar gyfer prosiectau penodol a defnyddio'r newidiadau hyn o edrych yn ôl, roedd WEFO yn gallu talu mwy o'r grant mewn pryd ar gyfer y terfyn amser dadneilltuo tra'n rhyddhau arian cyfatebol o ffynonellau cyhoeddus eraill i gefnogi mwy o brosiectau yn y dyfodol. Yn ychwanegol, newidiodd WEFO broffil ariannu rhai prosiectau, fel bod prosiectau yn gallu defnyddio mwy o Ariannu Strwythurol ym mlynyddoedd cynnar y prosiect o gymharu ag arian cyfatebol y sector cyhoeddus. Bydd hyn yn cael ei gydbwyso ym mlynyddoedd y dyfodol fel mai'r effaith net yw cyflawni'r gyfradd grant gytûn. Effaith net yr ymyriadau hyn oedd creu £9.3 miliwn yn ychwanegol, y daeth £2.6 miliwn ohono o'r addasiadau proffil ariannu y bydd angen eu hadfer mewn blynyddoedd diweddarach.

**D** Gofyn am a thalu hawliadau mor brydlon â phosibl

Mae talu hawliadau grant mewn pryd yn helpu noddwr y prosiect yn ogystal â lleihau'r perygl o ddadneilltuo. Mae WEFO wedi gwella ei amserau prosesu hawliadau (cyfartaledd yr amser rhwng cael a thalu) ar gyfer prosiectau Amcan 1 ERDF o 44 diwrnod yn 2002 i 25 diwrnod yn 2003, a chaiff mwyafrif yr hawliadau bellach eu talu o fewn targed WEFO o 28 diwrnod. Talwyd yr hawliadau hyd yn oed yn gynt yn yr wythnosau cyn Nadolig 2003 i sicrhau bod yr holl hawliadau grant gan noddwyr prosiectau yn cael eu cynnwys yn yr hawliad olaf i'r Comisiwn Ewropeaidd cyn terfyn amser 31 Rhagfyr.

Yn ychwanegol, gofynnodd WEFO i'r holl noddwyr prosiectau a oedd yn arfer cyflwyno hawliadau chwarterol hyd 30 Medi i gyflwyno hawliadau misol ar gyfer Hydref a Thachwedd 2003. Creodd hyn werth deufis ychwanegol o wariant ar gyfer y prosiectau hyn cyn diwedd y flwyddyn, gan sicrhau £14.4 miliwn o nawdd Ewropeaidd. Roedd hyn yn cynnwys nifer o gannoedd o brosiectau a gwaith ychwanegol helaeth ar gyfer noddwyr prosiectau a changen taliadau WEFO

## E Ataliodd WEFO ofynion archwilio arferol fel y gellid talu hawliadau ar gyfer prosiectau ôl weithredol cyn y terfyn amser dadneilltuo

Fel rheol mae WEFO yn gofyn bod prosiectau'n cael eu harchwilio'n flynyddol, ac mae'n dal pump y cant o'r hawliad grant terfynol yn ôl nes bod y prosiect gorffenedig wedi'i archwilio. Cymeradwywyd nifer o brosiectau ôl-weithredol yn hwyr yn y flwyddyn ac nid oedd modd eu harchwilio mewn pryd ar gyfer y terfyn amser dadneilltuo. Gwnaeth WEFO yn gywir i ddal pump y cant o gyfanswm y grant yn ôl, ond roedd hyn yn dal i olygu bod nifer o brosiectau'n cael eu talu'n sylweddol heb unrhyw archwilio. Mewn dau achos, byrhaodd WEFO y prosiect o dair i ddwy flynedd fel y byddai'r dyddiad cwblhau yn disgyn cyn y terfyn amser dadneilltuo, ac felly'n osgoi'r angen am dystysgrifau archwilio interim.

## 12 Mesurau arbennig a ddefnyddir gan WEFO i helpu cyflawni targedau dadneilltuo ar gyfer Amcan 1

| Math o ymyriad | Enghreifftiau | Swm a dalwyd yn 2003 (£000) |
|---|---|---|
| **Prosiectau ôl-weithredol:** Cynlluniau grant ar gyfer mentrau bach a chanolig (SMEs) | Cymorth Rhanbarthol Dewisol (Llywodraeth Cynulliad Cymru) | 9,193 |
| | Grantiau cyfalaf a Chefnogaeth Integredig Twristiaeth ar gyfer SMEs (Bwrdd Croeso Cymru) | 1,776 |
| Cynlluniau cyfalaf mawr | Cynlluniau Ffyrdd (Llywodraeth Cynulliad Cymru) | 9,551 |
| | Safleoedd ac adeiladau ar gyfer SMEs (Awdurdod Datblygu Cymru) | 1,338 |
| Prosiectau adfywio lleol | Gwella'r amgylchedd trefol mewn lleoliadau penodol | 2,643 |
| Prosiectau amgylcheddol a chefn gwlad | Prosiectau cadwraeth, hamdden, treftadaeth a chymuned mewn coedwigoedd sy'n berchen i'r Cynulliad (Comisiwn Coedwigaeth) | 3,279 |
| | Gwarchodfeydd natur (Cyngor Cefn Gwlad Cymru) | 1,120 |
| | Prosiectau llai o faint i adfywio pyllau ac afonydd (Asiantaeth yr Amgylchedd) | 156 |
| Newidiadau i'r gyfradd grantiau: | Cynnydd parhaol yn y gyfradd grantiau (prosiectau cefnogi busnesau y WDA) | 6,665 |
| | Cynnydd dros dro yn y gyfradd grantiau (cynllun grantiau marchnata a phrosesu WDA) | 2,649 |

*Ffynhonnell: WEFO*

5.11 Dangosir effaith y mesurau hyn ar allu WEFO i fodloni'r targedau dadneilltuo yn **Ffigur 13**. Ni fyddai WEFO wedi gallu bodloni tri o'r prif dargedau - ERDF ac EAGGF ar gyfer Amcan 1 ac ERDF ar gyfer Amcan 2 - heb yr ymyriadau arbennig hyn. Fodd bynnag, fel y bu hi, roedd effaith gyfan yr ymyriadau arbennig a'r camau eraill a gymerwyd gan WEFO i greu gwariant yn golygu y cafodd mwyafrif y targedau dadneilltuo eu bodloni'n gyfforddus. Mae hyn yn rhoi WEFO mewn sefyllfa gryfach i fodloni'r targedau ar gyfer 2004, gan fod rhan o'r gwario ychwanegol y mae ei angen i fodloni'r targed eisoes wedi'i chyflawni. Er enghraifft, roedd y gwario ar Amcan 3 yn £3.8 miliwn dros y targed o £21.6 miliwn ar 31 Rhagfyr 2003, sydd bron draean o'r £12 miliwn o wario ychwanegol y mae ei angen i fodloni'r targed gwario o £32.4 miliwn ar gyfer 2004.

5.12 Yn 2003, cyfyngodd WEFO ôl-weithredu i gyrff cyhoeddus, ar y sail y byddai'r broses yn haws ei rheoli i'r graddfeydd amser tyn iawn yr oedd eu hangen ac y byddai'r sefydliadau hyn, gyda'u gweithgareddau eang eu hamrediad a'u cyllidebau mawr, mewn lle gwell i ailgylchu'r arian mewn gweithgareddau adfywio economaidd eraill. Mae WEFO yn bwriadu cyfyngu'r defnydd o arian ôl-weithredol yn y dyfodol fel y gellir ei ddefnyddio'n unig pan fydd ei angen i fodloni targedau gwario ac i fodloni diffygion mewn Mesurau penodol, ond mae'n bwriadu adnabod prosiectau posibl yn gynnar a gwneud yr opsiwn ar gael i bob partneriaeth leol.

## 13 Sut bodlonodd WEFO ei dargedau dadneilltuo yn 2003

| | Amcan 1 | | | | Amc.2 | Amc.3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ERDF £m | ESF £m | EAGGF £m | Cyfanswm £m | £m | £m | £m |
| Targed | 172.864 | 88.396 | 20.409 | 281.669 | 24.652 | 21.626 | 327.947 |
| Cyflawnwyd heb fesurau arbennig | 148.114 | 93.849 | 14.477 | 256.440 | 16.623 | 20.929 | 293.992 |
| Diffyg/(gwarged) | 24.750<br>14% | (5.453)<br>-6% | 5.932<br>29% | 25.229<br>9% | 8.029<br>33% | 0.697<br>3% | 33.955<br>10% |
| Mesurau arbennig: | | | | | | | |
| Hawliadau misol | 11.481 | 0 | 1.492 | 12.973 | 1.401 | 0 | 14.374 |
| Ôl-weithredu | 17.789 | 0 | 4.398 | 22.187 | 6.867 | 4.493 | 33.547 |
| Newidiadau parhaol i gyfraddau grantiau | 6.665 | 0 | 0 | 6.665 | 0 | 0 | 6.665 |
| Newidiadau dros dro i gyfraddau grantiau | 0 | 0 | 2.649 | 2.649 | 0 | 0 | 2.649 |
| **Cyfanswm mesurau arbennig** | **35.935** | **0** | **8.539** | **44.474** | **8.268** | **4.493** | **57.235** |
| **Cyfanswm gwariant a gyflawnwyd** | **184.049** | **93.849** | **23.016** | **300.914** | **24.891** | **25.422** | **351.227** |
| Mesurau arbennig fel cyfran o gyfanswm y gwariant a gyflawnwyd | 20% | 0% | 37% | 15% | 33% | 18% | 16% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad NAO o ddata-bas a chyfrifon rheoli*

5.13 Roedd y prosiectau ôl-weithredol yn destun yr un amodau â phrosiectau eraill a chyflawnodd WEFO ei arfarniad a'i archwiliadau talu safonol, gan gynnwys gofyniad i archwilio prosiectau gorffenedig. Fodd bynnag, roedd yn bosibl i WEFO fyrhau'r broses arfarnu gan fod canlyniadau a chynnydd y prosiectau eisoes yn hysbys. Prif berygl ôl-weithredu yw gwerth ychwanegol: mae pob grant yn rhoi arian Ewrop yn lle gwariant cyhoeddus y DU. Fel gwlad gyfan, mae angen i'r Deyrnas Unedig sicrhau nad yw ôl-weithredu yn peryglu ychwanegedd - sef y gofyniad bod pob aelod-wladwriaeth yn cynnal ei wariant ei hun dros yr ystod eang o weithgareddau sy'n cael eu cynnwys gan raglenni'r Cronfeydd Strwythurol fel bod y Cronfeydd yn ychwanegu at, ac nid yn disodli, gwariant domestig. Fel gyda gweddill y Deyrnas Unedig, mae WEFO yn gofyn i bob noddwr prosiect a ariennir yn ôl-weithredol i ddwyn cynigion ymlaen ar gyfer gwario'r arian a ryddheir trwy ôl-weithredu ar weithgareddau ychwanegol sy'n cydweddu ag amcanion rhaglen y strategaeth. Rhaid i'r cynigion hyn gael eu cymeradwyo gan WEFO a'u gweithredu'n llawn cyn cau'r rhaglen yn 2009. Ar 31 Mawrth 2004, nid oedd pob un o'r sefydliadau a oedd wedi cael arian ôl-weithredol wedi cyflwyno cynigion pendant ar gyfer defnyddio'r arian domestig a oedd wedi'i ryddhau. Bydd angen i WEFO fonitro hyn yn ofalus i sicrhau bod ei brosiectau ôl-weithredol yn ychwanegu'r un gwerth â phrosiectau a gymeradwywyd cyn gweithredu.

## Mae nifer o ffactorau ar hyd cylch y prosiect yn effeithio ar allu WEFO i fodloni'r targedau dadneilltuo

5.14 Mae WEFO yn wynebu'r angen i greu gwariant ac osgoi dadneilltuo ar gyfer pob un o flynyddoedd y rhaglenni cyfredol sy'n weddill. Bydd y targedau - a roddir yn **Ffigur 14** ar gyfer Rhaglen Amcan 1 - yn parhau i fod yn heriol gan y bydd WEFO yn raddol golli mantais y blaenswm cychwynnol o saith y cant.

5.15 Mae cyfraddau gwario yn adlewyrchu effeithlonrwydd pawb sydd ynghlwm wrth gylch y prosiect o ddatblygu prosiectau i'w taliad terfynol gan WEFO. Mae'r ffaith yr oedd angen mesurau arbennig o gwbl yn adlewyrchu oedi mewn creu gwariant o brosiectau presennol. Mae rhai materion sylfaenol yn parhau a fydd yn parhau i effeithio ar allu WEFO i barhau i fodloni targedau dadneilltuo, ac y bydd angen iddo

14 Amcan 1 targedau gwario: symiau y mae'n rhaid i WEFO wario i osgoi dadneilltuo arian

| Dyddiad | Targed (€m) | % o'r gyllideb | |
|---|---|---|---|
| 31 Rhagfyr 2002 | 154 | 8 | dyraniad 2000 llai blaenswm o 7% |
| 31 Rhagfyr 2003 | 432 | 23 | + dyraniad 2001 |
| 31 Rhagfyr 2004 | 705 | 38 | + dyraniad 2002 |
| 31 Rhagfyr 2005 | 972 | 53 | + dyraniad 2003 |
| 31 Rhagfyr 2006 | 1,209 | 66 | + dyraniad 2004 |
| 31 Rhagfyr 2007 | 1,464 | 79 | + dyraniad 2005 |
| 30 Mehefin 2009 | 1,845 | 100 | + dyraniad 2006 + adfer blaenswm o 7% |

*Ffynhonnell: WEFO*

eu rheoli'n ofalus felly. Pa mor gyflym y mae WEFO yn arfarnu prosiectau - a ystyrir ym mharagraffau 3.25 - 3.31 yn un ffactor o'r fath, oherwydd, ym mwyafrif yr achosion, ni all prosiect ddechrau gwario nes iddo gael ei arfarnu a'i gymeradwyo gan WEFO. Mae ffactorau eraill - hawliadau hwyr gan noddwyr prosiectau, prosiectau yn gwario llai na'r hyn a ddisgwyliwyd ac ar lefel cymeradwyo prosiectau - yn cael eu hystyried yn fanylach isod.

## Gwnaeth WEFO ymdrech ar y cyd i olrhain hawliadau dyledus cyn y terfyn amser dadneilltuo ond mae hawliadau hwyr yn parhau'n broblem

5.16 Fel rheol mae angen i noddwyr prosiectau gyflwyno hawliadau bob tri mis, o fewn 30 diwrnod o ddiwedd y cyfnod y mae'r hawliad yn berthnasol iddo. Caiff mwyafrif y noddwyr eu talu mewn ôl-ddyledion, er bod gan sefydliadau di-elw yn y sectorau gwirfoddol a phreifat yr opsiwn o gael taliadau ymlaen llaw (nid yw'r blaensymiau hyn yn cyfrif fel gwariant cymwys).

5.17 Yn ein hadroddiad yn 2002, cawsom fod llawer o noddwyr prosiectau yn anfon hawliadau yn hwyr a bod hyn yn cael effaith sylweddol ar gyfradd wario WEFO, gyda goblygiadau andwyol ar ei allu i fodloni targedau dadneilltuo. Yn ogystal, adroddodd gwerthusiadau canol-tymor Amcan 1 fod hawliadau hwyr yn broblem fawr, ac nad oedd WEFO bob amser yn eu holrhain yn drylwyr, yn rhannol yn sgil prinder staff a throsiant staff uchel. Yr un pryd, cwynodd noddwyr prosiectau nad oedd hi bob amser yn hawdd siarad â'r person iawn yng nghangen taliadau WEFO a bod eu hawliadau gorffenedig wedi ysgogi llawer o gwestiynau annealladwy weithiau cyn iddynt gael eu talu.

5.18 Roedd hawliadau hwyr yn parhau'n broblem sylweddol ar hyd 2003, gyda llawer o noddwyr yn eu cyflwyno nifer o fisoedd ar ôl y dyddiad disgwyliedig ac mewn rhai achosion dros flwyddyn yn hwyr. Mae WEFO yn olrhain hawliadau hwyr yn systematig - ceir gweithdrefn wedi'i diffinio'n glir yn cynnwys atgoffa dros y ffôn neu'n ysgrifenedig, gan arwain at lythyr terfynol at brif weithredwr y sefydliad yn bygwth tynnu arian yn ôl os na cheir hawliad (er nad yw'r bygythiad hwn eto wedi'i gyflawni). Mae WEFO hefyd yn cyfarfod â noddwyr prosiect ac yn cychwyn cyswllt lefel uchel os oes problemau cyson.

5.19 Nid yw WEFO yn cadw nac yn dadansoddi gwybodaeth ar lefel gyfan ar hawliadau hwyr a'r camau gweithredu a gymerir i'w holrhain, felly nid yw'n bosibl nodi'r niferoedd ynghlwm, eu gwerth tebygol neu gyfartaledd yr oedi. Fel enghraifft, fodd bynnag, nid oedd 70 o'r 450 o hawliadau Amcan 1 ERDF yr oedd disgwyl eu dychwelyd ym mis Gorffennaf 2003 wedi cyrraedd erbyn diwedd mis Awst, ac roedd 50 yn parhau i fod yn hwyr ddiwedd mis Medi. Yn ychwanegol, nid oedd 18 o brosiectau wedi cyflwyno hawliadau ar gyfer y cyfnod hyd ddiwedd Mawrth erbyn 31 Awst. Roedd WEFO wedi llwyddo i wneud gwelliant sylweddol erbyn diwedd Tachwedd o ganlyniad i ymdrech ddwys i olrhain hawliadau hwyr mewn pryd ar gyfer y terfyn amser dadneilltuo. O ganlyniad, ni chafodd hawliadau hwyr effaith sylweddol ar fodloni targedau gwario 2003.

5.20 Rhoddodd WEFO ar ddeall i ni mai'r troseddwyr gwaethaf oedd cyrff eraill y sector cyhoeddus, yn enwedig Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Llywodraeth ac awdurdodau lleol. At ei gilydd, y sectorau preifat a gwirfoddol oedd â'r record gorau. Mae'n ymddangos mai'r prif reswm am y

gwahaniaeth hyn yw llif arian; gall asiantaethau cyhoeddus dynnu eu harian craidd i lawr pan fydd ei angen arnynt ac maent yn tueddu i ddefnyddio hyn, yn hytrach na'r Cronfeydd Strwythurol, i gyllido eu prosiectau. Mewn cyferbyniad, mae gan gwmnïau preifat - yn enwedig y rhai nad ydynt yn cael blaensymiau - gymhelliant cryfach i hawlio'n gyflym. Yn ogystal, yn y sector cyhoeddus y mae mwyafrif y prosiectau mwyaf ac mae hawlio ar gyfer y rhain yn cymryd mwy o amser ac mae'n fwy cymhleth.

5.21 Yn fwy cyffredinol, mae cymhlethdod y ffurflen hawlio yn atal pobl rhag ei chwblhau yn brydlon. Mae'r wybodaeth a ofynnir amdani ar wariant yn eithaf uniongyrchol, ond mae'n rhaid i noddwyr prosiectau adrodd ar allbynnau mewn peth manylder (gan gynnwys dadansoddiad yn ôl lleoliad a sector economaidd ar gyfer rhai dangosyddion) ac i ailasesu eu rhagolygon chwarterol o wariant ac allbynnau. Mae hyn yn arwain at ffurflen hawlio sydd ar gyfartaledd yn 16 tudalen o hyd, ac mae'n gallu bod yn annymunol i noddwyr hyd yn oed os nad oes angen llenwi llawer o'r blychau. Mae WEFO wedi ceisio gwneud y broses yn haws i ymgeiswyr trwy anfon ffurflenni hawlio sydd eisoes yn cynnwys gwybodaeth am dargedau a ffigurau a adroddwyd yn flaenorol, ond ni fydd yn lleihau'r swm o wybodaeth y mae ei hangen gan noddwyr gan ei fod yn ystyried bod angen y wybodaeth er mwyn bodloni gofynion yr Undeb Ewropeaidd, darparu data monitro i lefel y manylder y mae ei hangen ar y Pwyllgorau a'r Partneriaethau Monitro Rhaglenni, a rheoli ei arian ei hun. Mae'r mater hwn yn debygol o aros nes bod WEFO yn datblygu system hawlio electronig sy'n symleiddio bwydo data ac yn ei gwneud yn bosibl cyflwyno hawliadau dros y Rhyngrwyd (paragraffau 2.11- 2.12).

## Ceir problem barhaus o brosiectau'n gwario llai na'r hyn a ragwelwyd ganddynt

5.22 Mae WEFO yn gofyn i bob noddwr prosiect ddarparu rhagolwg gwario pan fydd eu prosiect yn cael ei gymeradwyo, ac i ddiweddaru hwn bob tro y caiff hawliad ei gyflwyno. Mae WEFO yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddarogan ei daliadau ei hun. Yn anffodus, mae profiad wedi dangos bod y rhagolygon hyn - y proffil gwario gwreiddiol a'r diweddariadau dilynol - yn anghywir iawn. Er enghraifft, daeth hawliadau Amcan 1 a gafwyd ym mis Gorffennaf 2003 i gyfartaledd o 40 y cant yn is na'r proffil, ond rhagwelwyd gwelliant o 10 y cant yn is na'r proffil erbyn diwedd mis Medi.

5.23 Mae'r sefyllfa hon yn adlewyrchu cyfuniad o oedi prosiect a thanwario cyfanswm cyllideb y prosiect. Mae WEFO wedi cynnal dadansoddiad rhagarweiniol sy'n dynodi bod prosiectau wedi'u cwblhau yn tanwario gan gyfartaledd o 4 y cant ar gyfer prosiectau nad ydynt yn ESF, 9 y cant ar gyfer prosiectau ESF Amcan 1 a 19 y cant ar gyfer prosiectau Amcan 3; at ei gilydd mae gwario ar gyfer ESF 20-25 y cant yn is na'r proffil tra bo prosiectau ar waith. Mae WEFO yn gofyn i noddwyr prosiectau esbonio unrhyw amrywiad sylweddol o'r gwariant arfaethedig ac wedi ceisio datblygu model rhagweld sylfaenol; fodd bynnag, mae wedi profi'n anodd darogan gwariant ac mae WEFO yn bwriadu ymgymryd â dadansoddiad pellach yn seiliedig ar ddata mwy helaeth. Serch hynny, mae WEFO yn ystyried bod ganddo ddealltwriaeth dda o'r rhesymau ar gyfer tanwario, yn enwedig ar gyfer prosiectau mwy o faint. Adolygwyd y gwerthusiadau canol-tymor gennym (a astudiodd yn fanwl sampl o brosiectau) a thrafod y mater gyda staff WEFO. Mae'n ymddangos mai'r rhesymau cyffredin dros danwario yw:

- paratoi rhagolygon yn seiliedig ar y dyddiad yr achoswyd y gwariant, yn hytrach nag y talwyd amdano (rhaid i hawliadau fod yn seiliedig ar daliadau);
- amcangyfrif yn rhy isel yr amser a gymerir i sefydlu prosiect, yn enwedig i recriwtio staff;
- amcangyfrif yn ormodol gostau'r prosiect ar y cais, yn aml i ddarparu "clustog" i'r noddwr yn erbyn costau annisgwyl (nid yw hapddigwyddiadau yn gymwys o dan reolau WEFO ei hun ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol); a
- gall noddwyr prosiectau "or-addo" yn y cam gwneud cais, yn enwedig o ran gweithgareddau mwy arloesol, datblygiadol.

5.24 Gan nad yw WEFO yn gyfrifol am weithredu'r prosiectau sy'n cyflwyno'r rhaglen ar y cyd - dyma waith y noddwyr prosiectau unigol - ychydig y mae'n gallu ei wneud i gyflymu cynnydd y prosiectau yn uniongyrchol. Bydd y gwerthusiad cyfraddau gwario sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd a'r rhaglen fwriadedig o ymweliadau monitro yn helpu i adeiladu ar ddealltwriaeth WEFO ynghylch pam y mae prosiectau yn tanwario ac i ymateb yn gyflym os rhagwelir problemau mawr.

15 Lefelau ymrwymo ar gyfer y prif raglenni yn ôl Cronfa, yn Rhagfyr 2003

| Rhaglen | Dyraniad dangosol £m | Grantiau a gymeradwywyd £m | % o'r dyraniad dangosol a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|
| Amcan 1 - ERDF | 459.9 | 400.9 | 87 |
| Amcan 1 - ESF | 233.3 | 211.7 | 91 |
| Amcan 1 - EAGGF | 53.7 | 62.1 | 116 |
| Amcan 1 - FIFG | 6.3 | 6.7 | 108 |
| Amcan 2 | 58.6 | 45.4 | 77 |
| Amcan 3 | 54.6 | 41.6 | 76 |
| **Cyfanswm** | **866.4** | **768.4** | **89** |

*Ffynhonnell: adroddiad monitro ar gyfer Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth y Cynulliad Cenedlaethol, Ionawr 2004*

## Mae cymeradwyo prosiectau yn gyffredinol yn rhedeg i gynllun, ond ceir diffygion mewn rhai meysydd

5.25 Yn y pen draw, mae llwyddiant y rhaglenni'n dibynnu ar nifer, gwerth ac ansawdd y prosiectau sy'n cael eu cymeradwyo ar gyfer grant. Mae hyn yn dibynnu ar gyflenwad da o brosiectau yn y cyfnod datblygu. Mae WEFO yn paratoi Cynllun Busnes Monitro Blynyddol ar ddechrau pob blwyddyn galendr sy'n rhagweld gwerth cymeradwyo grantiau ar gyfer y flwyddyn nesaf, yn seiliedig ar waith datblygu hysbys ("prosiectau ar y gweill"). Caiff hyn ei gymharu â dyraniad dangosol ar gyfer pob Mesur, ar sail y dyraniadau ariannol y cytunir arnynt â'r Comisiwn Ewropeaidd ar ddechrau'r rhaglen; mae'r dyraniadau cymeradwyo grantiau hyn yn bwysig am eu bod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r targedau dadneilltuo (mae'r olaf yn seiliedig ar wariant dilynol). Mae **Ffigur 15** yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd 2003.

5.26 Ar y cyfan, ceir lefel weddol dda o ymroddiad ym mwyafrif y Mesurau a'r rhaglenni. Erbyn diwedd 2003, roedd WEFO wedi cymeradwyo grantiau hyd at gyfanswm o £768 miliwn, gan gynrychioli rhyw 51 y cant o'r cyfanswm ar gyfer y rhaglenni ac 89 y cant o'r dyraniad dangosol ar gyfer y cyfnod. Bu'r cynnydd yn arbennig o dda mewn hyfforddiant a Mesurau cyllid busnes, yn bennaf oherwydd bod cynlluniau hyfforddiant a grantiau wedi'u sefydlu'n dda sydd wedi'u cydariannu gan y Cronfeydd Strwythurol. Ceir hefyd y Mesurau sydd fwyaf tebygol o fod wedi cael arian ôl-weithredol fel rhan o'r ymdrech i osgoi dadneilltuo yn 2003; mae perfformiad yn erbyn y dyraniad dangosol yn disgyn i 85 y cant os caiff y prosiectau ôl-weithredol eu hepgor. Bu'r cynnydd yn arafach na'r disgwyl mewn nifer o Fesurau a Rhaglenni eraill, fel a amlinellir yn y Blwch F.

## Mae gan WEFO strategaeth ariannu i helpu sicrhau bod y Cronfeydd Strwythurol yn cael eu gwario'n llawn erbyn diwedd y cyfnod rhaglennu

5.27 Mae'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad gydbwyso ystod o ffactorau wrth fodloni'r targedau gwario ar gyfer y rhaglenni Ewropeaidd. Mae angen iddo sicrhau bod digon o arian yn cael ei ymrwymo i sicrhau bod yr arian ar gael yn cael ei wario'n llawn, gan ystyried ansicrwydd ynghylch y gyfradd gyfnewid a llithriant a thanwario'r prosiectau. Fodd bynnag, os yw gwario yn rhagori ar ddisgwyliadau neu os yw'r ewro yn cryfhau, byddai'n rhaid i unrhyw ddiffyg mewn arian Ewropeaidd gael ei ddiwallu'n bennaf gan gyllideb y Cynulliad.

## F Ardaloedd lle y bu cymeradwyaeth prosiect yn arafach nag a ragwelwyd

**Amcan 2**

Cymeradwywyd y rhaglen yn hwyr gan y Comisiwn Ewropeaidd, ond roedd disgwyl iddo ddal i fyny yn llawn o ran gwariant erbyn diwedd 2003. Mae'r ystod gyfyngedig o weithgareddau, a'r ardaloedd daearyddol cyfyngedig sy'n gymwys am gefnogaeth, ynghyd â chyfyngiadau cymorth y wladwriaeth, wedi'i gwneud yn anos dwyn prosiectau hyfyw ymlaen. Ni chymeradwywyd cronfa fuddsoddi Cyllid Cymru ar gyfer ardal Amcan 2 nes diwedd 2003 yn sgil trafodaethau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd a chyllidwyr y sector preifat; gwnaeth hyn hefyd atal cyfraddau gwario ac ymrwymo. O ganlyniad, mae'r rhaglen wedi brwydro i ymrwymo cronfeydd er bod nifer o brosiectau mawr bellach yn eu lle. Mae cyfraddau ymrwymo wedi parhau'n isel ar gyfer Mesurau yn seiliedig ar brosiectau lleol llai o faint, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â chynhwysiad cymdeithasol ac adfywiad economaidd cymunedol. Fel gydag Amcan 3, mae'r partneriaethau lleol - y mae pob un yn derbyn ei ddyraniad ei hun o gronfeydd - yn gwahaniaethu'n nodedig yn eu cyfraddau ymrwymiad.

**Mesurau Isadeiledd yn Amcan 1**

Cafwyd problemau ar ddechrau'r rhaglenni wrth ddatblygu strategaethau ar gyfer y defnydd o'r arian cyfyngedig ar gael ar gyfer isadeiledd band-eang, prosiectau trafnidiaeth, safleoedd ac adeiladau a phrosiectau ynni glân. Mewn rhai achosion, roedd hwn yn gwestiwn o flaenoriaethu rhwng nifer fawr o geisiadau posibl a fyddai wedi gordanysgrifio'r Mesur yn sylweddol. Dyma a ddigwyddodd gyda safleoedd ac adeiladau ar gyfer SMEs, ac mae'r materion bellach wedi'u datrys gyda mwyafrif o'r arian wedi'u hymrwymo. Mae strategaeth glir hefyd wedi'i datblygu i flaenoriaethu prosiectau trafnidiaeth, ac mae nifer o brosiectau yn cael eu harfarnu ar hyn o bryd. Cafodd y cynnydd ar seilwaith band-eang ei oedi tra datblygai Llywodraeth y Cynulliad strategaeth TGCh. Mae hon bellach yn ei lle, ond mae'r cynnydd mewn datblygu a chymeradwyo prosiectau penodol wedi bod yn arafach na'r disgwyl.

Gwnaethpwyd llai o gynnydd gyda'r Mesurau eraill, lle roedd mwy o faterion sylfaenol ynghlwm. Mae materion rheoliadol wedi atal datblygiad prosiectau isadeiledd amgylcheddol, a oedd wedi'u cyfyngu i "safleoedd amddifad" - lle nad oes modd adnabod perchnogaeth ac atebolrwydd ar gyfer llygredd - ac roedd hyn yn cyfyngu'n fawr ar y diddordeb gan ymgeiswyr posibl. Mae'r cyfyngiad hwn bellach wedi'i dynnu ymaith, a dylai hyn alluogi gwneud cynnydd cynt. Ar gyfer prosiectau ynni glân, mae'r casgliad o brosiectau potensial wedi'i leihau gan fod ffermydd gwynt bellach yn cael eu hystyried yn hyfyw yn fasnachol ynddynt eu hunain, ac felly nid yw'n briodol eu hariannu gydag arian cyhoeddus oni bai bod diddordeb cymunedol clir trwy berchnogaeth leol. Mae arweiniad bellach yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod prosiectau'n dod ymlaen. Bydd angen gwneud cynnydd yn gyflym os yw'r prosiectau cyfalaf hyn sy'n cymryd amser yn mynd i gael eu cwblhau mewn da bryd ar gyfer cau'r rhaglenni yn 2009.

**Adfywiad economaidd cymunedol**

Mae ystod eang o ffactorau wedi'u datgan fel rhesymau ar gyfer y cynnydd araf yn y maes hwn, lle mae llai na 50 y cant o'r ymrwymiadau bwriadedig wedi'u gwneud. Mae'r Mesurau hyn yn dibynnu ar ymglymiad cymunedol llawr gwlad wrth ddatblygu prosiectau, ac mae gallu yn gyfyng, tra bo arian a neilltuir ar gyfer meithrin gallu - y mae angen iddo ddigwydd cyn y gellir gwneud buddsoddiad sylweddol - sydd wedi'i wario dipyn yn arafach na'r disgwyl. Yn ogystal, cyfeiriodd y gwerthusiad canol-tymor ddiffyg integreiddio gyda'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf fel mater pwysig - nid yw'r ardaloedd a ariennir gan Amcan 1 yn cyd fynd â'r ardaloedd difreintiedig sy'n cael eu cynnwys gan Gymunedau'n Gyntaf, ac mae'n well gan lawer o sefydliadau cymunedol chwilio am arian trwy Gymunedau'n Gyntaf gan ei fod yn symlach ac yn gynt. Fel a ddisgrifir ym mharagraff 3.8, mae WEFO bellach yn dwyn ymlaen argymhellion adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac mae'n ystyried ffyrdd o integreiddio'r Cronfeydd Strwythurol gyda Chymunedau'n Gyntaf yn agosach.

**Materion rheoliadol a chydymffurfio**

Yn fwy cyffredinol, cafwyd problem gyda rhai prosiectau mawr wrth sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth a rheolaethau ariannol perthnasol y DU ac Ewrop. Cymerodd prosiectau Cyllid Cymru dros ddwy flynedd i gael cymeradwyaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae materion cymorth y wladwriaeth wedi oedi cymeradwyaeth nifer o brosiectau sector preifat mawr, tra bo rhai rhaglenni hyfforddiant mawr a gynhelir gan ELWa wedi'u hoedi gan amheuon ynghylch cyfreithlondeb y trefniadau ariannu ar gyfer darparwyr hyfforddiant. Mae'r materion hyn wedi'u datrys gan mwyaf, er bod defnyddio rheoliadau cymhorthion y wladwriaeth i'r prosiectau mwy arloesol nad ydynt yn gyhoeddus yn parhau i fod yn heriol.

**Prosiectau ESF**

Mae wedi bod yn hawdd i WEFO ymrwymo arian ar gyfer rhaglenni hyfforddiant safonol megis Skill-Build a Dysgu Seiliedig ar Waith i Oedolion, sydd wedi'u sefydlu'n dda. Cafwyd mwy o anhawster wrth adnabod prosiectau ar gyfer ailintegreiddio'r rhai sy'n ddi-waith hirdymor i mewn i'r farchnad lafur a datblygu cyfleusterau gofal plant i helpu codi cyfraddau cyfranogiad menywod yn y gweithlu. Mae cymorth sydd wedi'i dargedu'n benodol at y grwpiau hyn heb ei ddatblygu cystal â'r hyfforddiant seiliedig yn y coleg a seiliedig ar waith, ac mae WEFO bellach yn gweithio gyda'r isadrannau perthnasol yn Llywodraeth y Cynulliad i gomisiynu prosiectau mawr, Cymru gyfan yn benodol ar gyfer y Mesurau hyn.

5.28 Ar gyfer Amcan 1, mae WEFO yn bwriadu mabwysiadu'r strategaeth ganlynol i sicrhau bod y Cronfeydd yn cael eu gwario'n llawn:

- **blaen-ymrwymiad:** cymeradwyo grantiau ar gyfradd gynt nag a gynlluniwyd. Mae WEFO yn gosod targed ar gyfer 2004 i ymrwymo 25 y cant o ddyraniad dangosol 2005, yn ychwanegol at y dyraniad dangosol 2000-2004 cronnol, er mwyn dwyn ymlaen gwario'r dyfodol a lleihau'r perygl y byddai llithriant ar brosiectau allweddol yn peryglu targedau gwario;
- **rhaglennu gormodol:** cymeradwyo grantiau i gyfanswm gwerth sy'n fwy na'r arian sydd ar gael, ar y sail y bydd y gwahaniaeth yn cael ei wrthbwyso gan brosiectau'n tanwario;
- **cydariannu:** defnyddio'r Cronfeydd Strwythurol i ehangu neu greu rhaglenni mawr y Cynulliad neu asiantaethau cyhoeddus eraill a fydd yn cyflwyno amcanion strategol penodol, yn enwedig lle ceir bylchau mewn gwario neu gyflwyno. Mae WEFO yn disgwyl i'r ymagwedd hon - sy'n cael ei hadnabod fel cyflwyno strategol - i wneud rheolaeth y rhaglen yn haws trwy gyfyngu ar nifer y prosiectau, gan dargedu adnoddau lle mae eu hangen fwyaf a'i gwneud yn haws gostwng y ddarpariaeth wrth i'r gwario ddirywio gyda diwedd y cylch presennol o raglenni; ac
- **ariannu ôl-weithredol y prosiectau a chyfraddau grantiau amrywiol:** defnyddir yr opsiynau hyn os bydd angen i fodloni unrhyw ddiffygion yn weddill sy'n codi o danwario, llithriant neu amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid.

5.29 Ar y cyfan, mae WEFO yn bwriadu gwario'r Cronfeydd Strwythurol yn llawn erbyn Mehefin 2008, rhyw chwe mis o flaen amser. Bydd hyn yn gadael blwyddyn i gau'r rhaglenni, sy'n cynnwys gwaith monitro ac archwilio helaeth, a oedd yn waith brys ac anodd ar gyfer rhaglenni 1994-99 a gaewyd yn 2003. Mae WEFO eisoes dipyn yn fwy parod ar gyfer cau'r rhaglenni nag ydoedd o dan y rhaglenni blaenorol gan ei fod wedi sefydlu gwell rheolaeth ar systemau gwybodaeth reoli. Ymddengys strategaeth WEFO ar gyfer defnyddio'r Cronfeydd Strwythurol yn llawn yn briodol ond bydd angen monitro agos a chydlynu i sicrhau bod cyllidebau a rhaglenni'r Cynulliad yn barod i gyflwyno'r prosiectau iawn ar yr amser iawn.

## PWYNTIAU ALLWEDDOL YNGHYLCH DEFNYDDIO'R HOLL ARIAN SYDD AR GAEL

- Mae WEFO wedi cyflawni'r targedau angenrheidiol i fod yn gymwys ar gyfer y gronfa berfformiad, ac felly'n ennill £65 miliwn yn ychwanegol o Gronfeydd Strwythurol.
- Mae WEFO wedi bodloni ei holl dargedau dadneilltuo ar gyfer gwario hyd ddiwedd 2003 - targedau a wnaed yn fwy heriol gan symudiadau'r gyfradd gyfnewid yn gynharach yn y flwyddyn.
- Gwnaeth WEFO fonitro'r sefyllfa wario yn ofalus a chymryd mesurau priodol i fwyhau gwariant. Roedd hyn yn cynnwys tipyn o waith caled ar ran y noddwyr prosiectau a staff WEFO wrth baratoi a phrosesu hawliadau'n fisol yn lle chwarterol.
- Roedd angen i WEFO hefyd ddefnyddio mesurau arbennig, megis ariannu'n ôl-weithredol brosiectau presennol a lleihau cyfran yr arian cyfatebol sydd ei angen, i fodloni ei dargedau.
- Bydd targedau dadneilltuo yn parhau i fod yn gymwys ar ddiwedd pob blwyddyn galendr ar gyfer gweddill y rhaglenni. Mae nifer o ffactorau yn parhau yn y trefniadau presennol y mae angen i WEFO eu rheoli'n ofalus i leihau'r perygl bod arian yn cael ei golli ar ran Cymru: mae'r rhain yn cynnwys y problemau o hawliadau ariannu hwyr gan noddwyr prosiectau, prosiectau sy'n gwario'n arafach nag a ddisgwyliwyd. Ac mewn rhai meysydd o'r rhaglenni, mae prosiectau da wedi bod yn gymharol araf i ddod i'r amlwg.
- Mae gan WEFO strategaeth briodol i helpu sicrhau bod yr holl arian sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio ac i sicrhau bod cau'r rhaglenni yn cael ei reoli'n dda. Yn ogystal â rheolaeth ariannol fedrus, bydd angen i WEFO a'i bartneriaid fod yn rhagweithiol wrth dargedu bylchau yn y rhaglenni fel bod pob Mesur yn cael ei wario'n llawn.

Hyd nawr, mae WEFO wedi gallu bodloni'r targedau gwario trwy ganolbwyntio adnoddau lle mae'n hawsaf gwario'r arian, er enghraifft trwy gydariannu cynlluniau grant ffyrdd neu fusnes mawr. Bydd y cyfleoedd hyn yn lleihau wrth i'r rhaglen barhau ac mae bylchau yn parhau yn yr ardaloedd mwyaf anodd. Mae WEFO yn ymwybodol o'r her, a'r allwedd i lwyddiant fydd y cysyniad o gyflwyno strategol yn ogystal â rheoli risg ariannol yn fedrus.

# Atodiad 1

## Diweddariad ar argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru

| | Argymhellodd y Pwyllgor Archwilio[3]: | Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru | Y sefyllfa bresennol a nodir yn yr adroddiad |
|---|---|---|---|
| i | Ar gyfer rhaglenni'r dyfodol, fod y trefniadau rheoli sylfaenol yn cael eu sefydlu ymhell cyn lansiad y rhaglen, a bod arweiniad cynhwysfawr ar gyfer partneriaethau a cheisiadau yn cael eu cyhoeddi mewn da bryd; | Rydym eisoes yn gwneud cyfraniad pwysig at ddeialog ar rôl y Cronfeydd Strwythurol yn y dyfodol y tu hwnt i 2006. Pan fyddwn yn gwybod pa systemau cefnogaeth fydd ar gael i Gymru pan fydd y rhaglenni presennol yn dod i ben, gallwn benderfynu pa drefniadau rheoli y mae angen yn eu lle i wneud y gorau glas ohonynt. Bydd hyn yn cael ei lywio gan effeithiolrwydd rhaglenni'r gorffenol a'r presennol a bydd y trefniadau rheoli cysylltiedig a'r gwersi a ddysgwyd gan y rheiny yn cael eu defnyddio. | Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu datblygu trefniadau rheoli ar sail penderfyniadau'r dyfodol ar lefel Ewropeaidd ar swm a natur yr arian, fel a nodir mewn rheoliadau sydd eto i'w datblygu. Yn ogystal, mae'n bwriadu ymgorffori'r prif wersi a amlygwyd gan y gwerthusiadau a'r Adolygiadau Canol-Tymor. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn credu y bydd tynnu statws asiantaeth WEFO ymaith - mae bellach yn gwbl integredig o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru - yn hwyluso gweithio agosach o fewn yr Adran Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth. |
| ii | Bod WEFO yn monitro'n drylwyr dosbarthiad daearyddol gwariant a buddion y rhaglen, er mwyn adnabod meysydd pryder cyffredin, a chymryd rôl ragweithiol wrth gynorthwyo partneriaethau i ddatblygu atebion; | Bydd WEFO yn monitro gwariant yn ogystal ag allbynnau yn ôl ardal bartneriaeth leol, er bydd yr olaf yn destun anghysonderau posibl yn y ffordd y caiff gwariant ei rannu gan ymgeiswyr prosiectau. Yr allbynnau yn hytrach na'r mewnbynnau sydd o bwys, h.y. y ffordd y caiff y grant ei fuddsoddi a'r effaith y byddant yn ei chael ar yr ardal sy'n bwysig. Mae WEFO eisoes yn gweithio gyda ac wedi cynghori partneriaethau lleol a rhanbarthol wrth iddynt ddatblygu prosiectau. Mae cyfres o weithdai hefyd yn cael ei threfnu gan WEFO a'r partneriaethau strategaeth i ledaenu arfer gorau a syniadau da. | Mae WEFO bellach yn darparu adroddiadau manwl i bartneriaethau a grwpiau cynghori thematig ar yr allbynnau a ragwelwyd ac a gyflawnwyd gan y prosietcau sy'n disgyn o fewn eu cylch gorchwyl. Caiff yr adroddiadau hyn eu cyhoeddi bob tri mis ac maent yn cynorthwyo partneriaethau i fonitro eu rhaglenni (paragraff 2.8). Mae'r wybodaeth hon bellach yn cael ei mireinio i gynnwys data ar lefel y Blaenoriaethau ym mhob rhaglen. Mae'r partneriaethau a'r grwpiau cynghori thematig yn gyfrifol am ddefnyddio'r data a anfonir wrth fformiwleiddio eu strategaethau; nid yw WEFO eto wedi ymgymryd ag unrhyw waith mapio manwl i adnabod ardaloedd lle mae diffygion yn bodoli. |
| iii | Bod WEFO a'r Cynulliad yn cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau bod gan WEFO adnoddau digonol i gyflawni holl ystod ei waith; | Bydd WEFO yn parhau i gael adnoddau i gyflawni ei waith yn effeithiol a bydd swyddi gwag yn cael eu llenwi cyn gynted ag sy'n bosibl. | Mae WEFO yn destun gweithdrefnau personél safonol y Cynulliad. Mae'r rhain wedi'u symleiddio i ryw raddau ac mae mwy o staff bellach yn cael eu recriwtio'n uniongyrchol o ffynonellau allanol, ond mae'r broses yn parhau'n un sy'n cymryd amser. Mae'r gyfradd swyddi gwag wedi sefydlogi ar 6-8 y cant o'r cyflenwad ar gyfer meysydd cwbl weithredol y busnes, ac ni chafwyd unrhyw effaith andwyol sylweddol ar allu WEFO i gyflwyno'i amcanion craidd (paragraffau 2.3-2.4) |

3 *Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: mwyhau'r buddion i Gymru, Adroddiad 08-02 a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 5 Rhagfyr 2002.*

| | Argymhellodd y Pwyllgor Archwilio[3]: | Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru | Y sefyllfa bresennol a nodir yn yr adroddiad |
|---|---|---|---|
| iv | Bod WEFO yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y camau sy'n weddill o'r gwelliannau TG angenrheidiol yn cael eu cwblhau ar amser ac yn ei annog i wneud popeth i gadw'r costau o gyflawni hyn cyn lleied â phosibl, gan fod systemau cyfrifiadurol newydd yn ddrwg-enwog am oediadau amser a chodi costau; | Cafodd y prosiect i ehangu ymarferoldeb system TG WEFO ei gwblhau fel a ragwelwyd ym mis Medi 2002 o fewn y gyllideb. Cytunwn â'r Pwyllgor y dylai gwelliannau pellach gael eu cyflawni ar y gost isaf. | Mae'r estyniadau bwriadedig yn sylweddol gyflawn ac yn gweithredu'n effeithiol. Cwblhawyd y cam cyntaf bedwar mis yn ddiweddarach na'r dyddiad targed gwreiddiol ac ychydig dros y gyllideb, ond mae bellach yn darparu gwybodaeth reoli lawer gwell sy'n bodloni anghenion WEFO gan mwyaf. Mae'r system newydd wedi awtomeiddio tipyn o'r broses trafod hawliadau grantiau, gan ei wneud yn fwy effeithlon. Mae lle ar gyfer gwelliannau pellach ond mae'r rhain yn dibynnu'n bennaf ar system newydd, wedi'i theilwrio y bwriedir ei chyflwyno mewn pryd ar gyfer y cylch rhaglennu newydd yn 2007 (paragraffau 2.8 - 2.12). |
| v | Bod WEFO yn ceisio bod mor rhagweithiol â phosibl wrth fonitro argaeledd a'r defnydd o arian cyfatebol fel y gall problemau - ac atebion posibl - gael eu hadnabod gan y rhai sydd â'r dylanwad angenrheidiol i gyflwyno gwelliannau; | Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau'n ymroddedig i sicrhau "na fydd unrhyw brosiect da yn methu yn sgil diffyg arian cyfatebol neu sicrwydd arolwg gwariant cyhoeddus." Caiff cyllidebau'r Cynulliad a ddyrennir yn benodol ar gyfer arian cyfatebol eu defnyddio lle bo angen, ar ôl i ffynonellau cyhoeddus a phreifat eraill gael eu hystyried. Cafwyd cyfraniad sylweddol gan y sectorau cyhoeddus a phreifat ac yn ei dro, mae hyn wedi effeithio ar y galw am arian cyfatebol o'r llinellau cyllideb hyn. Hyd yn hyn, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw brosiect cymwys sydd wedi'i wrthod neu wedi methu oherwydd diffyg arian cyfatebol.<br><br>Yn ychwanegol, mae WEFO wedi cyhoeddi cyfres o daflenni ffeithiau sy'n rhoi gwybodaeth am reoli a gweithredu'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru. Mae'r daflen ffeithiau ar arian cyfatebol yn esbonio'r gwahanol fathau a ffynonellau o arian cyfatebol a sut y gellir cael mynediad atynt gan y sectorau gwirfoddol, cymunedol ac eraill. | Mae WEFO yn adrodd yn rheolaidd ar gyfraniad cyffredinol arian cyfatebol tuag at gyfanswm cost pob rhaglen, ac yn cynorthwyo eraill i ymgymryd ag adolygiadau manylach wrth i'r angen godi. Ni wnaeth un o'r gwerthusiadau canol-tymor adrodd unrhyw broblemau sylweddol yn y swm o arian cyfatebol oedd ar gael (paragraff 3.5). Mae WEFO bellach yn darparu gwybodaeth helaeth ar ffynonellau arian cyfatebol ar ei wefan.<br><br>Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal dwy gyllideb yn benodol fel ffynonellau arian cyfatebol ar gyfer cyrff allanol - Llwybrau at Ffyniant a'r Gronfa Adfywio Lleol. Mae'r galw am y cronfeydd hyn wedi cynyddu'n sydyn ac mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cymryd mesurau i reoli'r galw hwn, sy'n debygol o gynnwys cynyddu'r swm o arian cyfatebol a ddarperir gan gyllidebau rhaglenni presennol (y blwch A ar dudalen 14). |
| vi | Bod pob swydd sy'n weddill ar gyfer hwyluswyr y sector preifat yn cael eu llenwi heb unrhyw oedi pellach a bod WEFO yn rhoi pob ymdrech i sicrhau llwyddiant y prosiectau "glasbrint"; | Cafwyd cais am gymorth technegol gan Siambr Fasnach a Diwydiant Gogledd Cymru, ac os yw'n llwyddiannus, bydd y Siambr yn rheoli'r prosiect i gyflwyno'r chwe swydd, ac mae yng nghamau terfynol cymeradwyaeth. Mae disgrifiadau swyddi a manylebau person wedi'u llunio ac mae'r swyddi wedi'u hysbysebu. Bydd yr hyfforddiant ar gyfer hwyluswyr yn cael ei drefnu gan Uned Sector Preifat WEFO a bwriedir iddo ddigwydd ym mis Chwefror 2003.<br><br>Mae'r broses ar gyfer "prosiectau glasbrint" yn cael ei threialu gyda phrosiect TGCh ar gyfer gwasanaeth rheoli data i SMEs. Mae WEFO yn edrych i ddatblygu rhwng chwech a deuddeg o brosiectau o'r fath gyda chyfartaledd gwerth o £5 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf. | Cafodd yr holl hwyluswyr eu penodi erbyn Chwefror 2003 ac maent wedi rhagori ar y targedau i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglenni. Yn ogystal, ceir targed i godi trosiant busnesau a gynorthwyir a fydd yn cymryd mwy o amser i'w gyflawni (paragraff 3.13).<br><br>Mae cynnydd arafach wedi'i wneud â'r prosiectau glasbrint (bellach yn cael eu hadnabod fel prosiectau templed), ond mae proses ar gyfer eu datblygu a'u cymeradwyo wedi'i chytuno arni. Mae WEFO yn bwriadu cymeradwyo manyleb ar gyfer y prosiect peilot erbyn canol 2004, ac yn gobeithio datblygu wyth prosiect erbyn 2005. (paragraff 3.15). |

| | Argymhellodd y Pwyllgor Archwilio[3]: | Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru | Y sefyllfa bresennol a nodir yn yr adroddiad |
|---|---|---|---|
| vii | Bod WEFO yn adolygu proses datblygu ac asesu'r prosiect, gyda'r bwriad o dynnu i ffwrdd neu newid yr elfennau hynny sy'n mynd yn ddiangen. Cytunwn â bwriad WEFO i gael gwared ar ail gam yr ymgynghori â phartneriaethau, os yw'r cam cyntaf yn gweithio'n dda, ac annog bod hyn yn cael ei wneud ar y cyfle cynharaf | Mae WEFO yn ymwybodol bod angen sicrhau bod proses datblygu ac arfarnu'r prosiect yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon a, chyda phartneriaid, yn ei hadolygu'n barhaus. Nid oes ail gyfnod o ymgynghori gyda phartneriaid lleol a rhanbarthol a allai ychwanegu at y raddfa amser; ond mae'r adroddiadau prosiect sy'n mynd i'r partneriaethau strategaeth yn cael eu copïo ar y un pryd i'r partneriaethau lleol a rhanbarthol. | Arweiniodd WEFO adolygiad sylfaenol o'r broses ar gyfer Amcan 1 a derbyniwyd y trefniadau newydd gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ym mis Mehefin 2003, gan ddod i rym o fis Ionawr 2004 ymlaen. Mae nifer y partneriaethau wedi'i lleihau ac nid oes rhaid i fwyafrif y prosiectau gael eu cyflwyno trwy bartneriaethau bellach. Cafodd y broses ei symleiddio trwy gael gwared ar neu gyfuno sawl cam, fel bod tasgau allweddol yn gorgyffwrdd er mwyn lleihau hyd yr holl broses (paragraffau 3.17-3.20) |
| viii | Bod WEFO yn defnyddio'i system wybodaeth newydd i fonitro amserau arfarnu yn systematig, fel y gellir adnabod unrhyw broblemau neu oediadau yn gyflym | Gall y system wybodaeth ddarparu dadansoddiad o'r amser a gymerir i brosesu cais yn WEFO. Bydd WEFO yn parhau yn effro i broblemau neu oediadau sy'n codi ac mae hefyd yn ystyried faint o le sydd ar gyfer dadansoddi cynnydd prosiectau yn ystod y datblygiad, h.y. cyfnod y proforma, ond yn y pen draw, mae ansawdd y prosiectau a gymeradwyir yn bwysicach na'r amser a gymerir. | Mae WEFO wedi ymgymryd â pheth ymchwil fanwl i barhad y broses arfarnu ac mae wedi ehangu ei system gwybodaeth reoli i ddarparu gwybodaeth fanwl ar amseru amrywiol dasgau arfarnu. Mae'r data hwn wedi'i gasglu ers mis Gorffennaf 2003 ac mae WEFO yn ystyried sut y dylid ei ddefnyddio i fonitro a rheoli amserau arfarnu yn barhaus (paragraff 3.27). |
| ix | Bod WEFO yn parhau i ddatblygu cynigion ar gyfer cronfeydd allweddol a chomisiynu prosiectau, tra'n monitro'n agos yr effaith maent yn eu cael ar y gyfradd gwario | Mae nifer o gronfeydd allweddol eisoes wedi'u cymeradwyo, yn bennaf ym Mlaenoriaeth 3 ac ym Mesurau datblygiad economaidd gwledig Blaenoriaeth 5; mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru hefyd yn rheoli'r Gronfa Cyfalaf Risg Cymdeithasol. Bydd WEFO yn parhau i weithio gydag ymgeiswyr i'w helpu i ddatblygu cynigion lle bydd y rhain yn galluogi mynediad haws at y rhaglen.<br><br>Cafwyd adnabod prosiectau penodol neu anghenion penodol yn y Mesurau seilwaith sy'n delio â thrafnidiaeth a safleoedd ac adeiladau strategol. Mae gwaith ar droed ar hyn o bryd i adnabod prosiectau ynni a fyddai'n flaenoriaeth ar gyfer cefnogaeth o dan y rhaglen. Mae comisiynu prosiectau hefyd yn digwydd yn achos "prosiectau templed".<br><br>Caiff y gyfradd wario ei monitro'n agos ar gyfer pob math o brosiect. | Mae'r defnydd o gronfeydd allweddol wedi'i ymestyn gyda mwy o awdurdodau lleol yn eu defnyddio i gefnogi prosiectau bach lleol. Mae gan fwyafrif yr awdurdodau lleol yn ardal Amcan 1 bellach gronfeydd allweddol ar gyfer datblygiad economaidd cymunedol, ond nid yw eu defnydd yn gyffredinol. Mae WEFO yn ystyried bod cronfeydd allweddol bellach wedi'u sefydlu'n dda ac nid oes ganddo gynlluniau ar gyfer unrhyw ehangiad sylweddol.<br><br>Mae comisiynu prosiectau neu weithgarwch tebyg wedi digwydd fel a ddisgrifiwyd. Mae nifer o brosiectau ynni a thrafnidiaeth wedi'u cymeradwyo, ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn paratoi prosiect gofal-plant mawr i fodloni angen adnabyddedig yn yr ardal honno (Blwch F ar dudalen 39).<br><br>Mae WEFO hefyd yn bwriadu gwneud mwy o ddefnydd o'r Cronfeydd Strwythurol i gydariannu rhaglenni presennol Llywodraeth y Cynulliad, a dylai hyn gael yr un effaith â chronfeydd allweddol a chomisiynu prosiectau wrth fodloni anghenion strategol a lleihau rhwystrau i fynediad (paragraff 5.28 a'r blwch F ar dudalen 39). |

<table>
<tr><th colspan="2">Argymhellodd y Pwyllgor Archwilio[3]:</th><th>Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru</th><th>Y sefyllfa bresennol a nodir yn yr adroddiad</th></tr>
<tr><td>x</td><td>Bod WEFO yn gweithredu'n fuan i gryfhau ei arweiniad a datblygu fframwaith ar gyfer asesu gwerth ychwanegol. Rydym yn disgwyl i hyn arwain at fwy o eglurder a dealltwriaeth ehangach o'r hyn sydd ei angen, ac asesiad risg-seiliedig trylwyr o werth ychwanegol yn y cam arfarnu.</td><td rowspan="3">Mae arweiniad WEFO ar arfarnu prosiectau eisoes wedi'i atgyfnerthu ym mhob un o'r meysydd hyn. Ar fater gwerth am arian costau ac allbynnau prosiectau, caiff costau uned eisoes eu hystyried wrth arfarnu prosiectau ESF ac mae'r meini prawf sgorio ar gyfer ERDF/EAGGF/FIFG yn cael eu hadolygu i sicrhau bod y pwysiad a roddir i gostau uned yn briodol. Mae costau prosiectau cyfalaf hefyd yn cael eu meincnodi gan ymgynghorwyr proffesiynol.</td><td rowspan="3">Cyhoeddwyd arweiniad diwygiedig ym mis Gorffennaf 2002 ac mae wedi esblygu ers hynny, ac mae gwell arweiniad bellach ar gael i staff ar sut i asesu gwerth ychwanegol, angen am brosiectau a barnau allweddol eraill yn y broses arfarnu. Canmolodd y gwerthusiad canol-tymor ar gyfer Amcan 1 y fframwaith a'r arweiniad a ddefnyddiwyd i ddewis prosiectau (paragraff 3.35)<br><br>Mae problemau yn parhau wrth ddogfennu asesiad WEFO o'r prif feini prawf arfarnu, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys barn. Beirniadodd yr Archwiliad Mewnol safon y ddogfennaeth ar gyfer arfarniad WEFO o brosiectau Amcan 1 ERDF (paragraff 3.35).<br><br>Mae WEFO wedi cyhoeddi arweiniad cyfyngedig ar gostau uned i helpu ei swyddogion asesu gwerth am arian, ond nid yw'n dymuno ymestyn hyn gan ei fod yn ystyried nad yw amrywiaeth a chymhlethdod y prosiectau yn addas ar gyfer costio safonol. Yn lle hynny, mae WEFO yn gwneud mwy o ddefnydd o gyngor proffesiynol, yn enwedig ar gyfer prosiectau cyfalaf. Nid yw WEFO wedi diwygio'r meini prawf sgorio ar gyfer ERDF, EAGGF ac FIFG (Ffigur 7).</td></tr>
<tr><td>xi</td><td>Bod WEFO yn sicrhau bod asesiad manwl addas o'r angen am brosiect yn cael ei gyflawni ar gyfer pob prosiect, gan ymgorffori gwaith y partneriaethau lle bo'n bosibl, a bod hyn yn cael ei ddogfennu'n gywir ar ffeiliau WEFO yn y dyfodol.</td></tr>
<tr><td>xii</td><td>Bod WEFO yn datblygu system fwy cyson a grymus ar gyfer asesu gwerth am arian costau ac allbynnau prosiectau.</td></tr>
<tr><td>xiii</td><td>Bod WEFO efallai, trwy ei ymweliadau rheoli ariannol, yn cymryd camau i gadarnhau yn gynnar ym mywyd pob prosiect bod systemau a threfniadau cadw cofnodion da yn eu lle ac nad oes problemau difrifol gyda chyflwyno.</td><td>Mae gweithdrefnau WEFO, sy'n cynnwys ymagwedd risg-seiliedig i archwilio, eisoes yn cynnwys ystod o archwiliadau i geisio sicrhau bod gan noddwyr prosiectau systemau priodol yn eu lle. Bydd WEFO yn ystyried a oes angen datblygiad pellach ar ei weithdrefnau arfarnu prosiectau a rheoli ariannol.</td><td>Bydd hyn yn cael ei wneud yn bennaf gan y tîm monitro prosiectau newydd (gweler (xv) isod), a fydd yn ymweld â thua deg y cant o brosiectau bob blwyddyn a ddewisir ar sail asesiad risg (paragraffau 4.10-4.12).<br><br>Mae'r tîm rheoli ariannol hefyd yn astudio rheolaethau, ond mae ei waith yn tueddu i gael ei wneud yng nghyfnodau hwyraf y prosiect ar ôl i wariant ac allbynnau sylweddol ddigwydd.</td></tr>
<tr><td>xiv</td><td>Bod WEFO yn ymgymryd ag adolygiad o'r trefniadau presennol ar gyfer archwilio a rheoli ariannol, gyda'r bwriad o wella eglurder a chydlyniad rolau'r archwilwyr prosiectau allanol a'i dîm rheoli ariannol ei hun.</td><td>Mae WEFO eisoes wedi cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer archwiliad interim a hawliad terfynol ESF. Bydd WEFO yn gweithio gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i wneud gwelliannau ar y Cronfeydd Strwythurol eraill ac mae'n bwriadu cyhoeddi datganiad yn amlinellu rolau priodol archwilwyr prosiectau allanol a thimau rheoli ariannol.</td><td>Cyflwynwyd trefniadau newydd ar gyfer archwiliad ESF yn 2003, ac maent yn darparu mwy o eglurder ar natur a graddau'r arbrofi y dylai archwilwyr ei wneud. Fodd bynnag, ni chafodd hyn ei ymestyn i adolygiad ehangach o'r arweiniad i archwilwyr prosiectau, cwmpas eu gwaith a sut y dylai gysylltu â systemau eraill WEFO o fonitro a rheoli prosiectau. O ganlyniad, mae rhai anghysonderau yn parhau yng nghwmpas y gwaith y gofynnir i archwilwyr ei wneud ac nid yw WEFO wedi cyhoeddi datganiad yn amlinellu rolau priodol archwilwyr prosiectau allanol a thimau rheoli ariannol (paragraffau 4.5-4.7 a 4.13-4.16).</td></tr>
</table>

| Argymhellodd y Pwyllgor Archwilio[3]: | | Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru | Y sefyllfa bresennol a nodir yn yr adroddiad |
|---|---|---|---|
| xv | Bod WEFO yn ystyried mabwysiadu polisi o ymweld â'r holl noddwyr prosiectau o leiaf unwaith i adolygu cynnydd cyffredinol ac i wirio gwybodaeth allbynnau | Ar hyn o bryd, mae WEFO yn adolygu faint o le sydd ar gyfer monitro'r rhaglenni ar lefel prosiect a bydd yn ystyried argymhellion y Pwyllgor. | Mae WEFO wedi sefydlu uned monitro prosiectau ar wahân o ddeuddeg o bobl i ymweld â phrosiectau er mwyn trafod cynnydd cyffredinol ac adolygu systemau rheoli a rheolaeth. Nod yr uned yw ymweld â deg y cant o brosiectau byw bob blwyddyn, ac ymweld â phob asiantaeth cais o leiaf unwaith dros fywyd y rhaglenni presennol. Bydd partneriaethau lleol hefyd yn cynnal cyswllt uniongyrchol â noddwyr prosiectau i adolygu cynnydd cyffredinol (paragraffau 4.10-4.12). |
| xvi | Bod WEFO yn cymryd pob cam posibl i leihau'r perygl o ddadneilltuo yn enwedig ar EAGGF a FIFG lle mae'r peryglon hynny'n ymddangos fwyaf ar hyn o bryd | Mae'r targed gwario ar gyfer EAGGF ac FIFG ar gyfer 2002 bellach wedi'i gyflawni ac mae hyn wedi sicrhau na fydd unrhyw arian dadneilltuo eleni. Yn y blynyddoedd i ddod, bydd WEFO yn parhau i fonitro gwariant ar draws y Cronfeydd a'r rhaglenni a bydd yn gweithio gyda phartneriaid i osgoi unrhyw ddadneilltuo. | Cafodd targedau gwario ar gyfer 2002 a 2003 i gyd eu cyflawni ac ni chafwyd dadneilltuo.<br><br>Sefydlodd WEFO weithgor i fonitro'r sefyllfa a chymerwyd camau priodol i greu gwariant ychwanegol, gan gynnwys ariannu ôl-weithredol y prosiectau. Roedd y rhain yn allweddol wrth fodloni'r targedau gan y byddai gwario trwy'r sianeli arferol wedi bod yn annigonol. Mae oediadau prosiectau, hawliadau hwyr a thanwario gan noddwyr prosiectau, a diffyg prosiectau mewn rhai ardaloedd yn parhau i rwystro cyfraddau gwariant ac mae angen mynd i'r afael â nhw i sefydlogi'r sefyllfa tymor hir (paragraffau 5.7-5.26). |
| xvii | Argymhellwn fod WEFO yn rhoi sylw penodol i ddatblygu ei weithdrefnau rhagweld - a gallu noddwyr y prosiectau yn yr un ardal - i sicrhau bod gor-ymrwymo cymedrol, tra caiff ei reoli'n dynn ac yn unol â thueddiadau diweddar, yn ddigonol i ddefnyddio'r Cronfeydd Strwythurol yn llawn. | Mae WEFO yn parhau i fonitro ymrwymiad yn ofalus ac mae gwaith ar droed i ddatblygu modelau darogan a fydd yn cysylltu ymrwymiad â gwariant yn well ac yn datblygu adroddiadau sy'n adnabod prosiectau problematig. Nid ydym yn eithrio'r posibilrwydd, yn ngoleuni'r gwaith hwn, o rywfaint o or-ymrwymo cymedrol ar adeg briodol. | Nid yw WEFO wedi datblygu modelau darogan grymus ondmae'n adolygu'r sefyllfa ymrwymiad a gwariant yn rheolaidd. Mae WEFO yn amcangyfrif bod prosiectau yn arfer gwario 40 y cant yn is na'r proffil a amcangyfrifir pan gaiff eu grantiau eu cymeradwyo, y mae peth ohono yn ganlyniad gor-gyllidebu. Ar sail y wybodaeth sydd ar gael, mae WEFO yn bwriadu dwyn ymlaen i 2004 25 y cant o'r grantiau a gymeradwyir sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2005, ac i anelu at gau'r rhaglenni ganol 2008 (paragraffau 5.28-5.29). |
| xviii | Bod WEFO a Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried gyda'i gilydd sut y gellir rheoli perygl y gyfradd gyfnewid yng nghyfnodau terfynol y rhaglenni pan fydd lle ar gyfer newid gwariant o fewn y cylch rhaglennu yn cael ei leihau'n gynyddol. | Bydd Llywodraeth y Cynulliad a WEFO yn cadw'r gyfradd gyfnewid dan adolygiad. Mae'n rhy gynnar i fwrw amcan ar y sefyllfa yn 2009 ond mae lle i addasu trwy ddiwygio cymeradwyaethau neu gyhoeddi rhai newydd hyd at y dyddiad talu terfynol os oes angen er mwyn cyflawni'r mwyaf posibl o'r rhaglenni. | Mae WEFO yn monitro'r gyfradd gyfnewid £/€ ac mae'n diwygio'i gynlluniau ariannol os yw'n amrywio gan fwy na phump y cant o'r gyfradd gynllunio (ar hyn o bryd £1 = € 1.40). Os yw'r gyfradd yn dirywio, byddai WEFO yn cymeradwyo prosiectau yn ôl-weithredol a chynyddu cyfraddau grantiau i amsugno'r arian ychwanegol. Os yw'r gyfradd yn codi ac mae WEFO yn wynebu diffyg ariannu, byddai angen iddo dorri cyfraddau grantiau a dileu rhai prosiectau,(paragraff 5.28). |

# 2 Atodiad

## Peryglon i Gymru'n ennill y fantais fwyaf gan y Cronfeydd Strwythurol, fel a nodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei adroddiad ym mis Mehefin 2002

| | Risg bosibl | Cyfeiriad paragraff yr adroddiad presennol |
|---|---|---|
| 1 | A oes gan WEFO ddigon o staff i gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol? | 2.2 - 2.4 |
| 2 | A oes gan WEFO y systemau gwybodaeth i gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol? | 2.5 - 2.12 |
| 3 | A yw'r rhaglenni'n cael eu hyrwyddo'n effeithiol | 3.12 - 3.13 (sector preifat yn unig) |
| 4 | A yw ceisiadau prosiectau'n destun gweithdrefnau arfarnu grymus? | 3.32 - 3.36 |
| 5 | A yw'r broses arfarnu yn rhy gymhleth ac yn cymryd amser? | 3.17 - 3.31 |
| 6 | A oes arian cyfatebol ar gael yn barod? | 3.3 - 3.10 |
| 7 | A yw'r prosiectau'n cael eu rheoli'n gywir yn ariannol? | 4.2 - 4.12 |
| 8 | A yw monitro prosiectau a'r rhaglen yn eu cyfanwaith yn ddigonol? | 4.10 - 4.23 |
| 9 | A yw'r arian yn cael ei wario'n ddigon cyflym i osgoi "dadneilltuo"? | 5.7 - 5.29 |
| 10 | A oes trefniadau gwerthuso effeithiol? | 1.5 |
| 11 | A fydd Cymru'n elwa oherwydd y Gronfa Berfformiad canol-tymor? | 5.4 - 5.6 |